considered to apply to the non-radioactive contaminated land regime do not apply in the case of the radioactive contaminated land regime. Therefore this Statutory Guidance does not alter the substance of the current Statutory Guidance on radioactive contaminated land, for example, the tests for determining whether land is radioactively contaminated in the legal sense remain the same, but purely separates the guidance from that of non radioactive contaminated land.

## **Consultation**

11. A 12 week consultation was launched by Defra and the Welsh Government on 21 December 2010 on proposals to update the contaminated land regimes in England and Wales. There were 112 responses to the consultation from interested parties including local authorities, consultants/contractors, industry, lawyers and academics. Supplementary meetings also took place with interested parties during and after the consultation period. There was general support overall for the proposals including the proposal to issue separate Statutory Guidance on radioactive contaminated land. The consultation document stated that there was no plan to have a separate consultation on this guidance and the Welsh Government decided not to hold a separate formal public consultation on the new statutory RCL guidance because:

- The specific rules on radioactive land were subject to full public consultation in 2006.
- No substantive changes are planned for the rules on radioactivity, other than some of the wider changes already consulted on; and,
- The proposed amendments to the Contaminated Land (Wales) Regulations 2006 which were consulted on are of a minor nature.

## **Guidance**

12. Information on how the existing Statutory Guidance is being changed will be made available on the Welsh Government website at <http://wales.gov.uk>

## **Regulatory Impact Assessment**

13. A Regulatory Impact Assessment has not been prepared as the Regulations will impose no significant costs on the public or private sectors, charities, the voluntary sector and the business sector.

## **Impact**

14. The impact on businesses, charities, the public sector and the voluntary sector is expected to be negligible because this document replaces the existing Statutory Guidance with no material changes to the substance of the radioactive contaminated land regime. No land has been designated as radioactively contaminated in Wales.



## **Monitoring & review**

15. Review of this Statutory Guidance will be considered in parallel with DECC's and Defra's overall review of policy on the contaminated land regime in October 2016.

# Eitem 5

DOGFENNAU SY'N MYND GYDA'R BIL  
Caiff Nodiadau Esboniadol a Memorandwm Esboniadol eu hargraffu ar wahân.

## Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)

[FEL Y'I CYFLWYNWYD]

### CYNNWYS

*Cyflwyniad*

1 Trosolwg

### RHAN 1

#### ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

##### PENNOD 1

##### SWYDD ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

- 2 Swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru
- 3 Ymddiswyddiad neu ddiswyddiad
- 4 Anghymhwys
- 5 Cyflogaeth etc cyn-Archwilydd Cyffredinol
- 6 Statws etc
- 7 Talu cydnabyddiaeth

##### PENNOD 2

##### SWYDDOGAETHAU'R ARCHWILYDD CYFFREDINOL

*Darpariaethau cyffredinol ynglŷn ag arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol etc*

- 8 Sut y mae swyddogaethau i gael eu harfer
- 9 Pwerau Atodol
- 10 Cod ymarfer archwilio

*Swyddogaethau mewn perthynas â llywodraeth leol*

- 11 Archwilio cyrff llywodraeth leol

*Darpariaeth yn ymwneud â throsglwyddo swyddogaethau goruchwyliol Gweinidogion Cymru*

- 12 Trosglwyddo etc swyddogaethau goruchwyliol Gweinidogion Cymru: ymgynghori

## RHAN 2

### SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU A'I PHERTHYNAS Â'R ARCHWILYDD CYFFREDINOL

#### PENNOD 1

##### SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

- 13 Ymgorffori Swyddfa Archwilio Cymru
- 14 Pwerau
- 15 Effeithlonrwydd

#### PENNOD 2

##### Y BERTHYNAS RHWNG YR ARCHWILYDD CYFFREDINOL A SAC

###### *Cyffredinol*

- 16 Y berthynas â'r Archwilydd Cyffredinol
- 17 SAC i fonitro a darparu cyngor
- 18 Dirprwyo swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a'u harfer ar y cyd

###### *Darparu gwasanaethau*

- 19 Darparu gwasanaethau

###### *Incwm a gwariant*

- 20 Gwariant
- 21 Darparu adnoddau ar gyfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol
- 22 Benthg

###### *Ffioedd*

- 23 Darpariaeth gyffredinol yn ymwneud â ffioedd
- 24 Cynllun ar gyfer codi ffioedd

###### *Cynllun blynyddol*

- 25 Cynllun blynyddol
- 26 Cynllun blynyddol: adnoddau i'w dyrannu i'r Archwilydd Cyffredinol
- 27 Cynllun blynyddol: y Cynulliad Cenedlaethol
- 28 Cynllun blynyddol: effaith

## RHAN 3

### AMRYWIOL A CHYFFREDINOL

- 29 Swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol
- 30 Indemnio
- 31 Gorchmynion
- 32 Cyfarwyddiadau
- 33 Dehongli
- 34 Darpariaethau trosiannol, atodol ac arbed etc
- 35 Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol
- 36 Cychwyn
- 37 Enw byr

- Atodlen 1 – Corffori Swyddfa Archwilio Cymru
  - Rhan 1 – Aelodaeth a statws
  - Rhan 2 – Aelodau anweithredol
  - Rhan 3 – Yr Archwilydd Cyffredinol
  - Rhan 4 – Aelod sy'n gyflogai
  - Rhan 5 – Cyflogeion
  - Rhan 6 – Anghymhwysio fel aelod o SAC neu gyflogai iddi
  - Rhan 7 – Rheolau gweithdrefnol
  - Rhan 8 – Materion eraill
- Atodlen 2 – Y berthynas rhwng yr Archwilydd Cyffredinol a SAC
  - Rhan 1 – Adroddiadau a dogfennau
  - Rhan 2 – Person arall, dros dro, yn arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol
- Atodlen 3 – Darpariaethau trosiannol, atodol ac arbed
  - Rhan 1 – Yr Archwilydd Cyffredinol
  - Rhan 2 – SAC
  - Rhan 3 – Trosglwyddo swyddogaethau etc
- Atodlen 4 – Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol



# Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)

[FEL Y'I CYFLWYNWYD]

Deddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud darpariaeth i ddiwygio trefniadau archwilio yng Nghymru; i ragnodi y bydd swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn parhau, ac i greu corff newydd o'r enw Swyddfa Archwilio Cymru; i ddarparu mai Archwilydd Cyffredinol Cymru fydd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru; ac at ddibenion cysylltiedig.

5 **Wedi iddo gael ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chael cydsyniad Ei Mawrhydi, deddfir fel a ganlyn:**

## Cyflwyniad

### 1 Trosolwg

Mae prif ddarpariaethau'r Ddeddf hon—

- 10 (a) yn rhagnodi bod swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn parhau ar y telerau a nodir yn Rhan 1, Pennod 1;
- (b) yn greu corff corfforaethol newydd o'r enw Swyddfa Archwilio Cymru ("SAC") ac yn rhoi swyddogaethau iddo (Rhan 2, ac Atodlenni 1 a 2);
- 15 (c) yn rhagnodi trefniadau llywodraethu ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a SAC, gan gynnwys trefniadau ar gyfer arolygiaeth yr Archwilydd Cyffredinol gan SAC, a darpariaethau yn ymwneud â'r berthynas rhwng y ddau (Rhan 2, Pennod 2 ac Atodlenni 1 a 2);
- (d) yn rhagnodi sut y mae swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru i'w harfer, ac yn gwneud darpariaeth i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio cyfrifon
- 20 cyrff llywodraeth leol yng Nghymru (Rhan 1, Pennod 2).

## RHAN 1

### ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

#### PENNOD 1

#### SWYDD ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

### 25 2 Swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru

- (1) Bydd swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr "Archwilydd Cyffredinol") yn parhau.
- (2) Ei Mawrhydi sydd i benodi person i fod yn Archwilydd Cyffredinol ar enwebiad y Cynulliad Cenedlaethol.
- (3) Nid oes enwebiad i gael ei wneud hyd nes bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi ei fodloni
- 30 bod ymgynghoriad rhesymol wedi cael ei wneud gyda'r cyrff hynny yr ymddengys i'r Cynulliad eu bod yn cynrychioli buddiannau cyrff llywodraeth leol yng Nghymru.
- (4) Mae'r person sydd wedi ei benodi yn dal y swydd am hyd at 8 mlynedd.

- (5) Ni chaniateir i'r person gael ei benodi eto.
- (6) Ni effeithir ar ddilysrwydd gweithred neu anweithred person a benodwyd yn Archwilydd Cyffredinol gan ddiffyg yn enwebiad neu benodiad y person hwnnw.

### 3 Ymddiswyddiad neu ddiswyddiad

- 5 (1) Mae person a benodir yn Archwilydd Cyffredinol yn dal y swydd tan ddiwedd y cyfnod y penodwyd y person hwnnw ar ei gyfer (yn ddarostyngedig i is-adrannau (2) a (3)).
- (2) Caiff Ei Mawrhydi ryddhau person o'i swydd fel Archwilydd Cyffredinol cyn diwedd y cyfnod y penodwyd y person ar ei gyfer –
  - 10 (a) ar gais y person, neu
  - (b) wedi i'w Mawrhydi gael ei bodloni nad yw'r person yn gallu, oherwydd rhesymau meddygol, cyflawni dyletswyddau'r swydd na gwneud cais i gael ei ryddhau ohoni.
- (3) Caiff Ei Mawrhydi ddiswyddo person o'i swydd fel Archwilydd Cyffredinol cyn diwedd y cyfnod y penodwyd y person ar ei gyfer ar dderbyn argymhelliad, ar sail camymddygiad y person, y dylai Ei Mawrhydi wneud hynny.
- 15 (4) Ni chaniateir gwneud argymhelliad i ddiswyddo person o'i swydd fel Archwilydd Cyffredinol oni bai –
  - (a) bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi penderfynu y dylai'r argymhelliad gael ei wneud, a
  - 20 (b) bod penderfyniad y Cynulliad wedi ei basio ar bleidlais lle yr oedd nifer yr aelodau Cynulliad a bleidleisiodd o blaid yn ddim llai na dwy ran o dair o gyfanswm nifer y seddi yn y Cynulliad.

### 4 Anghymhwysu

- 25 (1) Ni all person gael ei benodi yn Archwilydd Cyffredinol os yw'r person wedi ei anghymhwysu ar unrhyw un o'r seiliau a bennir yn is-adran (3).
- (2) Mae person yn peidio â bod yn Archwilydd Cyffredinol os yw'r person yn cael ei anghymhwysu ar unrhyw un o'r seiliau a bennir yn is-adran (3).
- (3) Mae person wedi ei anghymhwysu rhag bod yn Archwilydd Cyffredinol os yw'r person –
  - 30 (a) yn Aelod o'r Cynulliad Cenedlaethol;
  - (b) yn dal unrhyw swydd arall y caniateir i berson gael ei benodi iddi, ei argymell ar ei chyfer neu ei enwebu ar ei chyfer, gan neu ar ran y canlynol –
    - (i) y Goron,
    - (ii) y Cynulliad Cenedlaethol, neu
    - 35 (iii) Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol;
  - (c) yn Aelod o Dŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi;
  - (d) yn Aelod o Senedd yr Alban;
  - (e) yn Aelod o Gynulliad Gogledd Iwerddon;

(f) yn gyflogai i Swyddfa Archwilio Cymru.

## 5 Cyflogaeth etc cyn-Archwilydd Cyffredinol

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i berson a oedd wedi ei benodi yn Archwilydd Cyffredinol o dan y Rhan hon, ond nad yw bellach yn y swydd honno.

(2) Cyn gwneud y canlynol –

(a) cymryd swydd o ddisgrifiad a bennir gan y Cynulliad Cenedlaethol, neu

(b) ymrwymo i gytundeb neu drefniant arall o ddisgrifiad a bennir felly,

rhaid i'r person ymgynghori ag unrhyw berson a bennir gan y Cynulliad Cenedlaethol.

(3) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi rhestr o'r canlynol –

(a) y swyddi a bennir at ddibenion is-adran (2)(a);

(b) y cytundebau a'r trefniadau eraill a bennir at ddibenion is-adran (2)(b).

(4) Mae is-adrannau (5) a (6) yn gymwys am gyfnod o 2 flynedd sy'n dechrau ar y diwrnod y mae'r person yn peidio â bod yn Archwilydd Cyffredinol.

(5) Rhaid i'r person beidio â gwneud y canlynol –

(a) dal swydd y caniateir i berson gael ei benodi iddi, ei argymhell ar ei chyfer neu ei enwebu ar ei chyfer gan neu ar ran –

(i) y Goron,

(ii) y Cynulliad Cenedlaethol, neu

(iii) Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol; neu

(b) bod yn aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai i berson a restrir yn is-adran (7).

(6) Rhaid i'r person beidio â darparu gwasanaethau, yn rhinwedd unrhyw swydd, i'r canlynol –

(a) y Goron, neu unrhyw gorff neu berson arall sy'n gweithredu ar ran y Goron,

(b) y Cynulliad Cenedlaethol neu unrhyw gorff neu berson arall sy'n gweithredu ar ran y Cynulliad,

(c) Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol neu unrhyw gorff neu berson arall sy'n gweithredu ar ran y Comisiwn, neu

(d) person a restrir yn is-adran (7).

(7) Dyma'r personau –

(a) person y mae ei gyfrifon neu ei ddatganiad o gyfrifon yn agored i'r Archwilydd Cyffredinol ymchwilio iddynt neu iddo yn unol â darpariaeth a wneir drwy ddeddfiad neu yn rhinwedd deddfiad;

(b) person y mae astudiaeth neu ymchwiliad gwerth am arian a wneir neu a gynhelir gan yr Archwilydd Cyffredinol yn unol â darpariaeth a wneir drwy ddeddfiad neu yn rhinwedd deddfiad yn ymwneud ag ef;



- (c) person y mae astudiaeth a wneir gan yr Archwilydd Cyffredinol yn unol ag adran 145A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (astudiaethau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau gan gorff neu gyrrff perthnasol) yn ymwneud ag ef;
- (d) landlord cymdeithasol cofrestredig y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn darparu cyngor neu gymorth iddo o dan adran 145D o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998;
- (e) person y mae gan yr Archwilydd Cyffredinol swyddogaethau mewn perthynas ag ef, neu y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn arfer swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag ef, yn rhinwedd adran 146A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (trosglwyddo swyddogaethau Gweinidogion Cymru);
- (f) person y mae cyfrifon a ddarperir gan Weinidogion Cymru o dan adran 131 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i ymwneud â'i faterion ariannol a'i gyfrifon yn rhinwedd is-adran (3) o'r adran honno;
- (g) person y mae cyfrifon a ddarperir gan Gomisiwn y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i ymwneud â'i faterion ariannol a'i gyfrifon yn rhinwedd is-adran (2) o'r adran honno.
- (8) Ond nid yw is-adrannau (5) a (6) yn atal personrhag dal unrhyw un o'r swyddi canlynol—
- Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol;
  - Archwilydd Cyffredinol yr Alban;
  - Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Gogledd Iwerddon.
- (9) Yn yr adran hon, ystyr "astudiaeth neu ymchwiliad gwerth am arian" yw astudiaeth neu ymchwiliad i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd person o ran y ffordd y mae wedi cyflawni ei swyddogaethau neu wedi defnyddio adnoddau i gyflawni'r swyddogaethau hynny.

## 6 Statws etc

- Mae'r person sydd am y tro yn dal swydd yr Archwilydd Cyffredinol yn parhau, yn enw'r swydd honno, i fod yn gorfforaeth undyn.
- Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol i'w ystyried yn dal swydd o dan Ei Mawrhydi neu'n un sy'n arfer unrhyw swyddogaeth ar ran y Goron.
- Ond ystyrir bod yr Archwilydd Cyffredinol yn was i'r Goron at ddibenion Deddf Cyfrinachau Swyddogol 1989.

## 7 Talu cydnabyddiaeth

- Cyn i berson gael ei benodi yn Archwilydd Cyffredinol, bydd trefniadau ar gyfer talu cydnabyddiaeth yn cael eu gwneud o ran y person hwnnw gan y Cynulliad Cenedlaethol.
- Ond cyn y gellir gwneud y trefniadau hynny rhaid ymgynghori â'r Prif Weinidog.
- Caiff trefniadau ar gyfer talu cydnabyddiaeth—
  - gwneud darpariaeth ar gyfer cyflog, lwfansau, arian rhodd, trefniadau ar gyfer pensiwn a buddion eraill, a

(b) cynnwys fformiwla neu fecanwaith arall ar gyfer addasu un neu fwy o'r elfennau hynny o dro i dro.

(4) Ond ni chaiff unrhyw elfen fod yn seiliedig ar berfformiad.

(5) Rhaid i Gomisiwn y Cynulliad Cenedlaethol dalu i'r Gweinidog dros y Gwasanaeth Sifil, ar yr adegau hynny a benderfynir gan y Gweinidog, daliadau o'r symiau hynny y penderfynir arnynt felly o ran y canlynol—

(a) darparu pensiynau, lwfansau, rhoddion ariannol neu fuddion eraill yn rhinwedd adran 1 o Ddeddf Blwydd-daliadau 1972 i, neu mewn perthynas ag, unrhyw berson sydd yn dal swydd yr Archwilydd Cyffredinol neu sydd wedi peidio â dal y swydd honno, a

(b) y treuliau yr aed iddynt drwy weinyddu'r pensiynau hynny, y lwfansau hynny, y rhoddion ariannol hynny neu'r buddion eraill hynny.

(6) Bydd symiau sy'n daladwy yn rhinwedd yr adran hon yn cael eu codi ar Gronfa Gyfunol Cymru ac yn cael eu talu ohoni.

## PENNOD 2

### SWYDDOGAETHAU'R ARCHWILYDD CYFFREDINOL

*Darpariaethau cyffredinol ynglŷn ag arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol etc*

#### 8 Sut y mae swyddogaethau i gael eu harfer

(1) Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ddisgresiwn llwyr o ran y modd y mae swyddogaethau'r swydd honno i gael eu harfer ac nid yw'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd na rheolaeth y Cynulliad Cenedlaethol na Llywodraeth Cymru.

(2) Ond mae'r disgresiwn hwn yn ddarostyngedig i is-adran (3).

(3) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol—

(a) anelu at gyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol a chost-effeithlon;

(b) rhoi ystyriaeth, fel y mae'n ystyried yn briodol, i'r safonau a'r egwyddorion y disgwylir i ddarparwr arbenigol proffesiynol mewn cyfrifyddiaeth neu wasanaethau archwilio eu dilyn;

(c) rhoi ystyriaeth i gyngor a roddir iddo gan SAC (gweler adran 17(3)).

#### 9 Pwerau Atodol

(1) Caiff yr Archwilydd Cyffredinol wneud unrhyw beth a fwriedir i hwyluso arfer unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau, neu sy'n ffafriol i'w harfer neu'n gysylltiedig â'i harfer neu â'u harfer.

(2) Ond ni chaiff yr Archwilydd Cyffredinol wneud unrhyw beth sydd yn, neu a allai ddod yn, gyfrifoldeb i SAC, yn rhinwedd paragraffau (a) i (c) o adran 21(2) (darparu adnoddau ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol).

#### 10 Cod ymarfer archwilio

(1) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddyroddi cod ymarfer archwilio sy'n rhagnodi'r modd y mae swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol a bennir yn is-adran (2) i'w cyflawni.

## (2) Dyma'r swyddogaethau –

(a) cynnal ymchwiliad i unrhyw gyfrifon neu ddatganiadau o gyfrifon sydd yn agored i'r Archwilydd Cyffredinol ymchwilio iddynt yn unol â darpariaeth a wneir drwy ddeddfiad neu yn rhinwedd deddfiad;

(b) cynnal neu hybu astudiaethau neu ymchwiliadau gwerth am arian neu ymgymryd â hwy, yn unol â darpariaeth a wneir drwy ddeddfiad neu yn rhinwedd deddfiad;

(c) y rhai hynny sydd wedi eu cynnwys yn y darpariaethau canlynol o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, neu sydd wedi eu trosglwyddo i'r Archwilydd Cyffredinol odanynt –

(i) adran 145A(2) (ymgyrdd ag astudiaethau eraill, neu hybu astudiaethau eraill, sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau gan gyrrff penodol);

(ii) adran 145C(8) (datgelu gwybodaeth i Weinidogion Cymru a gafwyd yn ystod astudiaeth mewn perthynas â landlord cymdeithasol cofrestredig);

(iii) adran 145D (darparu cyngor a chymorth i landlord cymdeithasol cofrestredig);

(iv) adran 146 (trosglwyddo swyddogaethau'r Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol sy'n ymwneud â chyrrff penodol i'r Archwilydd Cyffredinol);

(v) adran 146A (trosglwyddo etc swyddogaethau goruchwylio Gweinidogion Cymru sy'n ymwneud â chyrrff penodol i'r Archwilydd Cyffredinol);

(vi) adran 147 (trosglwyddo swyddogaethau'r Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol sy'n ymwneud ag Asiantaeth yr Amgylchedd i'r Archwilydd Cyffredinol);

(d) y rhai hynny sydd wedi eu cynnwys yn y darpariaethau canlynol o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 –

(i) Rhan 2 (archwilio cyrrff llywodraeth leol yng Nghymru);

(ii) adran 45 (cynnal, neu gynorthwyo'r Ysgrifennydd Gwladol i gynnal, astudiaethau gweinyddu budd-dal);

(iii) adran 51 (cyfeirio materion sy'n ymwneud â nawdd cymdeithasol at yr Ysgrifennydd Gwladol);

(e) y rhai hynny sydd wedi eu cynnwys yn y darpariaethau canlynol o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 –

(i) paragraff 17 (mynediad at ddogfennau);

(ii) paragraff 20 (ardystio hawliadau, ffurflenni etc ar gais corff).

(3) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gydymffurfio â'r cod.

(4) Rhaid i'r cod ymgorffori'r hyn yr ymddengys i'r Archwilydd Cyffredinol yn arfer proffesiynol gorau o ran y safonau, gweithdrefnau a'r technegau sydd i'w mabwysiadu wrth gyflawni swyddogaethau o'r math a bennir yn is-adran (2).

(5) Caiff y cod wneud darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol neu ddsbarthau ar achosion gwahanol.

- (6) Cyn dyroddi'r cod (gan gynnwys unrhyw god diwygiedig) rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ymgynghori â'r personau hynny yr ymddengys iddo ei bod yn briodol ymgynghori â hwy.
- (7) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol drefnu bod y cod (gan gynnwys unrhyw god diwygiedig) yn cael ei gyhoeddi.
- (8) Yn yr adran hon, ystyr "astudiaeth neu ymchwiliad gwerth am arian" yw astudiaeth neu ymchwiliad i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd person o ran y ffordd y mae wedi cyflawni ei swyddogaethau neu wedi defnyddio adnoddau i gyflawni'r swyddogaethau hynny.

*Swyddogaethau mewn perthynas â llywodraeth leol*

## 11 Archwilio cyrff llywodraeth leol

- (1) Yn lle adran 13 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (archwilio cyfrifon cyrff llywodraeth leol yng Nghymru), rhodder—

### **"13 Audit of accounts of local government bodies in Wales**

- (1) A local government body in Wales—
- (a) must make up its accounts each year to 31 March or such other date as the Welsh Ministers may generally or in any special case direct;
  - (b) must ensure that its accounts are audited in accordance with this Chapter.
- (2) The Auditor General for Wales must audit the accounts of local government bodies in Wales."
- (2) Yn adran 16 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (ystyr "rheoleiddwyr perthnasol" a "swyddogaethau perthnasol"), hepgorer paragraff (e) o is-adran (2).

*Darpariaeth yn ymwneud â throsglwyddo swyddogaethau goruchwyliol Gweinidogion Cymru*

## 12 Trosglwyddo etc swyddogaethau goruchwyliol Gweinidogion Cymru: ymgynghori

Yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998, yn adran 146A (trosglwyddo etc swyddogaethau goruchwylio Gweinidogion Cymru sy'n ymwneud â chyrrff penodol i'r Archwilydd Cyffredinol), ar ôl is-adran (1), mewnosoder—

- "(1A) But before making an order under subsection (1), the Welsh Ministers must consult the Wales Audit Office."

## RHAN 2

### SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU A'I PHERTHYNAS Â'R ARCHWILYDD CYFFREDINOL

#### PENNOD 1

##### SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

5

#### 13 Ymgorffori Swyddfa Archwilio Cymru

- (1) Bydd corff corfforaethol o'r enw Swyddfa Archwilio Cymru ("SAC").
- (2) Mae Atodlen 1 yn cynnwys darpariaeth ynglŷn â SAC.

#### 14 Pwerau

10

Caiff SAC wneud unrhyw beth (gan gynnwys caffael neu waredu unrhyw eiddo neu hawliau a derbyn rhoddion ar ffurf arian neu eiddo arall) a fwriedir i hwyluso arfer unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau, neu sy'n ffafriol i'w harfer neu'n gysylltiedig â'i harfer neu â'u harfer.

#### 15 Effeithlonrwydd

15

Rhaid i SAC anelu at gyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol a chost-effeithlon.

#### PENNOD 2

##### Y BERTHYNAS RHWNG YR ARCHWILYDD CYFFREDINOL A SAC

##### *Cyffredinol*

#### 16 Y berthynas â'r Archwilydd Cyffredinol

20

- (1) Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn brif weithredwr ar SAC (ond nid yn gyflogai iddi).
- (2) Mae Atodlen 2 yn cynnwys darpariaeth bellach ynghylch y berthynas rhwng yr Archwilydd Cyffredinol a SAC.

#### 17 SAC i fonitro a darparu cyngor

25

- (1) Rhaid i SAC, yn y modd hwnnw y mae'n ei ystyried yn briodol, fonitro sut y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn arfer ei swyddogaethau.
- (2) Caiff SAC ddarparu cyngor i'r Archwilydd Cyffredinol ynghylch arfer ei swyddogaethau.
- (3) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol roi sylw i unrhyw gyngor a roddir iddo.

#### 18 Dirprwyo swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a'u harfer ar y cyd

30

- (1) Caniateir i'r Archwilydd Cyffredinol ddirprwyo unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r swydd honno i—
  - (a) cyflogai i SAC,

- (b) person sy'n darparu gwasanaethau i SAC, neu
- (c) cyflogai i SAC a pherson sy'n darparu gwasanaethau i SAC, yn gweithredu ar y cyd.

(2) Ond dim ond os yw'r cyflogai neu'r person arall wedi ei awdurdodi (neu, yn achos is-adran (1)(c), os yw'r ddau wedi eu hawdurdodi) i arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol o dan gynllun a baratowyd gan yr Archwilydd Cyffredinol a'i gymeradwyo gan SAC y caniateir i swyddogaeth gael ei dirprwyo.

(3) Caiff cynllun o dan is-adran (2) gynnwys darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol neu ddosbarthau ar achosion gwahanol.

(4) Caiff yr Archwilydd Cyffredinol ddiwygio cynllun ar unrhyw adeg ond rhaid i unrhyw ddiwygiad gael ei gymeradwyo gan SAC.

(5) Os yw cynllun yn gwneud darpariaeth i'r perwyl hwnnw, caniateir i unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol gael ei harfer neu eu harfer ar y cyd gan –

- (a) yr Archwilydd Cyffredinol a chyflogai i SAC,
- (b) yr Archwilydd Cyffredinol a pherson sy'n darparu gwasanaethau i SAC, neu
- (c) yr Archwilydd Cyffredinol, cyflogai i SAC a pherson sy'n darparu gwasanaethau i SAC.

(6) Nid yw dirprwyaeth yn gwahardd yr Archwilydd Cyffredinol rhag gwneud unrhyw beth yn bersonol.

(7) Nid yw darpariaeth a wneir o dan is-adran (1) ar gyfer dirprwyo swyddogaeth, neu o dan is-adran (5) ar gyfer arfer swyddogaeth ar y cyd, yn effeithio ar gyfrifoldeb yr Archwilydd Cyffredinol am y swyddogaeth honno.

(8) Ni chaniateir dirprwyo swyddogaeth paratoi cynllun o dan yr adran hon.

#### *Darparu gwasanaethau*

### **19 Darparu gwasanaethau**

(1) Caniateir i drefniadau gael eu gwneud rhwng SAC ac awdurdod perthnasol ar gyfer y canlynol –

- (a) bod unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r awdurdod i gael ei harfer neu eu harfer gan SAC neu gan gyflogai i SAC;
- (b) bod unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r awdurdod i gael ei harfer neu eu harfer gan yr Archwilydd Cyffredinol;
- (c) bod gwasanaethau technegol, proffesiynol neu weinyddol yn cael eu darparu –
  - (i) gan SAC i'r awdurdod, neu at ddibenion yr awdurdod,
  - (ii) gan yr awdurdod neu ar ei ran, i SAC, neu
  - (iii) gan yr awdurdod neu ar ei ran i'r Archwilydd Cyffredinol;
- (d) bod gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol yn cael eu darparu gan yr Archwilydd Cyffredinol i'r awdurdod neu at ddibenion yr awdurdod.



- (2) Nid yw unrhyw drefniadau o dan is-adran (1)(a) neu (b) ar gyfer arfer swyddogaeth awdurdod perthnasol yn effeithio ar gyfrifoldeb yr awdurdod perthnasol am y swyddogaeth honno.
- (3) Os bodlonir yr amod yn is-adran (4), caiff SAC ac awdurdod perthnasol, archwilydd cymwysedig neu gorff cyfrifyddu wneud y canlynol –
- (a) trefniadau i gydweithredu â'i gilydd a rhoi cymorth i'w gilydd, neu
- (b) trefniadau ar gyfer bod yr awdurdod, yr archwilydd neu'r corff a'r Archwilydd Cyffredinol yn cydweithredu â'i gilydd ac yn rhoi cymorth i'w gilydd.
- (4) Dyma'r amod –
- (a) bod SAC yn ystyried y byddai gwneud hynny yn hwyluso arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol neu SAC, neu y byddai'n ffafriol i'w harfer, a
- (b) bod yr awdurdod perthnasol, yr archwilydd cymwysedig neu'r corff cyfrifyddu dan sylw yn ystyried y byddai gwneud hynny yn hwyluso arfer swyddogaethau'r awdurdod, y person neu'r corff hwnnw, neu y byddai'n ffafriol i'w harfer.
- (5) Caiff SAC wneud trefniadau o dan yr adran hon ar y telerau, gan gynnwys telerau ynghylch tâl, sy'n briodol ym marn SAC.
- (6) Ond rhaid i amodau ynghylch tâl i SAC gael eu gwneud yn unol â chynllun ar gyfer codi ffioedd a baratoir o dan adran 24.
- (7) Yn yr adran hon –
- ystyr "corff cyfrifyddu" yw corff sydd –
- (a) yn gorff goruchwyllo cydnabyddedig at ddibenion Rhan 42 o Ddeddf Cwmnïau 2006, neu
- (b) yn gorff cyfrifwyr Ewropeaidd cymeradwy;
- ystyr "archwilydd cymwysedig" yw person sydd –
- (a) yn gymwys i gael ei benodi yn archwilydd statudol o dan Ran 42 o Ddeddf Cwmnïau 2006, neu
- (b) yn aelod o gorff cyfrifwyr Ewropeaidd cymeradwy;
- ystyr "corff cyfrifwyr Ewropeaidd cymeradwy" yw corff o gyfrifwyr sydd –
- (a) yn sefydledig yn y Deyrnas Unedig neu Wladwriaeth AEE arall, a
- (b) am y tro wedi ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn;
- ystyr "awdurdod perthnasol" yw unrhyw un o Weinidogion y Goron neu adran o'r llywodraeth, unrhyw awdurdod cyhoeddus (gan gynnwys unrhyw awdurdod lleol) neu ddeiliad unrhyw swydd gyhoeddus.

*Incwm a gwariant*

35 **20 Gwariant**

- (1) Am bob blwyddyn ariannol rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol a SAC wneud y canlynol ar y cyd –
- (a) darparu amcangyfrif o incwm a gwariant SAC, a

(b) gosod yr amcangyfrif gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

(2) Rhaid i bob amcangyfrif ymdrin (ymhlith pethau eraill) â'r adnoddau sy'n ofynnol at ddibenion adran 21 (adnoddau i'r Archwilydd Cyffredinol).

(3) Rhaid i bob amcangyfrif gael ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol o leiaf bum mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymdrin â hi.

(4) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol wneud unrhyw newid i'r amcangyfrif y mae'n ei ystyried yn briodol (yn ddarostyngedig i is-adran (5)).

(5) Ni chaniateir gwneud newid o dan is-adran (4) heb—

(a) ymgynghori â SAC a'r Archwilydd Cyffredinol, a

(b) rhoi ystyriaeth i unrhyw sylwadau a wneir gan y naill neu'r llall.

## 21 Darparu adnoddau ar gyfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol

(1) Rhaid i SAC ddarparu adnoddau ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, fel sy'n ofynnol gan yr Archwilydd Cyffredinol.

(2) Yn benodol, mae SAC yn gyfrifol am—

(a) cyflogi staff i gynorthwyo arfer y swyddogaethau hynny;

(b) sicrhau gwasanaethau gan unrhyw berson at ddibenion y swyddogaethau hynny;

(c) dal eiddo at ddibenion y swyddogaethau hynny;

(d) dal dogfennau neu wybodaeth a gaffaelwyd neu a gynhyrchwyd yn ystod arfer y swyddogaethau, neu fel arall at ddibenion y swyddogaethau hynny (gweler paragraff 2(2) o Atodlen 2);

(e) cadw cofnodion mewn perthynas â'r swyddogaethau hynny.

## 22 Benthg

Caiff SAC fenthg symiau mewn sterling (ar ffurf gorddrafft neu fel arall) i'w cymhwyso at y diben o gyfarfod gorwariant dros dro dros symiau sydd ar gael i'w gyfarfod fel arall.

*Ffioedd*

## 23 Darpariaeth gyffredinol yn ymwneud â ffioedd

(1) Rhaid talu ffioedd a symiau eraill y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn eu cael, i SAC.

(2) Caiff SAC godi ffi mewn perthynas ag archwilio cyfrifon neu ddatganiad o gyfrifon person gan yr Archwilydd Cyffredinol.

(3) Caiff SAC godi ffi mewn perthynas â'r canlynol—

(a) ymchwiliad, ardystiad neu adroddiad o dan baragraff 18(3) o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (ymchwiliadau penodol i ddarbodaeth etc person wrth ddefnyddio adnoddau);

(b) ymchwiliad a gynhelir ar gais person o dan adran 145 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (ymchwiliadau i ddefnydd o adnoddau) neu astudiaeth a wneir ar gais person o dan adran 145A o'r Ddeddf honno (astudiaethau ar gyfer gwella darbodaeth etc mewn gwasanaethau);



- (c) ymchwiliad neu astudiaeth a gynhelir neu a wneir gan yr Archwilydd Cyffredinol ar gais person o dan adran 46(4) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995;
- (d) unrhyw wasanaeth sy'n cael ei ddarparu neu swyddogaethau sy'n cael eu harfer o dan adran 19.
- 5 (4) Rhaid i SAC godi ffi mewn perthynas â'r canlynol—
- (a) darparu gwasanaethau i gorff o dan baragraff 20 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (ardystio hawliadau, ffurflenni etc ar gais corff);
- (b) astudiaeth ar gais corff addysgol o dan adran 145B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.
- 10 (5) O ran ffioedd a godir o dan yr adran hon—
- (a) ni chaniateir iddynt gael eu codi ond yn unol â chynllun a baratoir gan SAC o dan adran 24;
- (b) ni chaiff y ffi fod yn fwy na chost lawn arfer y swyddogaeth y mae'r ffi'n ymwneud â hi;
- 15 (c) maent yn daladwy i SAC gan y person y mae'r swyddogaeth a arferir yn ymwneud ag ef.

## 24 Cynllun ar gyfer codi ffioedd

- (1) Rhaid i SAC baratoi cynllun sy'n ymwneud â chodi ffioedd gan SAC.
- (2) Rhaid i'r cynllun gynnwys y canlynol—
- 20 (a) rhestr o'r deddfiadau y caiff SAC godi ffi odanynt;
- (b) pan fo'r deddfiadau hynny yn gwneud darpariaeth ar gyfer bod SAC yn rhagnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd, y raddfa honno neu'r graddfeydd hynny;
- (c) pan fo'r deddfiadau hynny yn gwneud darpariaeth ar gyfer bod SAC yn rhagnodi swm i'w godi, y swm hwnnw;
- 25 (d) pan nad oes darpariaeth wedi ei gwneud ar gyfer rhagnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd, na rhagnodi swm, y modd y bydd SAC yn cyfrifo'r ffi a godir.
- (3) Caiff y cynllun wneud y canlynol ymysg pethau eraill—
- (a) cynnwys darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol neu ddsbarthau ar achosion gwahanol, a
- 30 (b) darparu ar gyfer yr adegau a'r modd y bydd taliadau yn cael eu gwneud.
- (4) O ran y cynllun—
- (a) rhaid i SAC ei adolygu o leiaf unwaith mewn blwyddyn galendr,
- (b) caiff SAC ei ddiwygio neu ei ail-wneud ar unrhyw adeg, ac
- (c) rhaid i SAC ei osod (a gosod unrhyw ddiwygiad iddo) gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.
- 35 (5) Pan fo Gweinidogion Cymru yn rhagnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd o dan—
- (a) adran 64F o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (ffioedd am baru data), neu

(b) adran 27A o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (pŵer Gweinidogion Cymru i ragnodi graddfa ffioedd),

i gael effaith yn lle graddfa neu raddfeydd ffioedd a ragnodwyd gan SAC, rhaid i SAC ddiwygio'r cynllun i gynnwys y raddfa neu'r graddfeydd ffioedd a ragnodwyd gan Weinidogion Cymru yn lle'r rhai a ragnodwyd gan SAC.

- (6) Nid oes rhaid cael cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol os mai diwygiad a wneir yn unol ag is-adran (5) yw'r unig ddiwygiad i gynllun.
- (7) Bydd y cynllun yn cael effaith pan y bydd wedi cael ei gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol neu, yn achos diwygiad a wneir yn unol ag is-adran (5), unwaith y bydd wedi cael ei osod gerbron y Cynulliad.
- (8) Rhaid i SAC gyhoeddi'r cynllun (ac unrhyw ddiwygiad iddo) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi iddo gael effaith.

#### *Cynllun blynyddol*

### **25 Cynllun blynyddol**

- (1) Cyn dechrau pob blwyddyn ariannol rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol a SAC gytuno ar gynllun blynyddol ar gyfer y flwyddyn honno.
- (2) Rhaid i'r cynllun blynyddol nodi'r canlynol –
- (a) rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol;
  - (b) rhaglen waith SAC;
  - (c) yr adnoddau sydd ar gael, ac a all ddod ar gael, i SAC;
  - (d) sut y mae'r adnoddau i gael eu defnyddio er mwyn ymgymryd â rhaglen yr Archwilydd Cyffredinol;
  - (e) sut y mae'r adnoddau i gael eu defnyddio er mwyn ymgymryd â rhaglen SAC;
  - (f) yr uchafswm, allan o'r o adnoddau sydd ar gael, ac a all ddod ar gael, y rhagwelir y bydd SAC yn dyrannu i'r Archwilydd Cyffredinol at y diben o ymgymryd â rhaglen yr Archwilydd Cyffredinol.
- (3) Yn y Bennod hon –

ystyr "raglen waith yr Archwilydd Cyffredinol" yw blaenoriaethau'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer blwyddyn ariannol wrth arfer ei swyddogaethau;

ystyr "raglen waith SAC" yw blaenoriaethau SAC ar gyfer blwyddyn ariannol wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf hon.

### **26 Cynllun blynyddol: adnoddau i'w dyrannu i'r Archwilydd Cyffredinol**

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys at ddibenion penderfynu ar y swm sydd i'w gynnwys yn y cynllun blynyddol yn rhinwedd adran 25(2)(f) (yr uchafswm o adnoddau sydd i'w dyrannu gan SAC i'r Archwilydd Cyffredinol).
- (2) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno datganiad, ar gyfer y flwyddyn ariannol, i SAC yn nodi'r canlynol –
- (a) rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol;

(b) amcangyfrif o'r uchafswm adnoddau sy'n ofynnol i ymgymryd â'r rhaglen.

(3) Caiff SAC naill ai –

(a) cytuno'r datganiad a chorffori'r cynnwys i'r cynllun blynyddol, neu

(b) gwrthod y datganiad, neu wrthod rhan ohono, a gofyn i'r Archwilydd Cyffredinol ailstyried a chyflwyno datganiad diwygiedig neu ddatganiad newydd.

(4) Ond dim ond os yw'r datganiad, neu unrhyw ran ohono, yn afresymol y caiff SAC wrthod y datganiad.

### 27 Cynllun blynyddol: y Cynulliad Cenedlaethol

Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol a'r person sy'n gadeirydd SAC osod y cynllun blynyddol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

### 28 Cynllun blynyddol: effaith

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol a SAC i gael eu rhwymo gan y cynllun blynyddol, ond rhaid iddynt roi sylw iddo wrth arfer eu swyddogaethau, gan gynnwys wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â darparu adnoddau i'r Archwilydd Cyffredinol gan SAC o dan adran 21 (ond nid yn gyfyngedig i hynny).

## RHAN 3

### AMRYWIOL A CHYFFREDINOL

### 29 Swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol

(1) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol, drwy reolau sefydlog, wneud darpariaeth ynghylch arfer y swyddogaethau a roddir iddo gan neu o dan y Ddeddf hon.

(2) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud yn cynnwys dirprwyo swyddogaethau i'r Llywydd, y Dirprwy Lywydd, i bwyllgor neu is-bwyllgor y Cynulliad Cenedlaethol neu i gadeirydd pwyllgor neu is-bwyllgor o'r fath (ond nid yw'n gyfyngedig i hynny).

(3) Nid yw'r adran hon yn gymwys i swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 31 (gorchmynion).

### 30 Indemnio

(1) Mae unrhyw swm sy'n daladwy gan berson sydd wedi ei indemnio o ganlyniad i unrhyw atebolrwydd am dor-dyletswydd i'w godi ar a'i dalu o Gronfa Gyfunol Cymru.

(2) Rhaid i'r atebolrwydd beidio â bod i berson arall sydd wedi ei indemnio.

(3) Mae'r canlynol yn bersonau wedi eu hindemnio –

(a) Archwilydd Cyffredinol, neu gyn-Archwilydd, a apwyntiwyd o dan y Ddeddf hon;

(b) SAC;

(c) cyn-aelod neu aelod presennol o SAC;

(d) cyn-gyflogai neu gyflogai presennol i SAC;

(e) person sy'n darparu, neu sydd wedi darparu, gwasanaethau i'r Archwilydd Cyffredinol neu i SAC o dan drefniadau a wnaed gan SAC.

- 5 (4) Ystyr tor-dyletswydd at ddibenion is-adran (1) yw tor-dyletswydd (p'un ai o dan gontract neu drefniant neu fel arall, a ph'un ai oherwydd gweithred neu anweithred) yr aed iddi gan berson sydd wedi ei indemnio wrth arfer swyddogaethau sydd i'w harfer gan y person hwnnw yn unol â darpariaeth o ddeddfiad.

### 31 Gorchymynion

- 10 (1) Mae pŵer Gweinidogion Cymru i wneud gorchymyn o dan y Ddeddf hon yn arferadwy drwy offeryn statudol.

15 (2) Ni chaniateir gwneud offeryn statudol sy'n cynnwys gorchymyn o dan adran 34 (darpariaethau trosiannol, atodol etc) sy'n cynnwys darpariaeth sy'n diwygio, yn diddymu neu'n addasu fel arall ddeddfiad (ag eithrio deddfiad sydd wedi ei gynnwys mewn is-ddeddfwriaeth) neu offeryn uchelfreiniol onid oes drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo.

20 (3) Mae unrhyw offeryn statudol arall sy'n cynnwys gorchymyn o dan y Ddeddf hon, ac eithrio offeryn sy'n cynnwys gorchymyn o dan adran 36 (cychwyn) yn unig, yn ddarostyngedig i'w ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad Cenedlaethol.

25 (4) Mae unrhyw bŵer gan Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn o dan y Ddeddf hon (ar wahân i orchymyn o dan adran 36 (cychwyn)) yn cynnwys pŵer—

(a) i wneud darpariaeth wahanol at achosion gwahanol neu ddsbarthau ar achosion gwahanol, neu at ddibenion gwahanol;

(b) i wneud darpariaeth yn gyffredinol neu yn ddarostyngedig i esemptiadau neu eithriadau penodol neu mewn perthynas ag achosion penodol neu ddsbarthau ar achosion penodol;

(c) i wneud unrhyw ddarpariaeth atodol, darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth arbed, darpariaeth gysylltiedig a darpariaeth arall sy'n angenrheidiol neu yn briodol ym marn Gweinidogion Cymru.

### 32 Cyfarwyddiadau

30 (1) O ran unrhyw gyfarwyddyd a roddir o dan y Ddeddf hon—

(a) rhaid ei roi yn ysgrifenedig;

(b) caniateir ei amrywio neu ei ddirymu gan gyfarwyddyd diweddarach;

(c) caiff wneud darpariaeth yn gyffredinol neu mewn perthynas ag achosion penodol neu ddsbarthau ar achosion penodol;

(d) caiff wneud darpariaeth wahanol at achosion gwahanol neu ddsbarthau ar achosion gwahanol, neu at ddibenion gwahanol.

(2) Nid yw is-adran (1) yn cyfyngu ar bwerau o dan y Ddeddf hon i roi cyfarwyddiadau.

### 33 Dehongli

40 Yn y Ddeddf hon—

ystyr "Archwilydd Cyffredinol" ("Auditor General") yw Archwilydd Cyffredinol Cymru (gweler Pennod 1 o Ran 1);

ystyr "blwyddyn ariannol" ("financial year") yw'r 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth;

5 mae i "corff llywodraeth leol" ("local government body") yr ystyr a roddir yn adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004;

ystyr "Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol" ("National Assembly Commission") yw Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

10 ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("National Assembly") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "deddfiad" ("enactment") yw unrhyw ddeddfiad, pryd bynnag y'i basiwyd neu y'i gwnaed, yn cynnwys –

(a) deddfiad a gynhwysir yn y Ddeddf hon, yn unrhyw Ddeddf arall gan y Cynulliad Cenedlaethol, neu yn unrhyw Fesur Cynulliad, a

15 (b) is-ddeddfwriaeth (yn ystyr Deddf Dehongli 1978) p'un a yw wedi ei wneud o dan Ddeddf Cynulliad, neu Fesur Cynulliad neu fel arall;

ystyr "Llywodraeth Cymru" ("Welsh Government") yw Llywodraeth Cynulliad Cymru;

20 ystyr "Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol" ("National Assembly's Public Accounts Committee") yw'r pwyllgor y cyfeirir ato fel y "Pwyllgor Archwilio" yn adran 30 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;

ystyr "SAC" ("WAO") yw Swyddfa Archwilio Cymru (gweler Pennod 1 o Ran 2).

### 34 Darpariaethau trosiannol, atodol ac arbed etc

(1) Mae Atodlen 3 (darpariaethau trosiannol etc) yn cael effaith.

25 (2) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, wneud unrhyw ddarpariaeth atodol, darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth arbed, darpariaeth gysylltiedig a darpariaeth arall sy'n briodol yn eu barn hwy mewn cysylltiad â'r Ddeddf hon neu i roi effaith lawn i'r Ddeddf hon.

30 (3) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud o dan is-adran (2) yn cynnwys, ymysg pethau eraill, diwygiadau i, neu ddiddymiadau a dirymiadau o, unrhyw ddeddfiad neu offeryn uchelfreiniol.

(4) Nid oes dim yn Atodlen 3 yn cyfyngu ar y pŵer a roddir gan is-adran (2); a chaiff gorchymyn o'r fath, ymysg pethau eraill, wneud addasiadau i'r Atodlen honno.

### 35 Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol

35 Mae Atodlen 4 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol) yn cael effaith.

### 36 Cychwyn

(1) Daw'r darpariaethau canlynol i rym ar y diwrnod y bydd y Ddeddf hon yn cael Cydsyniad Brenhinol –

(a) adran 31;

(b) yr adran hon;

(c) adran 37.

(2) Yn ddarostyngedig i is-adran (1), daw'r Ddeddf hon i rym yn unol â darpariaeth a wneir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn.

5 (3) Caiff gorchymyn o dan is-adran (2)–

(a) gwneud darpariaeth ar gyfer pennu diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol;

(b) cynnwys darpariaeth atodol, darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth arbed, darpariaeth gysylltiedig a darpariaeth arall sy'n ymwneud â chychwyn.

10 **37 Enw byr**

Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

ATODLEN 1  
(cyflwynwyd gan adran 13(2))

CORFFORI SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

RHAN 1

AELODAETH A STATWS

*Aelodaeth*

- 1 (1) Mae SAC i gael 7 aelod.  
(2) Dyma hwy –  
10 (a) 5 person nad ydynt yn gyflogai i SAC (“aelodau anweithredol”) (gweler Rhan 2 o’r Atodlen hon),  
(b) yr Archwilydd Cyffredinol (gweler Rhan 3 o’r Atodlen hon), ac  
(c) un cyflogai i SAC (“aelod sy’n gyflogai”) (gweler Rhannau 4 a 5 o’r Atodlen hon).

*Penodi aelodau anweithredol ac aelod sy’n gyflogai*

- 15 2 (1) Mae aelodau SAC (ar wahân i’r Archwilydd Cyffredinol) i’w penodi yn unol â darpariaethau’r Atodlen hon.  
(2) Rhaid gwneud pob penodiad ar sail teilyngdod.  
(3) Ni all person gael ei benodi yn aelod o SAC os yw’r person wedi ei anghymhwyso rhag cael ei benodi ar unrhyw un o’r seiliau a bennir yn Rhan 6 o’r Atodlen hon.  
20 (4) Mae person yn peidio â bod yn aelod o SAC os yw’r person yn cael ei anghymhwyso ar unrhyw un o’r seiliau hynny.

*Statws*

- 3 (1) Nid yw SAC nac unrhyw un o’i haelodau i’w hystyried neu ei ystyried –  
(a) yn was neu’n asiant i’r Goron, na  
(b) yn mwynhau unrhyw statws, imiwnedd na braint sydd gan y Goron.  
25 (2) Ond ystyrir bod aelodau SAC yn weision y Goron at ddibenion Deddf Cyfrinachau Swyddogol 1989.  
(3) Nid yw eiddo SAC i’w ystyried yn eiddo i’r Goron neu’n eiddo sy’n cael ei ddal ar ran y Goron.  
30 (4) Nid yw’r paragraff hwn yn gymwys i’r Archwilydd Cyffredinol (ac ar gyfer darpariaethau ynglŷn â statws yr Archwilydd Cyffredinol, gweler adran 6).



## RHAN 2

## AELODAU ANWEITHREDOL

*Penodi aelodau anweithredol*

- 4 (1) Mae aelodau anweithredol i'w penodi gan y Cynulliad Cenedlaethol.
- 5 (2) Rhaid i benodiadau a wneir o dan is-baragraff (1) gael eu gwneud ar gasgliadau cystadleuaeth deg ac agored.

*Penodi cadeirydd ar SAC*

- 5 (1) Mae cadeirydd ar SAC i'w benodi gan y Cynulliad Cenedlaethol o blith yr aelodau anweithredol.
- 10 (2) Ond cyn penodi'r cadeirydd rhaid ymgynghori â'r Prif Weinidog.
- (3) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol estyn penodiad o dan y paragraff hwn yn unol â'r weithdrefn sy'n ofynnol ar gyfer y penodiad gwreiddiol.
- (4) Mae estyniad i'r penodiad yn cyfrif fel penodiad ar wahân at ddibenion paragraffau 6 i 8.

*Cyfnod penodi ac ailbenodi*

- 15 6 (1) Rhaid i benodiad o dan y Rhan hon o'r Atodlen hon fod am gyfnod o hyd at 4 blynedd a dim mwy na hynny.
- (2) Ni chaniateir penodi person o dan y Rhan hon o'r Atodlen hon fwy na dwywaith.

*Trefniadau talu cydnabyddiaeth*

- 7 (1) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol wneud trefniadau ar gyfer talu cydnabyddiaeth mewn perthynas â'r person sy'n gadeirydd SAC (yn ddarostyngedig i is-baragraff (2) a pharagraff 9).
- 20 (2) Ond cyn gwneud y trefniadau hynny rhaid ymgynghori â'r Prif Weinidog.
- (3) Bydd symiau sy'n daladwy o dan is-baragraff (1) yn cael eu codi ar Gronfa Gyfunol Cymru a'u talu ohoni.
- 25 (4) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol wneud trefniadau ar gyfer talu cydnabyddiaeth mewn perthynas ag unrhyw aelod anweithredol arall.
- (5) Bydd symiau sy'n daladwy o dan is-baragraff (4) yn cael eu talu gan SAC.
- (6) Caniateir i drefniadau talu cydnabyddiaeth o dan y paragraff hwn—
- 30 (a) darparu ar gyfer cyflog, lwfansau, rhoddion ariannol, a buddion eraill i dalu treuliau yr aed iddynt yn briodol ac o anghenraid, ond nid ar gyfer pensiwn, a
- (b) cynnwys fformiwla neu fecanwaith arall ar gyfer addasu un neu fwy o'r elfennau hynny o dro i dro.
- (7) Ond ni chaiff unrhyw elfen fod yn seiliedig ar berfformiad.



*Telerau penodi eraill*

- 8 (1) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol bennu telerau penodi eraill ar gyfer penodiad o dan y Rhan hon o'r Atodlen hon (yn ddarostyngedig i baragraff 9).
- (2) Caiff y telerau hynny gynnwys cyfyngiadau ar y canlynol—
- 5 (a) y swyddi (gan gynnwys swyddi y caniateir penodi personau iddynt, eu hargymell ar eu cyfer neu eu henwebu ar eu cyfer gan neu ar ran y Goron, y Cynulliad Cenedlaethol neu Gomisiwn y Cynulliad Cenedlaethol)—
- (i) y caiff aelod anweithredol eu dal tra bo'r person hwnnw yn aelod, neu wedi iddo beidio â bod yn aelod;
- 10 (ii) y caiff cadeirydd SAC eu dal tra bo'r person hwnnw'n gadeirydd, neu wedi iddo beidio â bod yn gadeirydd, a
- (b) y cytundebau a'r trefniadau eraill (gan gynnwys cytundebau a threfniadau gyda'r Goron, y Cynulliad Cenedlaethol neu Gomisiwn y Cynulliad Cenedlaethol, neu gyrff neu bersonau eraill sy'n gweithredu ar ran y Goron, y Cynulliad
- 15 Cenedlaethol neu Gomisiwn y Cynulliad)—
- (i) y caiff aelod anweithredol fod yn barti iddynt tra bo'r person hwnnw yn aelod, neu wedi iddo beidio â bod yn aelod;
- (ii) y caiff cadeirydd SAC fod yn barti iddynt tra bo'r person hwnnw'n gadeirydd, neu wedi iddo beidio â bod yn gadeirydd.
- 20 (3) Ond dim ond tra bod person yn aelod anweithredol, ac am uchafswm o 2 flynedd yn dechrau ar y diwrnod y mae person yn peidio â bod yn aelod anweithredol, y caniateir gorfodi'r cyfyngiadau hyn.

*Ymgynghori*

- 9 (1) Cyn gwneud unrhyw drefniadau o dan baragraff 7 neu benderfyniad o dan baragraff 8, rhaidd ymgynghori â pherson priodol sydd â goruchwyliaeth dros benodiadau cyhoeddus.
- 25 (2) Mae'r ymgynghoriad sy'n ofynnol o dan is-baragraff (1) yn ychwanegol at yr ymgynghoriad sy'n ofynnol o dan is-baragraff 7(2).

*Dod â phenodiadau i ben*

- 30 10 (1) Caiff y person sy'n gadeirydd ar SAC ymddiswyddo o'i swydd fel cadeirydd drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Cynulliad Cenedlaethol.
- (2) Caiff aelod anweithredol ymddiswyddo drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Cynulliad Cenedlaethol.
- (3) Daw penodiad y person sy'n ymddiswyddo i ben, yn unol ag is-baragraffau (1) neu (2), pan fo'r ymddiswyddiad yn cael ei dderbyn.
- 35 11 (1) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol ddod â phenodiad aelod anweithredol i ben drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r aelod os—
- (a) bu'r aelod yn absennol o gyfarfodydd SAC heb ganiatâd SAC am gyfanswm o 3 mis neu fwy (dros gyfnod neu gyfnodau) mewn unrhyw gyfnod o 12 mis,

- (b) yw'r aelod wedi mynd yn fethdalwr neu wedi gwneud trefniant â chredydwr,
- (c) yw ystâd yr aelod wedi ei secwestru yn yr Alban neu fod yr aelod wedi ymrwymo i gynllun trefniant dyled o dan Ran 1 o Ddeddf Trefnu ac Atafaelu Dyled (Yr Alban) 2002 fel dyledwr, neu wedi gwneud, o dan gyfraith yr Alban, gompôwnd neu drefniant gyda chredydwr yr aelod neu wedi rhoi gweithred ymddiried iddynt,
- (d) yw'r aelod yn anaddas i barhau oherwydd camymddygiad,
- (e) yw'r aelod wedi methu â chydymffurfio â thelerau'r penodiad, neu
- (f) yw'r aelod yn methu â chyflawni ei swyddogaethau fel arall, yn anaddas i'w cyflawni fel arall, neu'n anfodlon eu cyflawni fel arall.
- (2) Os yw'r aelod anweithredol y daw a'i benodiad i ben o dan is-baragraff (1) yn gadeirydd ar SAC, mae penodiad y person hwnnw fel cadeirydd hefyd yn dod i ben.
- (1) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol ddod â phenodiad aelod anweithredol fel cadeirydd SAC i ben.
- (2) Ond cyn dod â phenodiad i ben rhaid ymgynghori â'r Prif Weinidog
- (3) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol ddod â'r penodiad i ben os yw'r person sy'n gadeirydd ar SAC—
- (a) wedi methu â chydymffurfio â thelerau'r penodiad, neu
- (b) fel arall yn anfodlon cyflawni swyddogaethau bod yn gadeirydd SAC.

## RHAN 3

## YR ARCHWILYDD CYFFREDINOL

*Talu cydnabyddiaeth ychwanegol i'r Archwilydd Cyffredinol*

- (1) Caiff SAC wneud darpariaeth i daliadau ychwanegol gael eu gwneud i'r Archwilydd Cyffredinol drwy lwfansau a buddion eraill i dalu treuliau yr aed iddynt yn briodol ac o anghenraid gan yr Archwilydd Cyffredinol yn rhinwedd ei swydd fel aelod o SAC a phrif weithredwr arni.
- (2) Caniateir i daliadau gael eu gwneud o dan is-baragraff (1) yn ychwanegol at y tâl cydnabyddiaeth sy'n daladwy i'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 7.
- (3) Mae symiau sy'n daladwy o dan is-baragraff (1) i'w talu gan SAC.

## RHAN 4

## AELOD SY'N GYFLOGAI

*Penodi*

- (1) Mae aelod sy'n gyflogai i gael ei benodi gan yr aelodau anweithredol fel a ganlyn.
- (2) Os oes swydd wag, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol argymhell person i'r aelodau anweithredol ei benodi.
- (3) Rhaid i'r aelodau anweithredol—

- (a) penodi'r person hwnnw, neu
- (b) penodi person arall o'u dewis hwy.

*Telerau penodi*

- 15 (1) Bydd telerau penodi aelod sy'n gyflogai yn cael eu pennu gan yr aelodau anweithredol.
- 5 (2) Caiff y telerau gynnwys trefniadau talu cydnabyddiaeth a all—
- (a) gwneud darpariaeth ar gyfer lwfansau, rhoddion a buddion eraill i dalu treuliau yr aed iddynt yn briodol ac o anghenraid gan y person yn rhinwedd ei swydd fel aelod o SAC, a
  - (b) cynnwys fformiwla neu fecanwaith arall ar gyfer addasu un neu fwy o'r elfennau hynny o dro i dro.
- 10 (3) Ni chaiff y trefniadau talu cydnabyddiaeth ddarparu ar gyfer talu cyflog nac ychwaith, yn ddarostyngedig i is-baragraff (5), ar gyfer pensiwn.
- (4) Bydd y symiau sy'n daladwy o dan is-baragraff (2) yn cael eu talu gan SAC.
- 15 (5) Os yw'r aelod sy'n gyflogai ("A") yn cyfranogi o gynllun pensiwn o dan delerau cyflogaeth A gyda SAC, rhaid i'r trefniadau talu cydnabyddiaeth (heb effeithio ar barhad y gyflogaeth honno) wneud darpariaethau sy'n sicrhau bod gwasanaeth A fel aelod sy'n gyflogai i'w drin, at ddibenion y cynllun, fel petai'n wasanaeth fel cyflogai i SAC.

*Telerau penodi eraill*

- 16 (1) Caiff yr aelodau anweithredol bennu telerau penodi eraill ar gyfer penodiad aelod sy'n gyflogai.
- 20 (2) Caiff y telerau hynny gynnwys cyfyngiadau ar y canlynol—
- (a) y swyddi (gan gynnwys swyddi y caniateir penodi personau iddynt, eu hargymell ar eu cyfer neu eu henwebu ar eu cyfer gan neu ar ran y Goron, y Cynulliad Cenedlaethol neu Gomisiwn y Cynulliad Cenedlaethol) y caiff yr aelod sy'n gyflogai eu dal tra bo'r person hwnnw yn aelod, neu wedi iddo beidio â bod yn aelod;
  - (b) y cytundebau a'r trefniadau eraill (gan gynnwys cytundebau a threfniadau gyda'r Goron, y Cynulliad Cenedlaethol neu Gomisiwn y Cynulliad Cenedlaethol, neu gyrff neu bersonau eraill sy'n gweithredu ar ran y Goron, y Cynulliad Cenedlaethol neu Gomisiwn y Cynulliad) y caiff yr aelod sy'n gyflogai fod yn barti iddynt tra bo'r person hwnnw yn aelod, neu wedi iddo beidio â bod yn aelod.
- 30 (3) Ond dim ond tra bod person yn aelod sy'n gyflogai, ac am uchafswm o 2 flynedd yn dechrau ar y diwrnod y mae person yn peidio â bod yn aelod sy'n gyflogai, y caniateir gorfodi'r cyfyngiadau hynny.
- 35

*Dod â phenodiad i ben*

- 17 Mae penodiad yr aelod sy'n gyflogai yn dod i ben—
- (a) os yw'r telerau penodi yn darparu ei fod yn dod i ben ar ddiwedd cyfnod, ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, a

(b) beth bynnag yw'r sefyllfa, pan fo'r aelod yn peidio â bod yn gyflogai i SAC.

18 (1) Caiff aelod sy'n gyflogai ymddiswyddo drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r aelodau anweithredol.

(2) Bydd y penodiad yn dod i ben pan fo'r ymddiswyddiad yn cael ei dderbyn gan yr aelodau anweithredol.

19 Caiff yr aelodau anweithredol ddod â phenodiad yr aelod sy'n gyflogai i ben drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r aelod os –

(a) bu'r aelod yn absennol o gyfarfodydd SAC heb ganiatâd SAC am gyfanswm o 3 mis neu fwy (dros gyfnod neu gyfnodau) mewn unrhyw gyfnod o 12 mis,

(b) yw'r aelod wedi mynd yn fethdalwr neu wedi gwneud trefniant â chredydwydwr,

(c) yw ystâd yr aelod wedi ei secwestru yn yr Alban neu fod yr aelod wedi ymrwymo i gynllun trefniant dyled o dan Ran 1 o Ddeddf Trefnu ac Atafaelu Dyled (Yr Alban) 2002 fel dyledwr, neu wedi gwneud, o dan gyfraith yr Alban, gompôwnd neu drefniant gyda chredydwydwr yr aelod neu wedi rhoi gweithred ymddiried iddynt,

(d) yw'r aelod yn anaddas i barhau oherwydd camymddygiad,

(e) yw'r aelod wedi methu â chydymffurfio â thelerau'r penodiad, neu

(f) yw'r aelod yn methu â chyflawni ei swyddogaethau fel arall, yn anaddas i'w cyflawni fel arall, neu'n anfodlon eu cyflawni fel arall.

## RHAN 5

### CYFLOGEION

#### *Penodi*

20 (1) Caiff SAC gyflogi staff.

(2) Ni all person gael ei benodi yn aelod o staff SAC os yw'r person wedi ei anghymhwysu rhag cael ei benodi ar unrhyw un o'r seiliau a bennir yn Rhan 6 o'r Atodlen hon.

(3) Bydd person yn peidio â bod yn aelod o staff SAC os yw'r person wedi ei anghymhwysu ar unrhyw un o'r seiliau hynny.

(4) Bydd staff SAC yn cael eu cyflogi ar y telerau hynny y caniateir i SAC eu penderfynu.

(5) Ond rhaid i SAC sicrhau –

(a) bod y gweithdrefnau ar gyfer recriwtio a dewis personau fel aelodau o staff SAC yn cyfateb yn fras i'r rhai hynny sy'n gymwys ar gyfer recriwtio a dewis personau fel aelodau o staff Llywodraeth Cymru, a

(b) bod y telerau cyflogaeth yn cyfateb yn fras i'r rhai hynny sy'n gymwys i aelodau o staff Llywodraeth Cymru.

(6) Ni chaiff person sy'n gyflogai i SAC ddal unrhyw swydd y caniateir penodi person iddi, argymhell person ar ei chyfer neu enwebu person ar ei chyfer gan neu ar ran y Goron, y Cynulliad Cenedlaethol neu Gomisiwn y Cynulliad Cenedlaethol.

*Status*

- 21 Nid yw aelod o staff SAC i'w ystyried –
- (a) yn was neu'n asiant i'r Goron, neu
  - (b) yn mwynhau unrhyw statws, imiwnedd na braint sydd gan y Goron.
- 5 22 Ond ystyrir bod aelod o staff SAC yn was y Goron at ddibenion Deddf Cyfrinachau Swyddogol 1989.

*Trefniadau talu cydnabyddiaeth*

- 23 (1) Rhaid i SAC dalu tâl cydnabyddiaeth i gyflogeion fel y darperir ar ei gyfer gan eu telerau penodi, neu o dan y telerau hynny.
- 10 (2) Rhaid i SAC dalu i'r Gweinidog dros y Gwasanaeth Sifil, ar yr adegau hynny a benderfynir gan y Gweinidog, daliadau o'r symiau hynny y penderfynir arnynt felly o ran y canlynol –
- (a) darparu pensiynau, lwfansau, rhoddion ariannol neu fuddion eraill yn rhinwedd adran 1 o Ddeddf Blwydd-daliadau 1972 i, neu mewn perthynas ag, unrhyw berson sydd yn gyflogai i SAC neu sydd wedi peidio â bod yn gyflogai iddi, a
  - (b) y treuliau yr aed iddynt drwy weinyddu'r pensiynau hynny, y lwfansau hynny, y rhoddion ariannol hynny neu'r buddion eraill hynny.
- 15

## RHAN 6

## ANGHYMHWYSO FEL AELOD O SAC NEU GYFLOGAI IDDI

- 20 24 (1) Ni all person gael ei benodi yn aelod o SAC neu yn gyflogai iddi os yw'r person wedi ei anghymhwysu ar unrhyw un o'r seiliau a bennir yn is-baragraff (3).
- (2) Mae person yn peidio â bod yn aelod o SAC neu yn gyflogai iddi os yw'r person wedi ei anghymhwysu ar unrhyw un o'r seiliau a bennir yn is-baragraff (3).
- 25 (3) Mae person wedi ei anghymhwysu rhag bod yn aelod o SAC neu'n gyflogai iddi os yw'r person –
- (a) yn Aelod o'r Cynulliad Cenedlaethol;
  - (b) yn dal unrhyw swydd arall y caniateir i berson gael ei benodi iddi, neu ei argymhell ar ei chyfer neu ei enwebu ar ei chyfer, gan neu ar ran y canlynol –
    - (i) y Goron,
    - 30 (ii) y Cynulliad Cenedlaethol, neu
    - (iii) Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol;
  - (c) yn Aelod o Dŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi;
  - (d) yn Aelod o Senedd yr Alban; neu
  - (e) yn Aelod o Gynulliad Gogledd Iwerddon.
- 35 (4) Mae is-baragraff (3)(b) i'w anwybyddu yn achos yr Archwilydd Cyffredinol.

## RHAN 7

## RHEOLAU GWEITHDREFNOL

*Cyffredinol*

25 Rhaid i SAC wneud rheolau at ddibenion rheoleiddio gweithdrefnau SAC.

5 *Cworwm ar gyfer cyfarfodydd SAC*

26 (1) Rhaid i'r rheolau ddarparu am gworwm ar gyfer unrhyw gyfarfodydd SAC (gan gynnwys cyfarfodydd pwyllgorau neu is-bwyllgorau a sefydlir o dan baragraff 27).

(2) Caiff y rheolau ddarparu bod cworymau gwahanol yn gymwys i amgylchiadau gwahanol (er enghraifft, mewn perthynas â chyfarfodydd penodol neu at ddibenion penodol).

10

(3) Rhaid i'r rheolau ddarparu na ellir bodloni cworwm ar unrhyw adeg oni bai bod mwyafrif yr aelodau sy'n bresennol yn aelodau anweithredol.

*Pwyllgorau*

27 (1) Caiff y rheolau gynnwys—

15

(a) darpariaeth ar gyfer sefydlu pwyllgorau SAC, ac i'r pwyllgorau hynny sefydlu is-bwyllgorau, a

(b) darpariaeth i reoleiddio gweithdrefnau'r pwyllgorau a'r is-bwyllgorau hynny.

(2) Caiff cyflogai i SAC nad yw'n aelod sy'n gyflogai fod yn aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor.

20

(3) Caiff person nad yw'n aelod o SAC nac yn gyflogai i SAC fod yn aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor, ar yr amod nad oes dim un o swyddogaethau SAC yn cael ei dirprwyo i'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor (gweler paragraff 29).

## RHAN 8

## MATERION ERAILL

25 *Dilysrwydd*

28 Nid effeithir ar ddilysrwydd unrhyw beth a wneir gan SAC (gan gynnwys unrhyw beth a wneir gan ei haelodau anweithredol, aelod sy'n gyflogai, unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor, a gan unrhyw gyflogai i SAC) gan—

(a) swydd wag, neu

30

(b) penodiad diffygiol.

*Dirprwyo swyddogaethau*

29 (1) Caiff SAC ddirprwyo ei swyddogaethau i—

(a) unrhyw un o'i haelodau, cyflogeion neu bwyllgorau, neu

(b) i berson sy'n darparu gwasanaethau i SAC.

- (2) Caiff pwyllgor ddirprwyo swyddogaethau (gan gynnwys swyddogaethau a ddirprwywyd iddo) i is-bwyllgor.
- (3) Nid yw dirprwyo swyddogaeth yn atal SAC na'r pwyllgor (yn ôl y digwydd) rhag gweithredu'r swyddogaeth ei hun.
- 5 (4) Nid yw dirprwyo swyddogaeth yn effeithio ar gyfrifoldeb SAC neu'r pwyllgor (yn ôl y digwydd) am y swyddogaeth.
- (5) Ni chaniateir dirprwyo swyddogaethau o dan y darpariaethau canlynol –
- (a) adran 20(1)(a) (amcangyfrif incwm a gwariant SAC am bob blwyddyn ariannol);
  - 10 (b) adran 25(1) (cytuno ar gynllun blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol gyda'r Archwilydd Cyffredinol);
  - (c) paragraff 25 o Ran 7 o'r Atodlen hon (gwneud rheolau at y diben o reoleiddio gweithdrefn SAC);
  - (d) paragraff 31(2) o Ran 8 o'r Atodlen hon (argymhell person i archwilio cyfrifon SAC, etc);
  - 15 (e) paragraff 1 o Ran 1 o Atodlen 2 (paratoi adroddiad neu adroddiad interim, ar y cyd, bob blwyddyn ariannol ar arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a SAC);
  - (f) paragraff 3 o Ran 2 o Atodlen 2 (dynodi person arall, dros dro, i arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol).

20 *Cyfrifon SAC*

- 30 (1) Yr Archwilydd Cyffredinol fydd yn swyddog cyfrifyddu ar gyfer SAC.
- (2) Rhaid i'r swyddog cyfrifyddu, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, yn unol â chyfarwyddiau a roddir gan y Trysorlys –
- (a) cadw cyfrifon priodol a chofnodion priodol mewn perthynas â hwy, a
  - 25 (b) paratoi datganiad o gyfrifon.
- (3) Rhaid i ddatganiad o gyfrifon roi barn wir a theg ar –
- (a) cyflwr materion SAC ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, a
  - (b) incwm a gwariant SAC yn ystod y flwyddyn ariannol.
- 30 (4) Mae'r cyfarwyddiadau y caiff y Trysorlys eu rhoi yn cynnwys (ond nid ydynt yn gyfyngedig i) gyfarwyddiadau yn ymwneud â'r canlynol –
- (a) y materion a'r trafodion ariannol y mae'r cyfrifon neu'r datganiad o gyfrifon i ymwneud â hwy;
  - (b) yr wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y cyfrifon a'r modd y mae'r cyfrifon i'w cyflwyno;
  - 35 (c) y dulliau a'r egwyddorion y mae'r cyfrifon i'w paratoi yn unol â hwy;
  - (d) yr wybodaeth ychwanegol (os oes) sydd i ddod gyda'r cyfrifon neu'r datganiad o gyfrifon.



- (5) Caiff y cyfarwyddiadau y caniateir i'r Trysorlys eu rhoi hefyd gynnwys cyfarwyddiadau i baratoi cyfrifon sy'n ymwneud â materion a thrafodion ariannol personau ac eithrio SAC.
- (6) Mae gan swyddog cyfrifyddu SAC, mewn perthynas â chyfrifon a chyllid SAC, gyfrifoldebau eraill a bennir o bryd i'w gilydd gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol.

*Archwilio SAC etc*

- 31 (1) Y Cynulliad Cenedlaethol sydd i benodi person yn archwilydd cyfrifon SAC, ac i bennu telerau penodi'r person hwnnw.
- 10 (2) Caiff SAC argymhell person at ddibenion is-baragraff (1).
- (3) Dim ond os yw'r person yn archwilydd cymwysedig fel y'i ddiffinnir yn adran 19 y mae person yn gymwys i'w benodi.
- (4) Os yw person a benodir yn archwilydd yn peidio â bod yn archwilydd cymwysedig, mae'r person yn peidio â bod yn archwilydd.
- 15 (5) Rhaid i'r person a benodir yn archwilydd, fel y gwêl y person hwnnw yn dda, roi sylw i'r safonau a'r egwyddorion y byddai disgwyl i ddarparwr proffesiynol arbenigol o wasanaethau cyfrifyddu neu archwilio eu dilyn.
- (6) Rhaid i SAC dalu tâl cydnabyddiaeth i'r archwilydd fel y darperir ar ei gyfer gan delerau penodi'r archwilydd, neu o dan y telerau hynny.
- 20 32 (1) O ran datganiad o gyfrifon a baratoir o dan baragraff 30, rhaid iddo—
- (a) cael ei lofnodi gan swyddog cyfrifyddu SAC, a
- (b) cael ei gyflwyno gan gadeirydd SAC i'r archwilydd a benodwyd o dan baragraff 31,
- heb fod yn hwyrach na 5 mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef.
- 25 (2) Rhaid i'r archwilydd—
- (a) ymchwilio i unrhyw ddatganiad o gyfrifon a dderbynnir ganddo o dan is-baragraff (1) a'i ardystio, a
- (b) gosod y datganiad o gyfrifon fel y'i hardystiwyd ganddo ynghyd â'i adroddiad arno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.
- 30 (3) Rhaid i'r archwilydd, yn benodol, fod yn fodlon, ar ôl ymchwilio i ddatganiad o gyfrifon a gyflwynir iddo—
- (a) bod y gwariant yr aed iddo ac y mae a wnelo'r datganiad ag ef yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sydd yn ei lywodraethu;
- 35 (b) nad yw arian y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a gafodd SAC at ddiben penodol neu at ddibenion penodol, wedi ei wario ond at y diben hwnnw neu'r dibenion hynny;
- (c) bod y datganiad o gyfrifon yn cydymffurfio â gofynion unrhyw ddeddfiad sy'n gymwys i'r cyfrifon neu'r datganiad o gyfrifon;
- 40 (d) bod arferion priodol wedi eu dilyn wrth baratoi'r datganiad o gyfrifon.



- (4) Mae gan yr archwilydd yr hawl, ar bob adeg resymol, i gael gafael ar bob dogfen yr ymddengys i'r archwilydd ei bod yn angenrheidiol at ddibenion archwilio'r cyfrifon.
- (5) Caiff yr archwilydd—
- (a) ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n dal, neu'n atebol am ddogfen o'r fath, ddarparu unrhyw gymorth, gwybodaeth neu esboniad y mae'n rhesymol gredu ei fod neu ei bod yn angenrheidiol at y dibenion hynny;
- (b) ei gwneud yn ofynnol i berson perthnasol ddarparu cyfrifon i'r archwilydd, ar adegau a bennir ganddo, o ran y trafodion hynny (gan y person perthnasol) a bennir gan yr archwilydd.
- (6) Ystyr "person perthnasol" yw—
- (a) yr Archwilydd Cyffredinol,
- (b) SAC, neu
- (c) unrhyw berson y mae'r cyfrifon yn ymwneud â'i faterion a'i drafodion ariannol o ganlyniad i baragraff 30(5).
- (7) Caiff yr archwilydd—
- (a) cynnal ymchwiliadau i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y modd y mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi defnyddio adnoddau wrth gyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol;
- (b) cynnal ymchwiliadau i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y modd y mae SAC wedi defnyddio adnoddau wrth gyflawni swyddogaethau SAC;
- (c) gosod adroddiad o ganlyniadau unrhyw ymchwiliadau o'r fath gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.
- (8) At ddibenion cynnal ymchwiliadau o'r fath—
- (a) mae gan yr archwilydd hawl i gael gafael, ar bob adeg resymol, ar bob dogfen ym meddiant neu o dan reolaeth yr Archwilydd Cyffredinol neu SAC, y mae ar yr archwilydd angen rhesymol amdano at y dibenion hynny;
- (b) caiff yr archwilydd ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n dal, neu'n atebol am, unrhyw un o'r dogfennau hynny, ddarparu unrhyw gymorth, gwybodaeth neu esboniad y mae'n rhesymol gredu ei fod neu ei bod yn angenrheidiol at y dibenion hynny.

#### *Tystiolaeth ddogfennol*

- 33 (1) Mae gosod sêl SAC i'w ddilysu â llofnod—
- (a) aelod o SAC, neu
- (b) cyflogai i SAC a awdurdodwyd (naill ai'n gyffredinol neu'n benodol) ar gyfer y diben hwnnw gan SAC.
- (2) Mae dogfen yr honnir ei bod wedi ei chyflawni'n briodol o dan sêl SAC, neu yr honnir ei bod wedi ei llofnodi ar ei rhan—
- (a) i gael ei derbyn yn dystiolaeth, a
- (b) oni phrofir i'r gwrthwyneb, rhaid cymryd ei bod wedi'i chyflawni neu ei llofnodi felly.

ATODLEN 2  
(cyflwynwyd gan adran 16(2))

Y BERTHYNAS RHWNG YR ARCHWILYDD CYFFREDINOL A SAC

RHAN 1

ADRODDIADAU A DOGFENNAU

*Adroddiadau*

- 1 (1) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol a chadeirydd SAC, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, lunio adroddiad blynyddol, ar y cyd, ar arferiad swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a SAC yn ystod y flwyddyn.
- 10 (2) Rhaid i adroddiad blynyddol gynnwys (ymhlith pethau eraill) asesiad o'r canlynol—
- (a) y graddau y mae arferiad swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a SAC wedi bod yn gyson â'r cynllun blynyddol a gytunwyd am y flwyddyn o dan adran 25;
  - (b) y graddau y cyflawnwyd y blaenoriaethau a nodwyd yn y cynllun.
- 15 (3) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol a chadeirydd SAC lunio hefyd, ar y cyd, adroddiadau interim ar ddau achlysur yn ystod pob blwyddyn ariannol ar arferiad swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a SAC.
- (4) Rhaid i adroddiad interim gynnwys (ymhlith pethau eraill) asesiad o'r canlynol—
- (a) y graddau y mae arferiad swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a SAC wedi bod yn gyson â'r cynllun blynyddol a gytunwyd am y flwyddyn o dan adran 25;
  - 20 (b) y graddau y gwnaed cynnydd tuag at gyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd yn y cynllun.
- (5) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol a'r person sy'n gadeirydd SAC ar y cyd—
- (a) gosod yr adroddiad blynyddol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd blwyddyn ariannol;
  - 25 (b) gosod yr adroddiadau interim gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar ddyddiadau i'w pennu o bryd i'w gilydd gan y Cynulliad.

*Dogfennau a gwybodaeth*

- 2 (1) Caniateir darparu unrhyw ddogfen neu wybodaeth y mae'n ofynnol i berson ei darparu i'r Archwilydd Cyffredinol, neu y caniateir ei darparu iddo, i SAC (naill ai gan y person hwnnw neu gan yr Archwilydd Cyffredinol).
- 30 (2) At ddibenion adran 3(2) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a rheoliad 3(2) o Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (neu unrhyw reoliadau sy'n disodli'r rheoliadau hynny), mae unrhyw ddogfen neu wybodaeth sy'n cael ei dal gan SAC fel y crybwyllir yn adran 21(2)(d) o'r Ddeddf hon i'w thrin fel petai'r ddogfen neu'r
- 35 wybodaeth yn cael ei dal gan SAC ar ei rhan ei hun.

## RHAN 2

## PERSON ARALL, DROS DRO, YN ARFER SWYDDOGAETHAU'R ARCHWILYDD CYFFREDINOL

- 3 Caiff SAC, gyda chytundeb y Cynulliad Cenedlaethol, ddynodi person i arfer  
5 swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol dros dro yn lle'r Archwilydd Cyffredinol  
("dynodiad dros dro").
- 4 Ni chaniateir gwneud dynodiad dros dro ond o dan yr amgylchiadau a ganlyn—
- (a) bod swydd yr Archwilydd Cyffredinol yn wag,
  - (b) nad yw'r Archwilydd Cyffredinol yn fodlon cyflawni swyddogaethau'r swydd,
  - 10 (c) bod SAC a'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried bod yr Archwilydd Cyffredinol  
yn methu â chyflawni swyddogaethau'r swydd, neu
  - (d) bod SAC a'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried bod seiliau i ddiswyddo'r  
Archwilydd Cyffredinol oherwydd camymddygiad.
- 5 Mae swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol y cyfeirir atynt ym mharagraff 3 yn  
cynnwys (ymhlith pethau eraill)—
- 15 (a) swyddogaethau fel prif weithredwr SAC (gweler adran 16);
  - (b) os yn berthnasol, swyddogaethau fel swyddog cyfrifyddu SAC (gweler paragraff  
30(1) o Ran 8 o Atodlen 1);
  - (c) y pŵer i ddirprwyo o dan adran 18.
- 6 Rhaid i berson sydd wedi ei ddynodi i arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol  
20 fod yn gyflogai i SAC.
- 7 Bydd person sydd wedi ei ddynodi i arfer y swyddogaethau hynny yn parhau'n  
gyflogedig gan SAC ar yr un telerau.
- 8 Ond bydd y person hwnnw yn cael ei ddynodi i arfer swyddogaethau ar y telerau  
ychwanegol hynny (gan gynnwys telerau talu cydnabyddiaeth) y cytunir arnynt gan  
25 SAC a'r Cynulliad Cenedlaethol.
- 9 Caiff telerau talu cydnabyddiaeth—
- (a) darparu ar gyfer lwfansau, rhoddion ariannol a buddion eraill i dalu treuliau yr  
aed iddynt yn briodol ac o anghenraid gan y person wrth arfer y swyddogaethau,  
a
  - 30 (b) cynnwys fformiwla neu fecanwaith arall ar gyfer addasu un neu fwy o'r elfennau  
hynny o dro i dro.
- 10 Ond ni chaiff y telerau talu cydnabyddiaeth ddarparu ar gyfer talu cyflog ychwanegol  
neu bensiw.
- 11 Rhaid i SAC dalu tâl cydnabyddiaeth i'r person fel y darperir ar ei gyfer gan unrhyw  
35 delerau ychwanegol o ran talu cydnabyddiaeth y cytunir arnynt, neu o dan y telerau  
hynny.
- 12 O ran hyd dynodiad dros dro mewn perthynas ag amgylchiad y cyfeirir ato ym  
mharagraff 4—
- (a) ni chaiff fod yn fwy na 6 mis; ond

- (b) caniateir i SAC ei estyn unwaith mewn perthynas â'r amgylchiad hwnnw, gyda chytundeb y Cynulliad Cenedlaethol, am hyd at 6 mis arall.

ATODLEN 3  
(cyflwynwyd gan adran 34(1))

DARPARIAETHAU TROSIANNOL, ATODOL AC ARBED

RHAN 1

5

YR ARCHWILYDD CYFFREDINOL

*Yr Archwilydd Cyffredinol blaenorol i barhau yn Archwilydd Cyffredinol*

- 1 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i'r person sydd yn Archwilydd Cyffredinol yn union  
cyn y diwrnod penodedig.
- (2) Ar y diwrnod penodedig, ac ar ôl hynny, bydd y person—
- 10 (a) yn parhau i fod yn Archwilydd Cyffredinol ac yn cael ei drin fel petai wedi cael ei  
benodi i'r swydd honno o dan Ran 1 o'r Ddeddf hon;
- (b) yn dal y swydd honno am 8 mlynedd gan dynnu o'r cyfnod hwnnw gyfnod sy'n  
hafal i'r amser y bu'r person yn Archwilydd Cyffredinol cyn y diwrnod  
penodedig.
- 15 (3) Bydd trefniadau ar gyfer talu cydnabyddiaeth i'r person o dan adran 7 yn cael eu  
gwneud gan y Cynulliad Cenedlaethol cyn y diwrnod penodedig (ond nid ydynt i  
gwmpasu unrhyw gyfnod cyn y diwrnod penodedig).
- (4) Ond cyn gwneud y trefniadau hynny rhaid ymgynghori â'r Prif Weinidog.
- 20 (5) Yn y paragraff hwn, ystyr "y diwrnod penodedig" yw'r diwrnod y daw'r paragraff hwn i  
rym.

*Arbedion ar gyfer archwilwyr a benodwyd o dan adran 13 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004*

- 2 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys os, yn union cyn y daw adran 11 (archwilio cyfrifon  
cyrff llywodraeth leol yng Nghymru) i rym, bydd penodiad person fel archwilydd mewn  
perthynas â chyfrifon corff llywodraeth leol yng Nghymru yn cael effaith o dan adran 13  
25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.
- (2) Bydd y penodiad hwnnw o'r person fel archwilydd yn parhau i gael effaith tan ddiwedd  
y cyfnod y penodwyd y person ar ei gyfer (oni ddaw'r penodiad i ben yn gynnar).
- (3) Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, gyda'r addasiadau canlynol, yn  
gymwys mewn perthynas ag archwilydd y mae ei benodiad yn parhau yn rhinwedd is-  
30 baragraff (2)—
- (a) bydd Rhan 2 ac adran 64E(4) yn cael effaith fel pe na baent wedi cael eu diwygio  
gan y Ddeddf hon, a
- (b) bydd adran 20 yn cael effaith fel pe bai pob cyfeiriad at Archwilydd Cyffredinol  
35 Cymru yn gyfeiriad at SAC (a bydd unrhyw raddfa ffioedd sydd eisoes wedi ei  
rhagnodi gan Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan yr adran honno yn parhau i  
gael effaith mewn perthynas â'r archwilydd y mae ei benodiad i barhau tan ei bod  
yn cael ei hamrywio neu'n cael ei disodli gan raddfa a ragnodwyd gan SAC, ac oni  
bai fod hynny'n digwydd).

(4) Mae darpariaethau canlynol Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn cael effaith mewn perthynas ag archwilydd y mae ei benodiad yn cael ei barhau gan is-baragraff (2) fel pe na baent wedi cael eu diwygio gan y Ddeddf hon—

(a) adran 16(2)(e);

(b) adran 25(5)(b).

*Arbedion yn ymwneud â chyfyngiadau ar ddatgelu gwybodaeth*

3 (1) Pan fo gwybodaeth wedi ei chael gan—

(a) archwilydd a benodwyd o dan adran 13 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 o dan ddarpariaeth o'r Ddeddf honno sydd wedi ei diwygio gan y Ddeddf hon,

(b) person sy'n gweithredu ar ei ran, neu

(c) person sy'n gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol o dan ddarpariaeth unrhyw un o'r deddfiadau a ganlyn sydd wedi ei diwygio gan y Ddeddf hon—

(i) adran 145C o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998,

(ii) Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999,

(iii) Rhan 1 neu Ran 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, neu

(iv) Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009,

nid effeithir ar y modd y mae unrhyw ddarpariaeth ynglŷn â datgelu gwybodaeth yn gweithredu gan ddiwygiad i'r ddarpariaeth honno.

(2) I'r graddau y mae'n angenrheidiol ar gyfer parhau'r modd y mae unrhyw ddarpariaeth ynglŷn â datgelu gwybodaeth yn gweithredu, bydd gwybodaeth sydd wedi ei chael mewn modd a grybwyllir yn is-adran (1) i'w thrin yn yr un modd a gwybodaeth sydd wedi ei chael gan yr Archwilydd Cyffredinol.

RHAN 2

SAC

*Rheolau gweithdrefnol SAC cyn i reolau gael eu gwneud o dan baragraff 25 o Atodlen 1*

4 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys tan y gwneir y rheolau cyntaf o dan baragraff 25 o Atodlen 1.

(2) Penderfynir ar unrhyw fater sydd i'w benderfynu gan SAC (gan gynnwys unrhyw fater sydd i'w benderfynu at ddibenion paratoi neu wneud y rheolau hynny) yn unol â'r weithdrefn a bennir gan gadeirydd SAC (a all gynnwys y weithdrefn ar gyfer pennu cworwm ar gyfer unrhyw gyfarfod y mae'r mater i'w benderfynu ynddo).

## RHAN 3

## TROSLWYDDO SWYDDOGAETHAU ETC

*Trosglwyddo staff*

- 5 (1) Ar y diwrnod penodedig bydd staff yr Archwilydd Cyffredinol yn cael eu trosglwyddo i  
gyflogaeth SAC.
- (2) At unrhyw ddiben mewn perthynas â pherson a ddaw'n gyflogai i SAC yn rhinwedd is-  
baragraff (1) –
- (a) o ran contract cyflogaeth y person hwnnw –
- 10 (i) nid yw'n cael ei derfynu gan y trosglwyddo, a
- (ii) mae'n cael effaith o'r diwrnod penodedig fel pe byddai wedi ei wneud yn  
wreiddiol rhwng y person hwnnw a SAC;
- (b) mae cyfnod cyflogaeth fel aelod o staff yr Archwilydd Cyffredinol yn union cyn y  
diwrnod penodedig –
- 15 (i) i'w drin fel cyfnod o gyflogaeth gyda SAC, a
- (ii) i'w drin fel cyfnod cyflogaeth di-dor fel aelod o staff SAC at ddibenion  
adran 218(3) o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996.
- (3) Heb ragfarnu is-baragraff (2), pan fo person yn dod yn gyflogai i SAC yn rhinwedd is-  
baragraff (1) –
- 20 (a) trosglwyddir holl eiddo, hawliau a rhwymedigaethau'r Archwilydd Cyffredinol o  
dan gontract cyflogaeth y person hwnnw, ac mewn cysylltiad â'i gontract, i SAC, a
- (b) mae unrhyw beth a wnaed cyn y diwrnod penodedig gan yr Archwilydd  
Cyffredinol neu mewn perthynas ag ef mewn cysylltiad â'r person neu â'r contract  
i'w drin o'r diwrnod hwnnw ymlaen fel pe byddai wedi ei wneud gan SAC neu  
mewn perthynas â hi.
- 25 (4) Ni throsglwyddir contract cyflogaeth (na hawliau, pwerau, dyletswyddau a  
rhwymedigaethau oddi tano neu mewn cysylltiad ag ef) o dan y paragraff hwn os yw  
cyflogai yn gwrthwynebu'r trosglwyddiad ac yn hysbysu'r Archwilydd Cyffredinol neu  
SAC o'r gwrthwynebiad hwnnw.
- (5) Os yw cyflogai yn hysbysu'r Archwilydd Cyffredinol neu SAC ei fod yn gwrthwynebu'r  
trosglwyddiad o dan is-baragraff (4) –
- 30 (a) terfynir y contract cyflogaeth yn union cyn y diwrnod penodedig; ond
- (b) nid yw'r cyflogai i'w drin, at unrhyw ddiben, fel petai wedi cael ei ddiswyddo gan  
yr Archwilydd Cyffredinol.
- (6) Nid oes dim yn y paragraff hwn yn effeithio ar unrhyw hawl sydd gan berson i derfynu  
ei gontract cyflogaeth os gwneir newid sylweddol (ar wahân i newid cyflogwr) sy'n  
niweidiol i'r person o ran ei amodau gwaith.
- 35 (7) Yn y paragraff hwn, ystyr "y diwrnod penodedig" yw'r diwrnod y daw'r paragraff hwn i  
rym.



## Trosglwyddo eiddo arall a hawliau a rhwymedigaethau eraill

- 6 (1) Ar y diwrnod trosglwyddo, trosglwyddir i SAC yr eiddo, yr hawliau a'r  
rhwymedigaethau y mae gan yr Archwilydd Cyffredinol hawl iddynt, neu y mae'r  
Archwilydd Cyffredinol yn ddarostyngedig iddynt mewn perthynas ag unrhyw  
5 swyddogaeth a drosglwyddir, a byddant wedi eu breinio yn SAC o'r diwrnod hwnnw  
ymlaen.
- (2) Mae is-baragraff (1) yn gweithredu mewn perthynas ag eiddo, hawliau a  
rhwymedigaethau –
- (a) p'un a ellid fod wedi eu trosglwyddo fel arall ai peidio;
- 10 (b) ni waeth pa fath o ofyniad am gydsyniad a fyddai'n gymwys fel arall.
- (3) Caiff unrhyw beth (gan gynnwys achosion cyfreithiol) sy'n ymwneud â'r canlynol –
- (a) unrhyw swyddogaeth a drosglwyddir, neu
- (b) unrhyw eiddo, hawliau neu rwymedigaethau a drosglwyddir yn rhinwedd is-  
baragraff (1) mewn cysylltiad ag unrhyw swyddogaeth a drosglwyddir,
- 15 ac sydd yn y broses o gael ei wneud gan yr Archwilydd Cyffredinol, neu mewn  
perthynas ag ef, yn union cyn y diwrnod trosglwyddo, barhau i gael ei wneud o'r  
diwrnod hwnnw ymlaen gan SAC neu mewn perthynas â hi.
- (4) Bydd unrhyw beth a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol neu mewn perthynas ag ef at  
ddibenion y canlynol neu mewn cysylltiad â'r canlynol –
- 20 (a) unrhyw swyddogaeth a drosglwyddir, neu
- (b) unrhyw eiddo, hawliau neu rwymedigaethau a drosglwyddir yn rhinwedd is-  
baragraff (1) mewn cysylltiad ag unrhyw swyddogaeth a drosglwyddir,
- ac sydd yn cael effaith yn union cyn y diwrnod trosglwyddo yn cael effaith fel petai wedi  
ei wneud gan SAC neu mewn perthynas â hi o'r diwrnod hwnnw ymlaen.
- 25 (5) Mewn unrhyw offerynnau, contractau neu achosion cyfreithiol sy'n ymwneud â'r  
canlynol –
- (a) unrhyw swyddogaeth a drosglwyddir, neu
- (b) unrhyw eiddo, hawliau neu rwymedigaethau a drosglwyddir yn rhinwedd is-  
baragraff (1) mewn cysylltiad ag unrhyw swyddogaeth a drosglwyddir,
- 30 ac sydd wedi eu gwneud neu eu cychwyn cyn y diwrnod trosglwyddo, mae cyfeiriad at  
yr Archwilydd Cyffredinol i'w drin o'r diwrnod hwnnw ymlaen fel cyfeiriad at SAC neu  
fel petai'n cynnwys cyfeiriad at SAC.
- (6) Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys mewn perthynas â hawliau a rhwymedigaethau o  
dan contract cyflogaeth fel aelod o staff yr Archwilydd Cyffredinol a drosglwyddir i SAC  
35 yn rhinwedd paragraff 5.
- (7) Yn y paragraff hwn –
- ystyr "diwrnod trosglwyddo" ("*transfer day*"), mewn perthynas â swyddogaeth a  
drosglwyddir, yw'r diwrnod pan y daeth y swyddogaeth yn arferadwy gan SAC  
am y tro cyntaf;
- 40 ystyr "swyddogaeth a drosglwyddir" ("*transferred function*") yw swyddogaeth –



(a) a roddir i SAC neu a osodir arni gan ddarpariaeth o'r Ddeddf hon sydd yn ailddeddfu (gydag addasiadau neu hebddynt) ddarpariaeth o unrhyw ddeddfiad a roddodd yr un swyddogaeth neu swyddogaeth sylweddol debyg i'r Archwilydd Cyffredinol neu a osododd swyddogaeth felly arno, neu

(b) a roddir i SAC neu a osodir arni gan unrhyw ddeddfiad o ganlyniad i ddiwygio'r deddfiad hwnnw gan y Ddeddf hon neu odani.

5

7 (1) Mae tystysgrif a ddyroddir gan Weinidogion Cymru yn nodi fod eiddo wedi ei drosglwyddo yn rhinwedd paragraff 6(1) yn dystiolaeth bendant o'r trosglwyddiad.

10 (2) Mae paragraff 6 yn cael effaith mewn perthynas ag eiddo, hawliau neu rwymedigaethau y mae'n gymwys iddynt er gwaethaf unrhyw ddarpariaeth (o ba natur bynnag) a fyddai fel arall yn rhwystro neu'n cosbi trosglwyddiad yr eiddo, yr hawliau neu'r rhwymedigaethau neu'n cyfyngu ar eu trosglwyddo

15 (3) Nid oes hawl i ragbrynu, hawl i ddychwelyd na hawl arall debyg yn gweithredu nac yn dod yn arferadwy o ganlyniad i unrhyw drosglwyddiad eiddo neu hawliau yn rhinwedd paragraff 6(1).

(4) Mae unrhyw hawl o'r fath yn cael effaith yn achos unrhyw drosglwyddiad o'r fath fel pe bai'r trosglwyddwr a'r trosglwyddai yn un person yn gyfreithiol ac nad oedd eiddo na hawliau wedi eu trosglwyddo.

20 (5) Telir y symiau digolledu hynny sy'n gyfiawn i unrhyw berson o ran unrhyw hawl o'r fath a fyddai, ar wahân i is-baragraff (3), wedi gweithredu o blaid y person hwnnw neu wedi dod yn arferadwy ganddo, ond na all weithredu o blaid y person hwnnw na dod yn arferadwy ganddo bellach oherwydd gweithrediad yr is-baragraff hwnnw.

25 (6) Ond ni thelir symiau digolledu o dan is-baragraff (5) i'r Archwilydd Cyffredinol, i SAC nac i gyn-Archwilydd Cyffredinol.

(7) Mae symiau digolledu sy'n daladwy yn rhinwedd is-baragraff (5) i'w talu gan SAC.

(8) Mae unrhyw swm a delir o dan is-baragraff (7) i'w godi ar Gronfa Gyfunol Cymru a'i dalu ohono.

30 (9) Mae is-baragraffau (2) i (8) yn gymwys mewn perthynas â chreu hawliau neu fuddiannau, neu wneud unrhyw beth arall mewn perthynas ag eiddo, fel y maent yn gymwys o ran trosglwyddo eiddo, ac mae cyfeiriadau at y trosglwyddwr a'r trosglwyddai i'w darllen yn unol â hynny.

(10) Yn y paragraff hwn, ystyr "hawl i ddychwelyd" yw unrhyw hawl o dan ddarpariaeth ar gyfer dychweliad neu rifersiwn eiddo mewn amgylchiadau penodol.

### 35 *Atebolrwydd troseddol yr Archwilydd Cyffredinol*

8 (1) I'r graddau y mae unrhyw atebolrwydd troseddol sydd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn gysylltiedig ag eiddo, hawliau neu rhwymedigaethau a drosglwyddir i SAC yn rhinwedd paragraff 6, mae'r atebolrwydd troseddol hefyd yn cael ei drosglwyddo i SAC.

40 (2) Mae paragraff 6(3) i (5) yn gymwys mewn perthynas ag atebolrwydd troseddol a drosglwyddir yn rhinwedd y paragraff hwn fel y mae'n gymwys i atebolrwydd a drosglwyddir yn rhinwedd paragraff 6(1).

*Indemnio*

9 (1) Mae'r rhwymedigaethau sydd wedi eu cwmpasu gan adran 30 yn cynnwys—

(a) rhwymedigaethau sy'n codi cyn i'r adran honno ddod i rym, a

(b) rhwymedigaethau sy'n codi mewn perthynas ag unrhyw weithred neu  
5 anweithred a ddigwyddodd cyn i'r adran honno ddod i rym.

(2) Mae is-baragraff (3) yn gymwys pan—

(a) daw swm yn dyladwy gan gyn-Archwilydd Cyffredinol a benodwyd cyn i adran 2  
ddod i rym, a

(b) byddai'r swm hwnnw wedi ei godi ar Gronfa Gyfunol Cymru o dan baragraff 9(1)  
10 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 cyn i'r paragraff hwnnw gael ei  
diddymu gan y Ddeddf hon.

(3) Mae paragraff 9(1) o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn parhau i gael  
effaith o ran y person hwnnw a'r swm hwnnw fel pe na bai'r diddymiad wedi dod i rym.

ATODLEN 4  
(cyflwynwyd gan adran 35)

MÂN DDIWYGIADAU A DIWYGIADAU CANLYNIADOL

*Deddf Blwydd-daliadau 1972*

- 5 1 Yn Atodlen 1 i Ddeddf Blwydd-daliadau 1972 (swyddi y mae adran 1 o'r Ddeddf honno'n gymwys iddynt), yn y rhestr "Other bodies" yn lle "Employment as a member of the staff of the Auditor General for Wales" rhodder "Employment as a member of the staff of the Wales Audit Office".

*Deddf Cyllid 1989*

- 10 2 Yn adran 182 o Ddeddf Cyllid 1989 (datgelu gwybodaeth), yn is-adran (4)(a), ar ôl is-baragraff (iii), mewnosoder –  
 "(iia) of the Wales Audit Office and any member or employee of that Office,".

*Deddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992*

- 15 3 Yn is-adran (8) o adran 123 o Ddeddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992 (datgelu gwybodaeth heb awdurdod mewn perthynas â phersonau penodol), ar ôl paragraff (ba), mewnosoder –  
 "(bb) any member of the staff of the Wales Audit Office, and any person providing services to that Office".

20 *Deddf Addysg 1997*

- 4 Yn adran 41A o Ddeddf Addysg 1997 (arolygiadau sy'n ymwneud â chydweithrediad Archwilydd Cyffredinol Cymru), yn is-adran (6), yn lle "the Auditor General for Wales an amount equal to the full costs incurred by the Auditor General for Wales in providing the assistance" rhodder "the Wales Audit Office a fee, in accordance with a scheme for  
 25 charging fees prepared under section 24 of the Public Audit (Wales) Act 2013 (which may not exceed the full cost incurred by the Auditor General in providing the assistance)".

*Deddf Llywodraeth Cymru 1998*

- 5 Mae Deddf Llywodraeth Cymru 1998 wedi ei diwygio fel a ganlyn.  
 6 (1) Mae adran 145C wedi ei diwygio fel a ganlyn.  
 30 (2) Yn is-adran (2), hepgorer "or on his behalf".  
 (3) Yn is-adran (3) (astudiaethau yn ymwneud â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig), yn lle "make good to the Auditor General for Wales the full costs incurred by him in undertaking the programme" rhodder "pay to the Wales Audit Office a sum with respect the costs incurred (which may not exceed the full cost incurred in undertaking the  
 35 programme), in accordance with a scheme for charging fees prepared under section 24 of the Public Audit (Wales) Act 2013".

(4) Yn is-adran (5), hepgorer "or on his behalf".

7 (1) Mae adran 145D (cymorth a chyngor i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

5 (2) Yn is-adran (2), yn lle "the Auditor General for Wales thinks fit" rhodder "the Wales Audit Office thinks fit, but any terms as to payment may only be made in accordance with a scheme for charging fees prepared under section 24 of the Public Audit (Wales) Act 2013".

(3) Ar ôl is-adran (2), mewnosoder –

10 "(2A) Any sums charged in relation to advice or assistance provided under this section may not exceed the full cost of providing that advice or assistance."

15 (4) Yn is-adran (3), yn lle "paragraph 21 of Schedule 8 to the Government of Wales Act 2006 (arrangements between Auditor General for Wales and certain bodies)" rhodder "section 19 of the Public Audit (Wales) Act 2013 (arrangements for the provision of services between the Wales Audit Office and certain bodies)".

8 Yn is-adran (2) o adran 146 (trosglwyddo swyddogaethau'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol), ym mharagraff (b), ar ôl "the Auditor General for Wales," mewnosoder "the Wales Audit Office,".

#### *Deddf Llywodraeth Leol 1999*

20 9 Mae Deddf Llywodraeth Leol 1999 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

10 Yn adran 11 (pwerau a dyletswyddau arolygwyr), ym mharagraff (b) o is-adran (7), yn lle "a member of his staff or a person providing services to him" rhodder "or a person exercising the functions of the Auditor General for Wales by virtue of a delegation made under section 18 of the Public Audit (Wales) Act 2013,".

25 11 (1) Mae adran 12A (ffioedd: arolygiadau o dan adran 10A) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (1), yn lle "the Auditor General for Wales" rhodder "the Wales Audit Office".

(3) Yn is-adran (2), yn lle "the Auditor General for Wales" rhodder "the Wales Audit Office, in accordance with a scheme for charging fees prepared under section 24 of the Public Audit (Wales) Act 2013,".

30 (4) Yn is-adrannau (3) a (4), am bob cyfeiriad at "Auditor General for Wales" rhodder "Wales Audit Office".

(5) Ar ôl paragraff (b) o is-adran (4) mewnosoder –

"(5) A fee charged under this section may not exceed the full cost of exercising the function to which it relates."

35 12 (1) Mae is-adran (7) o adran 23 (cyfrifon) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Hefgorer "or the Auditor General for Wales".

(3) Ar ôl "accounts", mewnosoder "or, in relation to best value authorities in Wales, the Auditor General for Wales".

13 Yn is-adran (3) o adran 33 (cyllid), ym mharagraff (b), yn lle “the Auditor General for Wales” rhodder “the Wales Audit Office”.

*Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000*

14 Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

5 15 (1) Mae is-adran (5) o adran 36 (gwybodaeth esempt: rhagfarnu cynnal materion cyhoeddus yn effeithiol) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (gb), ar ôl “the Auditor General for Wales” rhodder “, the Wales Audit Office”.

(3) Ym mharagraff (k) –

10 (a) ar ôl y cyfeiriad cyntaf at “the Auditor General for Wales”, rhodder “or the Wales Audit Office”, a

(b) yn lle’r ail gyfeiriad at “the Auditor General for Wales” rhodder “the Wales Audit Office”.

15 16 Yn Rhan 6 o Atodlen 1 (cyrff cyhoeddus y mae’r Ddeddf hon yn gymwys iddynt - cyrff a swyddi cyhoeddus eraill: cyffredinol), mewnosoder yn y man priodol “the Wales Audit Office”.

*Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004*

17 Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

18 Hepgorer adran 14 (penodi archwilwyr) a 15 (personau i gynorthwyo archwilwyr).

20 19 Hepgorer adran 16 (cod ymarfer archwilio).

20 (1) Mae adran 17 (dyletswyddau cyffredinol archwilwyr) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (2), yn lle “An auditor must” rhodder “The Auditor General for Wales must”.

(3) Hepgorer is-adrannau (3) a (4).

(4) Yn unol â hynny, pennawd adran 17 bellach fydd “General duties on audit of accounts”.

25 21 Hepgorer adran 18 (hawl archwilwyr i ddogfennau a gwybodaeth) ac 19 (hawl archwilwyr i ddogfennau a gwybodaeth: troseddau).

22 (1) Mae adran 20 (ffioedd am archwiliad) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Cyn is-adran (1), mewnosoder –

30 “(A1) The Wales Audit Office must, in accordance with a scheme for charging fees prepared under section 24 of the Public Audit (Wales) Act 2013, charge a fee in respect of functions exercised by the Auditor General for Wales –

(a) in auditing the accounts of local government bodies in Wales under this Chapter, and

35 (b) in undertaking studies at the request of a local government body under section 44.”.

(3) Yn unol â hynny, pennawd adran 20 bellach fydd “Fees in respect of functions exercised by the Auditor General for Wales”.

- (4) Yn is-adran (1), yn lle "The Auditor General for Wales" rhodder "The Wales Audit Office".
- (5) Yn is-adran (2) –
- 5 (a) yn lle "the Auditor General for Wales" bob tro y mae'r geiriau hynny'n ymddangos rhodder "the Wales Audit Office";
- (b) ym mharagraff (a), yn lle "of local authorities" rhodder "of local government bodies";
- (c) yn lle paragraff (b), rhodder –
- 10 "(b) such other persons as the Wales Audit Office thinks fit."
- (6) Hepgorer is-adran (3).
- (7) Yn is-adran (4), yn lle "the Auditor General for Wales" rhodder "the Wales Audit Office".
- (8) Yn is-adran (5) –
- 15 (a) yn lle "the Auditor General for Wales" bob tro y mae'r geiriau hynny'n ymddangos rhodder "the Wales Audit Office";
- (b) hepgorer "him when prescribing".
- (9) Ar ôl is-adran (5) mewnosoder –
- "(5A) But a fee charged under this section may not exceed the full cost of exercising the function to which it relates."
- (10) Hepgorer is-adran (6).
- 20 23 Hepgorer adran 21 (ffioedd a ragnodir gan y Cynulliad).
- 24 (1) Mae adran 22 (adroddiadau di-oed ac adroddiadau eraill er budd y cyhoedd) wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn lle pob cyfeiriad at "an auditor" neu "the auditor" rhodder "the Auditor General for Wales".
- 25 (3) Yn is-adran (5), hepgorer ", and a copy of the report to the Auditor General for Wales,".
- (4) Yn is-adran (6), hepgorer ", and a copy of the report to the Auditor General for Wales,".
- 25 Yn adran 23 (adroddiad cyffredinol), yn lle pob cyfeiriad at "an auditor" neu "the auditor" rhodder "the Auditor General for Wales".
- 26 Yn adran 24 (ystyried adroddiadau er budd y cyhoedd), yn lle "an auditor" rhodder "the Auditor General for Wales".
- 30 (1) Mae adran 25 (y weithdrefn i ystyried adroddiadau ac argymhellion) wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn is-adran (2), yn lle "an auditor of" rhodder "the Auditor General for Wales, in auditing".
- 35 (3) Yn is-adran (4), yn lle "the auditor" rhodder "the Auditor General for Wales".
- (4) Yn is-adran (6), yn lle "An auditor" rhodder "The Auditor General for Wales".
- 28 Yn adran 26 (cyhoeddusrwydd ar gyfer cyfarfodydd o dan adran 25), yn lle pob cyfeiriad at "an auditor" neu "the auditor" rhodder "the Auditor General for Wales".

- 29 (1) Mae adran 27 (cyhoeddusrwydd ychwanegol ar gyfer adroddiadau di-oed) wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn is-adran (1), yn lle "an auditor" rhodder "the Auditor General for Wales".
- (3) Yn is-adran (5), yn lle "An auditor who has made a report under section 22(3)" rhodder "The Auditor General for Wales".
- 5
- 30 (1) Mae adran 28 (cyhoeddusrwydd ychwanegol ar gyfer adroddiadau nad ydynt yn ddi-oed) wedi diwygio fel a ganlyn.
- (2) Am bob cyfeiriad at "an auditor" neu "the auditor" rhodder "the Auditor General for Wales".
- (3) Hepgorer is-adran (4).
- 10
- 31 (1) Mae adran 29 (edrych ar ddatganiadau o gyfrifon ac adroddiadau archwilwyr) wedi diwygio fel a ganlyn.
- (2) Ym mharagraff (b) o is-adran (1), yn lle "an auditor" rhodder "the Auditor General for Wales".
- (3) Yn unol â hynny pennawd adran 29 bellach fydd "Inspection of statements of accounts and Auditor General for Wales' reports".
- (4) Yn unol â hynny y croesbennawd cyn adran 29 bellach fydd "Public inspection etc and action by the Auditor General for Wales".
- 15
- 32 (1) Mae adran 30 (edrych ar ddogfennau a chwestiynau mewn archwiliad) wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- 20
- (2) Yn is-adran (2) –
- (a) yn lle "the auditor of those accounts" rhodder "the Auditor General for Wales", a
- (b) yn lle "the auditor" rhodder "the Auditor General".
- (3) Yn is-adran (3), yn lle "a body's auditor" rhodder "the Auditor General for Wales".
- 25
- 33 Yn adran 31 (yr hawl i wneud gwrthwynebiad mewn archwiliad), am bod cyfeiriad at "the auditor" rhodder "the Auditor General for Wales".
- 34 (1) Mae adran 32 (datganiad bod eitem cyfrif yn anghyfreithlon) wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn is-adran (1) –
- 30
- (a) yn lle "an auditor" rhodder "the Auditor General for Wales in", a
- (b) yn lle "the auditor" rhodder "he".
- (3) Yn is-adran (4), yn lle "an auditor" rhodder "the Auditor General for Wales".
- (4) Yn is-adrannau (6) i (9), yn lle pob cyfeiriad at "an auditor" neu "the auditor" rhodder "the Auditor General for Wales".
- 35
- 35 (1) Mae adran 33 (hysbysiadau cynghori) wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn is-adran (1) –
- (a) yn lle "An auditor of accounts of a local government body in Wales" rhodder "The Auditor General for Wales", a
- (b) ar ôl "is met" mewnosoder "with respect a local government body in Wales".



- (3) Ym mharagraff (d) o is-adran (4), yn lle "the auditor of the body's accounts" rhodder "the Auditor General for Wales".
- (4) Ym mharagraff (c) o is-adran (6), yn lle "the auditor by whom the notice is issued" rhodder "the Auditor General for Wales".
- 5 (5) Yn is-adran (7), yn lle "The auditor by whom an advisory notice is issued" rhodder "The Auditor General for Wales".
- (6) Yn is-adran (10), yn lle "the person who for the time being is the auditor of the body to which, or to an officer of which, the notice was addressed" rhodder "the Auditor General for Wales".
- 10 (7) Yn is-adran (11), yn lle "The auditor by whom an advisory notice is withdrawn" rhodder "The Auditor General for Wales".
- (8) Hepgorer is-adran (12).
- 36 (1) Mae adran 34 (effaith hysbysiad cynghori) wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Ym mharagraff (b) o is-adran (5), yn lle "the person who is for the time being the auditor of the body's accounts" rhodder "the Auditor General for Wales".
- 15 (3) Yn is-adran (8) –
- (a) yn lle "An auditor" rhodder "The Wales Audit Office", a
- (b) yn lle "by him" rhodder "by the Auditor General for Wales".
- 37 Yn is-adran (3) o adran 35 (hysbysiadau cynghori: camau cyfreithiol), yn lle "an auditor" rhodder "the Auditor General for Wales".
- 20
- 38 (1) Mae adran 36 (pŵer archwilydd i wneud hawliad am adolygiad barnwrol) wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn is-adran (1) –
- (a) yn lle "An auditor appointed to audit accounts of a local government body in Wales" rhodder "The Auditor General for Wales", a
- 25 (b) yn lle'r cyfeiriad cyntaf at "the body" rhodder "a local government body in Wales".
- (3) Yn is-adran (3), yn lle "an auditor" rhodder "the Auditor General for Wales".
- (4) Yn is-adran (4) –
- 30 (a) yn lle "an auditor" rhodder "the Auditor General for Wales", a
- (b) yn lle "the auditor" rhodder "the Auditor General for Wales or the Wales Audit Office".
- 39 (1) Mae adran 37 (archwiliad eithriadol) wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn lle pob cyfeiriad at "the Assembly" rhodder "the Welsh Ministers".
- 35 (3) Yn is-adran (1), hepgorer "direct an auditor to".
- (4) Yn is-adran (4), hepgorer "direct an auditor to".
- (5) Yn is-adran (5), hepgorer paragraff (a).
- (6) Yn is-adran (8), yn lle "The Auditor General for Wales" rhodder "The Wales Audit Office".



- 40 Yn is-adran (2) o adran 38 (archwilio cyfrifon swyddogion), yn lle "The auditor of a body's accounts" rhodder "the Auditor General for Wales".
- 41 (1) Mae adran 39 (rheoliadau cyfrifon ac archwiliadau) wedi ei diwygio fel a ganlyn.  
 (2) Yn lle pob cyfeiriad at "Assembly" rhodder "Welsh Ministers".
- 5 (3) Yn is-adran (2), yn lle pob cyfeiriad at "it" rhodder "them".  
 (4) Ym mharagraff (b) o is-adran (5), yn lle "an auditor" rhodder "the Auditor General for Wales or the Wales Audit Office".  
 (5) Yn is-adran (6), ar ôl "may be recovered" mewnosoder "by the Wales Audit Office".
- 42 (1) Mae adran 40 (dogfennau yn ymwneud ag awdurdodau heddlu) wedi ei diwygio fel a ganlyn.  
 (2) Yn lle pob cyfeiriad at "Assembly" rhodder "Welsh Ministers".  
 (3) Yn is-adran (1), yn lle "receives a copy of a report under section 22(5) or (6)" rhodder "makes a report under section 22".
- 10
- 43 (1) Mae adran 41 (astudiaethau ar gyfer gwella darbodaeth etc mewn gwasanaethau) wedi ei diwygio fel a ganlyn.  
 (2) Yn is-adrannau (1) i (5), hepgorer pob cyfeiriad at "or promote", "or promotes" ac "or promoting".  
 (3) Yn is-adran (6), yn lle "the Assembly" rhodder "the Welsh Ministers".
- 15
- 44 (1) Mae adran 42 (astudiaethau ar effaith darpariaethau statudol etc) wedi ei diwygio fel a ganlyn.  
 (2) Yn is-adran (1) –  
 (a) hepgorer "or promote", a  
 (b) yn mharagraff (b,) yn lle "the Assembly" rhodder "the Welsh Ministers".  
 (3) Yn is-adran (2), yn lle pob cyfeiriad at "the Assembly" rhodder "the National Assembly for Wales".  
 (4) Yn is-adran (3), hepgorer "or promoting".  
 (5) Yn is-adran (4), yn lle pob cyfeiriad at "Assembly" rhodder "Welsh Ministers".
- 20
- 45 Yn is-adran (1) o adran 44 (astudiaethau ar gais cyrff llywodraeth leol yng Nghymru), hepgorer "or promote".
- 25
- 30 46 (1) Mae adran 45 (astudiaethau gweinyddu budd-daliadau ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol) wedi ei diwygio fel a ganlyn.  
 (2) Yn is-adran (7), yn lle'r ail gyfeiriad at "the Auditor General for Wales" rhodder "the Wales Audit Office".  
 (3) Yn is-adran (8), yn lle "the Auditor General for Wales" rhodder "the Wales Audit Office, (but may not exceed the full cost incurred by the Auditor General for Wales in conducting, or assisting the Secretary of State to conduct, the study)".  
 (4) Ar ôl is-adran (8), rhodder –  
 "(9) A fee payable under this section must be charged in accordance with a scheme for charging fees prepared under section 24 of the Public Audit (Wales) Act 2013.".
- 35
- 40

- 47 Yn is-adran (2) o adran 46 (safonau perfformio: cyrff perthnasol), yn lle “the Assembly” rhodder “the Welsh Ministers”.
- 48 Yn is-adran (5) o adran 47 (cyhoeddi gwybodaeth o ran safonau perfformio), yn lle “The Assembly” rhodder “The Welsh Ministers”.
- 5 49 (1) Mae adran 51 (cyfeiriadau ac adroddiadau nawdd cymdeithasol i’r Ysgrifennydd Gwladol) wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Hepgorer is-adran (2).
- (3) Yn is-adran (3), yn lle paragraff (a) rhodder –  
“(a) made by him under section 22, and”.
- 10 50 (1) Mae adran 52 (hawliau Archwilydd Cyffredinol Cymru i ddogfennau a gwybodaeth) wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn is-adran (2), ym mharagraff (c), yn lle “the Assembly” rhodder “the Welsh Ministers”.
- (3) Hepgorer is-adran (6).
- (4) Yn is-adran (8), yn lle “the Assembly” rhodder “the Welsh Ministers”.
- 15 (5) Ar ôl is-adran (8) mewnosoder –  
“(9) A statutory instrument containing an order under subsection (2)(c) is (unless a draft of the order has been laid before, and approved by a resolution of the National Assembly for Wales) subject to annulment in pursuance of a resolution of the Assembly.”.
- 20 51 (1) Mae adran 53 (hawliau Archwilydd Cyffredinol Cymru i ddogfennau a gwybodaeth: troseddau) wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Ym mharagraff (b) o is-adran (3), ar ôl “the Auditor General for Wales” mewnosoder “or the Wales Audit Office”.
- (3) Yn is-adran (4), ar ôl “may be recovered” mewnosoder “by the Wales Audit Office”.
- 25 52 (1) Mae adran 54 (cyfyngiadau ar ddatgelu gwybodaeth) wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn is-adran (1), hepgorer “or an auditor, or by a person acting on behalf of the Auditor General for Wales or an auditor”.
- (3) Yn is-adran (2) –  
(a) ym mharagraff (b), hepgorer “or an auditor”, a  
30 (b) ym mharagraff (e), yn lle “the Assembly” rhodder “the Welsh Ministers”.
- (4) Hepgorer is-adran (2ZB).
- (5) Yn is-adran (2ZC) –  
(a) hepgorer “or (2ZB)”, a  
(b) hepgorer “or an auditor”.
- 35 (6) Hepgorer is-adrannau (6) i (8).
- 53 (1) Mae adran 54ZA (cydsyniad o dan adran 54(2ZC)) wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn is-adran (3), hepgorer “or an auditor”.

- (3) Yn is-adran (6), yn lle "A person to whom a request for consent is made" rhodder "The Auditor General for Wales".
- 54 Yn is-adran (1) o adran 56 (cyhoeddi gwybodaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru), ym mharagraff (a), hepgorer "by an auditor".
- 5 55 Yn adran 58 (gorchmynion a rheoliadau), yn lle pob cyfeiriad at "the Assembly" rhodder "the Welsh Ministers".
- 56 Yn adran 59 (dehongli Rhan 2), hepgorer is-adrannau (2) a (3).
- 57 Yn adran 61 (archwilio cyrff GIG Cymru), ym mharagraff (b) o is-adran (2), yn lle "the Assembly" rhodder "the National Assembly for Wales".
- 10 58 (1) Mae adran 62 (cydweithredu â'r Cynulliad Cenedlaethol, y Comisiwn Archwilio a'r Comisiwn Archwilio ac Arolygu Gofal Iechyd (CHAI)) wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Ym mharagraff (a), yn lle "the Assembly" rhodder "the Welsh Ministers".
- (3) Yn unol â hynny, pennawd adran 62 fydd "Co-operation with Welsh Ministers, Audit Commission or Care Quality Commission".
- 15 59 Yn is-adran (1) o adran 64A (pŵer i gynnal ymarferion paru data), hepgorer "or arrange for them to be conducted on his behalf".
- 60 (1) Mae adran 64B (darparu data'n orfodol) wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn is-adran (1) hepgorer –
- (a) "or a person acting on his behalf", a
- 20 (b) "or that person".
- (3) Yn is-adran (4) –
- (a) ar ôl "the Auditor General" mewnosoder "or by the Wales Audit Office", a
- (b) ar ôl "from that body" mewnosoder "by the Wales Audit Office".
- 61 Yn is-adran (1) o adran 64C (darparu data'n wirfoddol), hepgorer "or a person acting on his behalf".
- 25 62 (1) Mae adran 64D (datgelu canlyniadau paru data etc) wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn is-adran (1), hepgorer "or on behalf of".
- (3) Yn is-adran (2) –
- (a) hepgorer "or on behalf of", a
- 30 (b) ym mharagraff (b), yn lle "an auditor" rhodder "the Auditor General".
- 63 Yn is-adran (4) o adran 64E (cyhoeddi), hepgorer "an auditor or".
- 64 (1) Mae is-adran 64F (ffioedd am baru data) wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Cyn is-adran (1), mewnosoder –
- 35 "(A1) The Wales Audit Office may, in accordance with a scheme for charging fees prepared under section 24 of the Public Audit (Wales) Act 2013, charge a fee in respect of a data matching exercise undertaken by the Auditor General for Wales."
- (3) Yn is-adrannau (1) a (6) yn lle pob cyfeiriad at "Auditor General for Wales" rhodder "Wales Audit Office".

(4) Yn is-adran (2), yn lle “the Auditor General for Wales” rhodder “the Wales Audit Office”.

(5) Yn is-adrannau (3), (4), (5) ac (8), yn lle pob cyfeiriad at “Auditor General for Wales” rhodder “Wales Audit Office”.

(6) Yn is-adran (7), yn lle “the Assembly” rhodder “the National Assembly for Wales”.

5 (7) Ar ôl is-adran (8) rhodder –

“(9) Any terms as to payment agreed by the Wales Audit Office under subsection (8) must be in accordance with a scheme for charging fees prepared under section 24 of the Public Audit (Wales) Act 2013.

10 (10) A fee charged under this section may not exceed the full cost of exercising the function to which it relates.”.

65 Yn is-adran (4) o adran 64G (cod ymarfer ar gyfer paru data), ym mharagraff (a), yn lle “the Assembly” rhodder “the National Assembly for Wales”.

66 (1) Mae adran 67A (cymorth gan Archwilydd Cyffredinol i arolygiaethau) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

15 (2) Yn is-adran (2), yn lle “the Auditor General for Wales” rhodder “the Wales Audit Office”.

(3) Ar ddiwedd is-adran (2), ar ôl y gair “agree”, mewnosoder “, but any terms as to payment agreed by the Wales Audit Office must be made in accordance with a scheme for charging fees prepared under section 24 of the Public Audit (Wales) Act 2013”.

(4) Ar ôl is-adran (2), mewnosoder –

20 “(3) Any sums charged in relation to assistance provided under this section may not exceed the full cost of providing that assistance.”.

#### *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*

67 Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

68 Yn adran 37 (y pŵer i alw), yn is-adran (1), ar ôl “functions” mewnosoder “, relevant to  
25 the exercise of any of the Auditor General for Wales’ functions, or relevant to the oversight and supervision of the Auditor General for Wales, or to the oversight and supervision of the exercise of any of his or her functions”.

69 Yn is-adran (1)(c) o adran 120 (delio a derbyniadau), yn lle “the Auditor General” rhodder “the Wales Audit Office”.

30 70 Yn is-adran (3)(c) o adran 124 (taliadau allan o Gronfa Gyfunol Cymru), yn lle “the Auditor General” rhodder “the Wales Audit Office”.

71 Yn is-adran (4) o adran 129 (cymeradwyaeth i godi taliadau), yn lle “the Auditor General” rhodder “the Wales Audit Office”.

72 Yn is-adran (1) o adran 143 (adroddiadau’r Pwyllgor Archwilio), ym mharagraff (b) yn lle  
35 “paragraph 14 of Schedule 8” rhodder “paragraph 32 of Schedule 1 to the Public Audit (Wales) Act 2013”.

73 (1) Mae is-adran (2) o adran 144 (cyhoeddi cyfrifon ac adroddiadau archwilio etc) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (b) yn lle “paragraph 14 of Schedule 8” rhodder “paragraph 31 of Schedule 1 to the Public Audit (Wales) Act 2013”.

(3) Ym mharagraff (c), hepgorer “or estimate” ac “or paragraph 12(3) of Schedule 8”.

(4) Ar ôl paragraff (c), mewnosoder –

5 “(d) any estimate of income and expenses of the Wales Audit Office laid before the Assembly under section 20(2) of the Public Audit (Wales) Act 2013 (including any modifications made to that estimate under section 20(5)(b) of that Act),

10 (e) any scheme for charging fees laid before the Assembly by the Wales Audit Office under section 24(4)(c) of the Public Audit (Wales) Act 2013,

(f) any annual plan laid before the Assembly by the Auditor General and the chair of the Wales Audit Office under section 27 of the Public Audit (Wales) Act 2013,

15 (g) any report laid before the Assembly under paragraph 1(5) of Schedule 2 to the Public Audit (Wales) Act 2013 (reports on the exercise of the functions of the Auditor General and the Wales Audit Office).”.

74 (1) Mae adran 145 (yr Archwilydd Cyffredinol) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

20 (2) Hepgorer is-adran (1).

(3) Yn is-adran (2) yn lle “the Auditor General see Schedule 8” rhodder “the Auditor General for Wales or Archwilydd Cyffredinol Cymru (referred to in this Act as “the Auditor General”) see Schedule 8 and the Public Audit (Wales) Act 2013”.

75 (1) Mae Atodlen 8 (Archwilydd Cyffredinol Cymru) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

25 (2) Hepgorer paragraffau 1 i 16.

(3) Yn is-baragraff (1) o baragraff 17 (mynediad at ddogfennau), ym mharagraff (c), yn lle “Act” rhodder “enactment”.

(4) Yn is-baragraff (7) o baragraff 17 –

(a) yn lle “Act” rhodder “enactment”, a

30 (b) ar ddiwedd yr is-baragraff, cyn yr atalnod llawn, mewnosoder “, apart from accounts that fall to be examined under Part 2 of the Public Audit (Wales) Act 2004”.

(5) Ym mharagraff 18 (pwerau eraill) –

(a) yn is-baragraff (1), ar ôl “the Welsh Ministers may”, mewnosoder “, having first consulted the Wales Audit Office”, a

(b) ar ôl is-baragraff (3) mewnosoder –

“(3A) But before entering into an agreement under subsection (3), the Welsh Ministers or a Minister of the Crown (as the case may be) must consult the Wales Audit Office.”.

40 (6) Hepgorer paragraff 21.

*Deddf Cwmnïau 2006*

76 Mae Deddf Cwmnïau 2006 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

77 Yn is-adran (6) o adran 1229 (goruchwylio Archwilwyr Cyffredinol gan y Goruchwyliwr  
Annibynnol), ar ôl “to any person” mewnosoder “or, in the case of the Auditor General  
5 for Wales, for payment by the Wales Audit Office of such a fine”.

78 Yn adran 1230 (dyletswyddau Archwilwyr Cyffredinol mewn perthynas a threfniadau  
goruchwylio), ar ôl is-adran (3)(b) mewnosoder –

“(c) in the case of expenditure of the Auditor General for Wales, to  
be regarded as expenditure of the Wales Audit Office for the  
10 purposes of section 20 of the Public Audit (Wales) Act 2013.”.

*Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009*

79 Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

80 (1) Mae adran 21 (arolygiadau arbennig) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (4) –

15 (a) yn lle “yn cyfarwyddo Archwilydd Cyffredinol Cymru i” rhodder “yn gofyn i’r  
Archwilydd Cyffredinol”, a

(b) yn lle “cyfarwyddyd” rhodder “cais oni bai nad yw’n rhesymol i wneud hynny”.

(3) Yn is-adran (5), yn lle “cyfarwyddyd” rhodder “cais”.

(4) Yn is-adran (6), yn lle “rhoi cyfarwyddyd” rhodder “gwneud cais”.

20 (5) Ym mharagraff (b) o is-adran (7), yn lle “cyfarwyddo’r Archwilydd Cyffredinol i”  
rhodder “gofyn i’r Archwilydd Cyffredinol”.

81 Yn adran 25 (datganiad o arfer), hepgorer paragraff (b) o is-baragraff (5).

82 Yn adran 26 (pwerau a dyletswyddau arolygwyr), yn is-adran (11), yn lle “aelod o staff yr  
Archwilydd Cyffredinol neu berson sy’n darparu gwasanaethau i’r Archwilydd  
25 Cyffredinol” rhodder “neu berson sy’n arfer swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol  
Cymru yn rhinwedd dirprwyaeth a wnaed o dan adran 18 o Ddeddf Archwilio  
Cyhoeddus (Cymru) 2013,”.

83 (1) Mae adran 27 (ffioedd) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

30 (2) Yn is-adran (1), yn lle “Archwilydd Cyffredinol Cymru” rhodder “Swyddfa Archwilio  
Cymru”.

(3) Yn is-adran (3), yn lle “Archwilydd Cyffredinol Cymru” rhodder “Swyddfa Archwilio  
Cymru, yn unol â chynllun i godi ffioedd a baratowyd o dan adran 24 o Ddeddf  
Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013,”.

35 (4) Yn is-adran (4), yn lle’r cyfeiriad at “i’r Archwilydd Cyffredinol” rhodder “i Swyddfa  
Archwilio Cymru” ac yn lle “Archwilydd Cyffredinol Cymru” rhodder “Swyddfa  
Archwilio Cymru”.

(5) Ar ôl is-adran (4) mewnosoder –

“(4A) Ond ni chaiff ffi a godir o dan yr adran hon fod yn fwy na chost lawn  
arfer y swyddogaeth y mae’r ffi’n ymwneud â hi.”.



(6) Yn is-adran (5), yn lle'r ddau gyfeiriad at "i'r Archwilydd Cyffredinol" rhodder "i Swyddfa Archwilio Cymru".

(7) Hepgorer is-adran (6).

84 Ar ôl adran 27 (ffioedd) mewnosoder –

5 **"27A Pŵer Gweinidogion Cymru i ragnodi graddfa ffioedd**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ragnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd i gael effaith yn lle graddfa neu raddfeydd a ragnodir gan Swyddfa Archwilio Cymru o dan adran 27(1),

10 (2) Mae graddfa ffioedd a ragnodir o dan is-adran (1) yn cael effaith am y cyfnod a bennir mewn perthynas â hi yn y rheoliadau.

(3) Mae is-adran (4) yn gymwys –

(a) os oes graddfa ffioedd yn cael ei rhagnodi o dan is-adran (1) yn lle graddfa a ragnodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, a

15 (b) os mai'r raddfa a ragnodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru fyddai'r raddfa briodol, fel arall, at ddibenion adran 27(3) a (4).

(4) Mae'r cyfeiriadau at y raddfa briodol yn adran 27(3) a (4) i'w darllen fel cyfeiriadau at y raddfa a ragnodwyd o dan is-adran (1).

(5) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (1) rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol –

20 (a) Swyddfa Archwilio Cymru,

(b) unrhyw gymdeithasau cyrff llywodraeth lleol yng Nghymru yr ymddengys i Weinidogion Cymru eu bod â wnelont â'r peth, ac

25 (c) y personau eraill hynny y maent yn gweld yn dda i ymgynghori â hwy.

(6) Mae rheoliadau a wneir o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i'w diddymu yn unol â phenderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru."

*Deddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009*

85 Mae Deddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009 wedi ei  
30 diwygio fel a ganlyn.

86 Yn adran 46 (codau ymarfer), yn is-adran (4) yn lle "section 16 of the Public Audit  
(Wales) Act 2004 (c 23)" rhodder "section 10 of the Public Audit (Wales) Act 2013".

87 (1) Mae adran 50 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (1), yn lle "under this Chapter must pay the appointing audit authority"  
35 rhodder "by the audit authority under this Chapter must pay the Audit Commission".

(3) Ar ôl is-adran (1), mewnosoder –

“(1A) An entity in relation to which a person is appointed by the Auditor General for Wales under this Chapter must pay the Wales Audit Office, in accordance with a scheme for charging fees prepared under section 24 of the Public Audit (Wales) Act 2013, a fee in respect of the discharge by that person of any of the functions specified by subsection (2) in relation to the entity.”.

(4) Yn is-adran (3), yn lle “the audit authority”, bob tro y mae’r geiriau hynny’n ymddangos rhodder “the Audit Commission or the Wales Audit Office (as the case may be)”.

(5) Yn is-adran (4) –

(a) yn lle’r cyfeiriad cyntaf at “this section” rhodder “subsection (1)”, a

(b) yn lle “the audit authority” rhodder “the Audit Commission”.

(6) Ar ôl is-adran (4), mewnosoder –

“(4A) The amount of a fee payable under subsection (1A) is, subject as follows, to be such as may be specified in or determined under a scale or scales of fees prescribed by the Wales Audit Office for the purposes of this section.

But a fee charged under subsection (1A) may not exceed the full cost of exercising the function to which it relates.”.

(7) Yn is-adran (5) –

(a) yn lle “subsection (4)” rhodder “subsection (4) or (4A)”, a

(b) yn lle “the audit authority” rhodder “the Audit Commission or the Wales Audit Office (as the case may be)”.

(8) Yn is-adran (6), yn lle “the audit authority” rhodder “the Audit Commission or the Wales Audit Office (as the case may be)”.

(9) Hepgorer is-adrannau (10) ac (11).

(10) Yn is-adran (12), yn lle pob cyfeiriad at “the audit authority” rhodder “the Audit Commission or the Wales Audit Office (as the case may be)”.

#### *Deddf Cydraddoldeb 2010*

Yn Rhan 2 o Atodlen 19 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (awdurdodau cyhoeddus: awdurdodau Cymreig perthnasol), o dan y pennawd “Other public authorities”, mewnosoder yn y man priodol “the Wales Audit Office or Swyddfa Archwilio Cymru.”.





Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# **BIL ARCHWILIO CYHOEDDUS (CYMRU)**

**Memorandwm Esboniadol**  
yn ymgorffori'r  
Aseiad Effaith Rheoleiddiol  
a'r Nodiadau Esboniadol

Gorffennaf 2012



# Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)

## **Memorandwm Esboniadol i Fil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Gyfarwyddiaeth Llywodraeth Leol a Chymunedau Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## **Datganiad yr Aelod**

Yn fy marn i, byddai darpariaethau Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru), a gyflwynwyd gennyf ar 9 Gorffennaf 2012, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## **Jane Hutt AC**

Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ  
Yr Aelod Cynulliad sy'n gyfrifol am y Bil

**9 Gorffennaf 2012**



# Cynnwys

## **RHAN 1 - TROSOLWG**

1. Disgrifiad	4
2. Y cefndir deddfwriaethol	5
3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir ei chael	9
4. Ymgynghori	15
5. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth	19
6. Aseiad Effaith Rheoleiddiol	21

## **RHAN 2 – ASESIAID EFFAITH**

7. Opsiynau	22
8. Costau a manteision	24
9. Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir	29
10. Aseu'r Gystadleuaeth	30
11. Adolygu ar ôl gweithredu	31

**ATODIAD A – Nodiadau Esboniadol** **32**

**ATODIAD B – Rhestr Ddosbarthu'r Ymgynghoriad** **50**

**ATODIAD C – Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru (Rheol Sefydlog 26.6(viii))** **52**

# RHAN 1 – TROSOLWG

## 1. Disgrifiad

1. Nod Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) yw cryfhau a gwella'r trefniadau atebolrwydd a llywodraethu sy'n ymwneud ag Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC) a Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) a gwarchod annibyniaeth a gwrthrychedd ACC ar yr un pryd.
2. Bydd yn gwella goruchwyliaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru dros ACC, ac yn cryfhau atebolrwydd a thryloywder y Swyddfa honno. Bydd y Bil, os daw'n Ddeddf, yn sefydlu SAC newydd, a fydd yn gyfrifol am y swyddogaethau corfforaethol a freinir yn ACC ar hyn o bryd. Bydd dyletswydd arni hefyd i'w fonitro, a bydd ganddi'r pŵer i'w gynghori. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys darpariaethau a fydd yn golygu mai ACC fydd yr archwilydd statudol ar gyfer cyrff llywodraeth leol yng Nghymru.

## 2. Y cefndir deddfwriaethol

3. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud darpariaeth mewn perthynas ag archwilio, astudio, rheoleiddio ac arolygu awdurdodau cyhoeddus sy'n destun archwilio ac mewn perthynas ag Archwilydd Cyffredinol Cymru yn rhinwedd adran 108 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006), a Rhan 1 (Pennawd 14 (Gweinyddiaeth Gyhoeddus)) o Atodlen 7 iddi.
4. Mewnosododd Adran 27 o Ddeddf Cyfrifoldeb am Gyllidebau ac Archwilio Cenedlaethol 2011, ac Atodlen 6 iddi, y pwnc Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Pennawd hwnnw yn Atodlen 7 i Ddeddf 2006. Gwnaeth newidiadau amrywiol hefyd i'r cyfyngiadau cyffredinol yn Rhan 2 o'r Atodlen honno (gan gynnwys drwy wneud rhai eithriadau i'r cyfyngiadau hynny) er mwyn rhoi'r pŵer i'r Cynulliad wneud darpariaeth yn un o Ddeddfau'r Cynulliad sy'n gysylltiedig â goruchwyllo ACC a Swyddfa Archwilio Cymru (SAC).
5. Atgynhyrchir Pennawd 14 o Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf 2006 isod (mae'r Pynciau cymhwysedd perthnasol wedi'u goleuo). Nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o deddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw.

### **Public administration**

14 *Public Services Ombudsman for Wales, Auditor General for Wales, Audit, examination, regulation and inspection of auditable public authorities. Inquiries in respect of matters in relation to which the Welsh Ministers, the First Minister or the Counsel General exercise functions. Equal opportunities in relation to equal opportunity public authorities. Access to information held by open access public authorities.*

*The following are “auditable public authorities” and “equal opportunity public authorities”—*

- (a) *the Assembly,*
- (b) *the Assembly Commission,*
- (c) *the Welsh Assembly Government,*
- (d) *persons who exercise functions of a public nature and in respect of whom the Welsh Ministers exercise functions,*
- (e) *persons who exercise functions of a public nature and at least half of the cost of whose functions in relation to Wales are funded (directly or indirectly) by the Welsh Ministers, and*
- (f) *persons established by enactment and having power to issue a precept or levy.*

*The following are “open access public authorities”—*

- (a) the Assembly,
- (b) the Assembly Commission,
- (c) the Welsh Assembly Government, and
- (d) authorities which are Welsh public authorities, within the meaning of the Freedom of Information Act 2000 (c 36).

*Exception—  
Regulation of the profession of auditor.*

6. Atgynhychir y cyfyngiadau cyffredinol mwyaf perthnasol, a'r eithriadau i'r cyfyngiadau hynny (o Rannau 2 a 3 o Atodlen 7 i Ddeddf 2006) sy'n ymwneud â'r Bil hwn, yn y blwch isod. Nid ydynt ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniadau o ddeddfwriaeth nad yw wedi'i gwneud yn Gymraeg ydynt. Mae'r cyfyngiadau cyffredinol eraill sy'n berthnasol i'r Bil hwn yn cynnwys y cyfyngiad ar addasu, ac ati, swyddogaethau Gweinidog y Goron ym mharagraff 1 o Ran 2 o Atodlen 7 i Ddeddf 2006 (sydd, yn rhinwedd adran 158(1) o Ddeddf 2006, yn cynnwys swyddogaethau'r Trysorlys) a'r eithriad mewn perthynas ag addasu swyddogaethau'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ym mharagraff 4 o'r Rhan honno o'r Atodlen honno. Rhoddir dibyniaeth hefyd, at ddibenion y Bil hwn, ar yr eithriad ym mharagraff 8 o Ran 3 o'r Atodlen honno sy'n ymdrin â darpariaethau sy'n ailddatgan y gyfraith.

### ***Enactments other than this Act***

#### **2**

[(1)] A provision of an Act of the Assembly cannot make modifications of, or confer power by subordinate legislation to make modifications of, any of the provisions listed in the Table below—

TABLE

<i>Enactment</i>	<i>Provisions protected from modification</i>
European Communities Act 1972 (c 68)	The whole Act
Data Protection Act 1998 (c 29)	The whole Act
Government of Wales Act 1998 (c 38)	Sections 144(7), 145, 145A and 146A(1)
Human Rights Act 1998 (c 42)	The whole Act
Civil Contingencies Act 2004 (c 36)	The whole Act
Re-Use of Public Sector Information Regulations 2005 (SI 2005/1505)	The whole set of Regulations

[(2)] Sub-paragraph (1) does not apply to any provision making modifications, or conferring power by subordinate legislation to make



modifications, of section 31(6) of the Data Protection Act 1998 so that it applies to complaints under an enactment relating to the provision of redress for negligence in connection with the diagnosis of illness or the care or treatment of any patient (in Wales or elsewhere) as part of the health service in Wales.]

[(3) Sub-paragraph (1), so far as it applies in relation to sections 145, 145A and 146A(1) of the Government of Wales Act 1998, does not apply to a provision to which sub-paragraph (4) applies.

(4) This sub-paragraph applies to a provision of an Act of the Assembly which—

(a) is a provision relating to the oversight or supervision of the Auditor General or of the exercise of the Auditor General's functions,

(b) provides for the enforcement of a provision falling within paragraph (a) or is otherwise appropriate for making such a provision effective, or

(c) is otherwise incidental to, or consequential on, such a provision.]

-----

***(Deddf Llywodraeth Cymru 2006)***

**5**

(1) A provision of an Act of the Assembly cannot make modifications of, or confer power by subordinate legislation to make modifications of, provisions contained in this Act.

[(2) Sub-paragraph (1) does not apply to the following provisions—

(a) sections 20, 22, 24, 35(1), 36(1) to (5) and (7) to (11), 53, 54, 78, 146, 147, 148 and 156(2) to (5);

(b) paragraph 8(3) of Schedule 2;

[(c) any provision of Schedule 8, other than paragraphs 1(1) to (3), 2(2) to (4) and 3].]

(3) Sub-paragraph (1) does not apply to any provision—

(a) making modifications of so much of any enactment as is modified by this Act, or

(b) repealing so much of any provision of this Act as amends any enactment, if the provision ceases to have effect in consequence of any provision of, or made under, an Act of the Assembly.

[(4) Sub-paragraph (1) does not apply in relation to a provision to which

paragraph 2(4) applies.

(5) But, subject to sub-paragraph (6), a provision to which paragraph 2(4) applies cannot modify, or confer power by subordinate legislation to modify, paragraph 3 of Schedule 8.

(6) Sub-paragraph (5) does not prevent the conferral of functions on a committee of the Assembly that—

(a) does not consist of or include any of the following persons—

(i) the First Minister or any person designated to exercise functions of the First Minister,

(ii) a Welsh Minister appointed under section 48,

(iii) the Counsel General or any person designated to exercise the functions of the Counsel General, or

(iv) a Deputy Welsh Minister, and

(b) is not chaired by an Assembly member who is a member of a political group with an executive role.]

### 3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir ei chael

#### 3.1 Y cefndir a'r sefyllfa gyfredol

7. Amlinellir y darpariaethau manwl ynghylch penodiad a statws Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC), staff ACC, a materion ariannol a phwerau cyffredinol ACC yn Rhan 5 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006) ac Atodlen 8 iddi. Mae swydd ACC yn gorfforaeth undyn. Nid oes gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ei phersonoliaeth gyfreithiol ei hun, ond yn hytrach mae'n derm sy'n disgrifio ACC a staff ACC ar y cyd. Penodir ACC gan Ei Mawrhydi ar sail enwebiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad). Llywodraethir cyfnod ACC yn y swydd gan baragraff 2 o Atodlen 8 i Ddeddf 2006. Nid oes yna ddarpariaeth statudol benodol sy'n pennu hyd y penodiad na sawl gwaith y gall person ddal y swydd honno, ond gwneir darpariaeth o'r fath yn nhelerau ac amodau penodiad ACC. Penodwyd yr ACC presennol am dymor o 8 mlynedd.
8. Mae ACC yn penodi staff, yn pennu eu telerau a'u hamodau, ac mae ganddo'r grym i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu er mwyn ei gynorthwyo i arfer ei swyddogaethau. Caiff y cronfeydd sy'n ofynnol at y dibenion hyn a threuliau eraill eu talu o gyllideb ACC, ac mae Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PCC) y Cynulliad yn ystyried amcangyfrif o'r rhain (a chaiff ei addasu) yn unol â pharagraff 12 o Atodlen 8 i Ddeddf 2006. O dan Reolau Sefydlog y Cynulliad mae'r amcangyfrif, boed wedi'i addasu neu beidio, yn rhan o gynnig y gyllideb gyffredinol a gyflwynir yn flynyddol yn y Cynulliad (fel sy'n ofynnol o dan adran 125 o Ddeddf 2006).
9. Mae gan ACC y grym mewn rhai achosion, ac mae dan ofyniad mewn achosion eraill, i godi ffioedd am archwilio cyfrifon a chynnal arolygiadau ac astudiaethau, i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, er enghraifft. Yn ogystal ag unrhyw gronfeydd sydd ar gael o ganlyniad i gynnig cyllidebol y Cynulliad yn rhinwedd adran 120(1) a (2) o Ddeddf 2006, caiff rhai darpariaethau penodol mewn deddfiadau awdurdodi ACC dan rai amgylchiadau i gadw derbynebau, yn achos ffioedd a godir am wasanaethau penodol er enghraifft. Mewn achosion o'r fath, yn achos ffioedd a godir am archwilio cyfrifon llywodraeth leol er enghraifft, caiff y symiau a dderbynia ACC eu cadw, ac nid ydynt yn rhan o'r amcangyfrif o gyllideb ACC, ni all y PCC graffu arnynt, ac nid ydynt yn rhan o gynnig cyllidebol blynyddol y Cynulliad.
10. Wrth arfer ei swyddogaethau, nid yw ACC yn destun cyfarwyddyd na rheolaeth y Cynulliad na Llywodraeth Cymru. Mae'n hynod bwysig, felly, bod y cyfrifoldebau a roddir i ACC, a busnes ei swydd, yn cael eu cyflawni mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol a bod y systemau llywodraethu a'r rheolaethau mewnol yn cwrdd â'r safonau uchaf.
11. Roedd gan Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad bryderon am y trefniadau rheoli, llywodraethu ac atebolrwydd mewn perthynas ag ACC a'i Swyddfa. Cododd y pryderon hyn yn bennaf o'r modd y cyflawnodd ACC blaenorol rai o'i ddyletswyddau, gan dynnu sylw at ddiffyg atebolrwydd allanol cadarn. Yn ogystal, codwyd pryderon ynghylch y modd yr oedd ACC yn gweithio gyda chyrrff

eraill ac yn defnyddio'r adnoddau cyhoeddus oedd ar gael iddo i hwyluso ei swyddogaethau a rhedeg SAC.

12. O gofio bod gan ACC swyddogaeth hanfodol o ran sicrhau'r safonau uniondeb a phriodoldeb uchaf wrth ddefnyddio arian cyhoeddus ar draws y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, yn 2008 dechreuodd Llywodraeth Cymru ystyried y posibilrwydd o gryfhau'r drefn bresennol a'i gwneud yn fwy tryloyw. Ceisiodd sicrhau bod yna gyfle, drwy un o Filiau priodol Llywodraeth y DU, i'r Cynulliad gael cymhwysedd deddfwriaethol atodol iddo allu cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol a fyddai'n galluogi'r Cynulliad i foderneiddio a chryfhau trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd ACC a SAC.
13. Mynegodd y PCC ei bryderon ei hun ynghylch gweithredoedd ACC ar y pryd pan oedd yn cyflawni'r swydd. Roedd y rhain yn ymwneud â materion cyfrifyddu, cydymffurfio â'r safonau adrodd ariannol rhyngwladol, materion yn ymwneud â phriodoldeb, a methiant i gynnal safonau llywodraethu uchel. Ar 29 Mawrth 2011, cyhoeddodd y PCC ei adroddiad ar y "*Materion yn ymwneud â Chyfrifo, Llywodraethu a Phriodoldeb yn Swyddfa Archwilio Cymru*"<sup>1</sup>, lle mynegwyd y pryderon hynny'n glir.
14. Crynhoir y prif faterion oedd yn destun pryder isod.

#### *Materion cyfrifyddu*

15. Fel Swyddog Cyfrifyddu SAC mae gofyn i ACC gymeradwyo'r cyfrifon, cymryd cyfrifoldeb personol am eu cywirdeb a chydymffurfio â'r Model Adrodd Ariannol. Mae ACC hefyd yn gyfrifol am reolaeth ariannol o fewn SAC, gan gynnwys sicrhau bod y trafodion yn rheolaidd ac yn briodol, ac y rhoddir ystyriaeth lawn i'r angen i sicrhau gwerth am arian. Roedd yna nifer o fethiannau yn y cyfeiriad hwn, gan gynnwys cyfrifon nad oeddent yn cydymffurfio â'r Model Adrodd Ariannol, gwariant ar setliadau ymddeol yn gynnar, hawliau pensiwn ac arian arall a dderbyniwyd o'r pwrs cyhoeddus na roddwyd cyfrif llawn amdano.

#### *Materion priodoldeb*

16. Mewn adroddiad a gyflwynwyd gan yr ACC presennol i'w drafod yn y PCC<sup>2</sup>, amlinellwyd bod cyn ACC wedi mynd ati'n fwriadol i guddio gwybodaeth rhag ei Bwyllgor Rheoli a Risg Archwilio ac uwch-swyddogion ACC. Yn ogystal, yn ei adroddiad yn 2011 (gweler paragraff 13 uchod) daeth y PCC i'r casgliad bod cyn ACC wedi camarwain y Cynulliad a bod ei weithredoedd yn gamymddygiad at ddibenion paragraff 2(3) o Atodlen 8 i Ddeddf 2006.

#### *Strwythurau llywodraethu*

17. Mae gan ACC dri phwyllgor cynghori – rheoli a risg archwilio adnoddau; a chydnybodiaeth. Nid oes sail gyfreithiol i'r rhain ac nid ydynt yn cynnig gwarant

<sup>1</sup> [http://www.assemblywales.org/report\\_on\\_governance\\_etc\\_at\\_the\\_wao\\_1.6\\_final-c.pdf](http://www.assemblywales.org/report_on_governance_etc_at_the_wao_1.6_final-c.pdf)

<sup>2</sup> "Diwydrwydd Dyladwy yn Swyddfa Archwilio Cymru" (16 Chwefror 2011)

o barhad sefydliadol. Penodir aelodau'r tri phwyllgor cynghori gan ACC (gyda mewnbwn gan unigolyn a enwebir gan Gadeirydd y PCC).

18. Yn fuan ar ôl ymgymryd â'i swydd, cydnabu'r ACC presennol y gwendidau o ran llywodraethu ac atebolrwydd a etifeddodd, ac mae wedi mynd ati i unioni'r gwendidau hynny drwy gryfhau ei systemau rheoli mewnol a chyflwyno nifer o brosesau adolygu rheolaidd. Er bod y newidiadau hyn i'w croesawu, nid yw eu heffeithiolrwydd yn gyson â'r arferion gorau cydnabyddedig gan fod y penodiadau i'r pwyllgorau cynghori hyn yn llwyr yn nwylo ACC, heb unrhyw broses benodi ddiuedd, annibynnol ac allanol.
19. O ystyried y cefndir hwn, mae'n amlwg bod niwed sylweddol wedi'i wneud i enw da ACC, ynghyd â hyder y Cynulliad. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod ers cryn amser, o gofio am swyddogaeth ACC o gynnig sicrwydd ynghylch uniondeb a phriodoldeb gwariant cyhoeddus gwerth tua £14 biliwn yng Nghymru, bod angen mynd ati ar fyrder i sefydlu trefniadau a fydd yn adennill hyder y cyhoedd ac, yn hanfodol bwysig, y cyrff a archwilir, yng ngweithgarwch ACC a SAC.

### 3.2 Amcanion

20. Bwriad Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) (y Bil) yw cryfhau a gwella'r trefniadau atebolrwydd a llywodraethu mewn perthynas ag ACC a SAC. Wrth gyflwyno'r trefniadau newydd hyn, fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn hynod ymwybodol o'r angen i gynnal a gwarchod annibyniaeth a gwrthrychedd ACC. Nid ar chwarae bach y mae cwrdd â'r amcanion hyn ar yr un pryd, a nod Llywodraeth Cymru wrth ddrafftio'r Bil oedd cynnal cydbwysedd rhesymol rhwng sicrhau mwy o dryloywder wrth ddefnyddio adnoddau cyhoeddus a sicrhau nad oes cyfyngiadau ar y modd y gall ACC gyflawni ei waith.
21. Nod y Bil yw:
  - a. ymdrin â phryderon ynghylch materion cyfrifyddu, priodoldeb a llywodraethu;
  - b. ymateb i argymhellion adroddiad y PCC a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2011 (y cyfeirir ato ym mharagraff 13 o'r Memorandwm hwn) i wella'r oruchwyliaeth dros ACC;
  - c. lleihau'n sylweddol y posibilrwydd y bydd anawsterau o'r fath yn codi eto;
  - d. rhoi mwy o sicrwydd i'r Cynulliad a'r cyhoedd.
22. Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, mae'r Llywodraeth o'r farn y dylid gwahanu dyletswyddau a chyfrifoldebau ACC a SAC. O ganlyniad, bydd y Bil yn breinio'r swyddogaethau cyflogwr, y swyddogaethau ariannol a'r swyddogaethau gweinyddol eraill yn y SAC newydd a fydd, ar y cyd ag ACC, yn adrodd i'r Cynulliad, ac yn destun craffu ganddo. Un o'r egwyddorion sylfaenol a bennir yn y Bil yw bod ACC yn parhau i fod yn annibynnol ar y Cynulliad a Llywodraeth Cymru, ac fe nodir yn benodol bod disgresiwn llwyr ACC dros y modd y mae'n arfer ei swyddogaethau archwilio ac ati yn cael ei ddiogelu. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth a fydd yn pennu trefniadau penodi a diswyddo ACC, ynghyd â'i gyfnod yn y swydd, ac yn darparu y bydd yr ACC newydd yn cael ei benodi gan Ei Mawrhydi ar argymhelliad y Cynulliad, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, ac y

bydd ACC yn parhau'n gorfforaeth undyn. Ystyr statws corfforaeth undyn yw y gall y swydd ddal eiddo (er y caiff y prif swyddogaethau dal eiddo eu breinio yn SAC yn awr) ac y bydd yn bodoli hyd yn oed pan nad oes person yn dal y swydd honno (h.y. pan fo'r swydd honno'n wag) ac mae'n golygu bod swyddogaethau'r swydd honno'n parhau i gael eu harfer yn awtomatig.

### 3.3 Swyddfa Archwilio Cymru newydd

23. Bydd y Bil yn sefydlu SAC newydd fel corff corfforaethol gyda saith aelod. Bydd cael ei ddiffinio fel corff corfforaethol yn caniatáu i SAC gynnal swyddogaethau corfforaethol, megis dal cyllideb, cyflogi staff, a sicrhau bod nwyddau a gwasanaethau'n cael eu darparu. Caiff y mwyafrif o'r aelodau eu penodi gan y Cynulliad ar sail teilyngdod drwy gystadleuaeth agored a theg. Bydd yr ACC newydd yn dod yn aelod o'r SAC newydd ac yn brif swyddog gweithredol arni yn awtomatig, a bydd un aelod sy'n gyflogai yn cael ei argymhell gan ACC i'w benodi gan aelodau anweithredol y bwrdd i sicrhau bod profiad y cyflogai yn gallu llywio gweithgarwch a gweithrediadau'r Bwrdd.
24. Bydd SAC yn gyfrifol am yr holl swyddogaethau o natur gorfforaethol a freinir yn ACC ar hyn o bryd. Y bwriad yw sicrhau na fyddai pwerau o'r fath yn nwylo un unigolyn yn unig yn y dyfodol. Bydd SAC:
  - a dan ddyletswydd i fonitro'r ACC newydd, a bydd ganddi'r pŵer i'w gynghori;
  - b yn cyflogi staff;
  - c yn sicrhau y caiff gwasanaethau eu darparu;
  - d yn dal eiddo at ddibenion cyflawni ei swyddogaethau a rhai'r ACC newydd.

### 3.4 Cynllunio ac adrodd

25. Bydd yn rhaid i'r SAC newydd ac ACC baratoi amcangyfrif blynyddol o incwm a gwariant i'w gymeradwyo a osodir gerbron y Cynulliad. Caiff y Cynulliad ei addasu os yw'n dymuno gwneud hynny. Caiff yr amcangyfrif (wedi'i addasu neu beidio fel y bo'n briodol) ei gynnwys yng Nghynnig Cyllidebol Blynyddol y Cynulliad a gyflwynir yn y Cynulliad yn unol â'i Reolau Sefydlog. SAC fydd deiliad y gyllideb a bydd ei hamcangyfrif o'r gyllideb gyfan ar gyfer y swydd honno, felly, yn destun gweithdrefn Cynnig Cyllidebol Blynyddol y Cynulliad.
26. Bydd SAC yn gyfrifol am godi'r ffioedd, a chasglu'r incwm, sy'n gysylltiedig â swyddogaethau ACC.
27. Bydd gofyn i SAC hefyd, ar y cyd ag ACC, gynhyrchu cynllun blynyddol, a rhaid i'r ddau barti roi sylw iddo. Bydd y cynllun blynyddol yn amlinellu rhaglen waith arfaethedig SAC ac ACC, eu costau a'r canlyniadau a ragwelir ar gyfer pob blwyddyn ariannol ganlynol. O leiaf ddwywaith y flwyddyn bydd SAC ac ACC yn rhoi adroddiad interim i'r Cynulliad ar y cynnydd mewn perthynas â'r cynllun.
28. ACC fydd yn gyfrifol am ei swyddogaethau archwilio, astudio ac arolygu ac ati. Bydd SAC yn darparu'r adnoddau i alluogi ACC i arfer ei swyddogaethau ar sail rhoi sylw i'r cynllun gwaith blynyddol, ac ar yr amod bod ceisiadau ACC am adnoddau yn rhai rhesymol.



29. Er na fydd y naill na'r llall yn cael eu rhwymo gan y cynllun blynyddol, rhaid iddynt roi sylw iddo. Golyga hynny bod yn rhaid i ACC a SAC, wrth arfer eu swyddogaethau (gan gynnwys mewn perthynas â darparu'r adnoddau y mae'n ofynnol i ACC eu cael), roi'r pwys dyladwy i'r cynllun blynyddol dan bob amgylchiad. Os bydd gwaith arall nas rhagwelwyd yn codi, yna rhaid i'r angen i gyflawni'r gwaith hwnnw (a'r goblygiadau o ran adnoddau) gael ei gydbwysu'n briodol â'r gwaith y cynlluniwyd ar ei gyfer a'r adnoddau a ddyrannwyd ar gyfer hynny.
30. Rhaid i'r cynllun blynyddol gynnwys uchafswm yr adnoddau y rhagwelir y bydd SAC yn eu dyrannu i ACC er mwyn cyflawni rhaglen waith ACC.
31. Mae'r Bil wedi'i ddylunio yn y fath fodd fel ei fod yn sicrhau mai ACC sy'n penderfynu ar ei raglen waith ei hun (er mwyn cynnal annibyniaeth ACC) ac ACC sy'n penderfynu ar uchafswm yr adnoddau fydd yn ofynnol er mwyn cyflawni'r gwaith hwnnw. Mae hyn yn hanfodol bwysig o ran cynnal cydbwysedd priodol rhwng, ar y naill law, sefydlu trefniadau llywodraethu a goruchwyllo priodol ar gyfer ACC ac, ar y llaw arall, cynnal yr egwyddor na chaiff annibyniaeth a disgresiwn ACC wrth archwilio ei gyfyngu mewn modd amhriodol. Cyflawnir hynny drwy roi'r swyddogaeth arweiniol i ACC i'r perwyl hwn, a dim ond os yw cynigion ACC yn afresymol y caiff SAC ymyrryd. I'r perwyl hwn, bwriedir i "afresymol" fod â'i ystyr arferol, a bwriedir i'r prawf fod yn un gwrthrychol. Mae hynny'n gwarchod ACC ymhellach gan mai nad a yw SAC yn ystyried yn oddrychol bod rhywbeth yn afresymol yw'r prawf. Yn hytrach y prawf yw a yw'r hyn sy'n cael ei gynnig, wedi'i brofi'n wrthrychol, o ystyried yr holl amgylchiadau, yn afresymol.
32. Prif ffocws y Bil fydd ACC, SAC a'r Cynulliad, a'r cyrff hynny yr effeithir arnynt fwyaf, ond bydd rhai darpariaethau'n effeithio'n uniongyrchol ar y trefniadau ar gyfer archwilio llywodraeth leol. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth a fydd yn golygu mai ACC fydd yr archwilydd statudol ar gyfer cyrff llywodraeth leol yng Nghymru. Ar hyn o bryd nid yw ACC yn uniongyrchol gyfrifol am archwilio cyrff llywodraeth leol; yn hytrach caiff archwilydwr eu penodi gan ACC i gynnal yr archwiliadau hynny. Ystyir bod hynny'n anacronistig a, chan fod gan yr ACC presennol swyddogaethau eraill mewn perthynas â chyrff llywodraeth leol (ee mewn perthynas â gwerth am arian), gan ei fod yn gyfrifol am archwilio llywodraeth Cymru, cyrff y GIG yng Nghymru ac ati, ac o ystyried cyfeiriad y cynigion eraill yn y Bil, nawr yw'r amser iawn i'r gwaith o archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru gael ei freinio yn y SAC newydd.
33. Yn ogystal, bydd yr holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru sy'n destun archwiliad yn elwa ar y ddeddfwriaeth gan y byddant yn parhau i dderbyn gwasanaeth archwilio cyhoeddus hynod broffesiynol, ond bydd yn glir iddynt pwy sy'n uniongyrchol gyfrifol am archwilio eu cyfrifon. Yn ogystal, bydd y drefn archwilio yn fwy tryloyw, agored ac atebol.

### **3.5 Cynllun gweithredu a chyflawni manwl ar gyfer y Bil**

34. Nodir prif nodweddion y ddeddfwriaeth ar wyneb y Bil. Mae'r Bil, fodd bynnag, yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth mewn rhai meysydd. Crynhoir y pwerau hyn i wneud rheoliadau yn adran 5 o'r Memorandwm Esboniadol hwn.
35. Ar yr amod bod y Cynulliad yn cymeradwyo'r Bil, a'i fod yn derbyn Cydsyniad Brenhinol wedi hynny, bwriedir i'r trefniadau newydd ar gyfer SAC ac ACC ddod i rym erbyn 1 Ebrill 2014. Bydd y dyddiad hwnnw, sy'n adlewyrchu dechrau'r flwyddyn ariannol newydd (sy'n briodol ar gyfer y gwaith a'r trefniadau cynllunio ariannol sy'n gysylltiedig â'r SAC a'r ACC newydd), yn caniatáu digon o amser i sicrhau bod yr holl drefniadau llywodraethol a gweithredol, megis penodi Bwrdd SAC a'i redeg ar ffurf gysgodol, wedi'u gwneud cyn mis Ebrill 2014.

### **3.6 Cwmpas tiriogaethol**

36. Mae'r Bil yn berthnasol i Gymru yn bennaf. Bydd ychydig o'r darpariaethau yn golygu y bydd yn rhaid newid deddfwriaeth sy'n ymestyn y tu hwnt i Gymru a Lloegr ac mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda Swyddfa Cymru i sicrhau y gellir gweithredu'r Bil yn briodol yn yr holl awdurdodaethau perthnasol drwy gyfrwng Gorchymyn Adran 150 o dan Ddeddf 2006. Gan mai dim ond cyfraith Cymru a Lloegr y gall Deddfau'r Cynulliad ei newid, a'u bod yn gyffredinol yn gymwys i Gymru yn unig, mae'n bosibl y bydd gofyn cyflwyno Gorchymyn Adran 150 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 er mwyn sicrhau, pan fo gofyn diwygio deddfwriaeth ar gyfer y DU gyfan, bod y newidiadau perthnasol yn cael eu gwneud i gyfraith Gogledd Iwerddon ac, os yw'n briodol, yr Alban. Un enghraifft o hynny yw'r diwygiadau arfaethedig yn y Bil hwn i Ddeddf Blwydd-daliadau 1972.



## 4. Ymgynghori

37. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei phapur ymgynghori ar Fil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) ar 15 Mawrth 2012, a gofynnwyd i'r ymgynghoreion ymateb erbyn 15 Mai 2012. Anfonwyd yr ymgynghoriad yn uniongyrchol at y sefydliadau a nodir isod yn atodiad B. Cyhoeddwyd y papur ymgynghori hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru, ac roedd copïau papur ar gael i'r rheini oedd yn gwneud cais amdanynt.
38. Cafwyd 31 o ymatebion i'r ymgynghoriad, gan drawstoriad eang o gyrff a sefydliadau, ac un aelod o'r cyhoedd. Dyma restr o'r ymatebwyr:

### Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

#### Cyrff Llywodraeth Leol (12)

Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy  
Cyngor Sir y Fflint  
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru  
Parciau Cenedlaethol Cymru  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot  
Cyngor Sir Powys (Cydgysylltydd Datblygu Cynaliadwy)  
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru  
Cyngor Bro Morgannwg  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam  
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

#### Cyrff gwasanaeth cyhoeddus eraill (4)

Cyngor Cefn Gwlad Cymru  
Y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy  
Asiantaeth yr Amgylchedd (Cymru)  
Y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol (Cymru)

#### Sefydliadau addysg (5)

Prifysgol Fetropolitan Caerdydd  
Estyn  
Prifysgol Glyndŵr, Wreccsam  
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru  
Prifysgol Morgannwg

#### Cyrff archwilio / cyfrifyddiaeth (5)

Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig (ACCA)  
Y Comisiwn Archwilio  
Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA)  
Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW)  
Price Waterhouse Coopers (PwC)

## **ACC ac Undebau Llafur Staff (2)**

Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC)

Prospect ac Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS)

## **Arall (2)**

World Wildlife Fund (Cymru)

Penny Gripper

## **DADANSODDIAD O'R YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD**

### **Crynodeb**

39. Roedd yr ymatebion cynhwysfawr, sef bron i ddwy ran o dair ohonynt, bron yn unfrydol o blaid cryfhau trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC), ond roedd y farn ynghylch sut y gellid ac y dylid gwneud hynny yn gymysg ac yn amrywiol. Yn gyffredinol, roedd y mwyafrif yn bleidiol i SAC gorfforaethol. O blith y gweddill, roedd tua thraean ohonynt yn canolbwyntio ar faterion unigol, hynny yw datblygu cynaliadwy, ac a ddylai ACC fod yn archwilydd statudol ar gyfer Corfforaethau Addysg Bellach ac Uwch, a phrin y rhoddyd sylwadau ar brif gynigion y Bil, os o gwbl. Roedd yr holl ymatebion ar gyfuno a symleiddio'r ddeddfwriaeth gyfredol yn gefnogol. Roedd yna duedd amlwg o blaid cyflwyno darpariaethau datblygu cynaliadwy yn y Bil.

### **Llythyr y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**

40. Yn gyffredinol, mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cynigion yn y Bil drafft, ac yn derbyn ei brif amcan o gryfhau'r trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd. Mae'n holi am y rhesymeg y tu ôl i roi'r rôl oruchwylio iddo, ac yn gofyn pam fod lefel y cyfrifoldeb wedi'i nodi mor fanwl. Mae hefyd yn dymuno gwybod: pam fod SAC gorfforaethol yn cael ei ffafrio yn hytrach na model Bwrdd cynghori/goruchwylio; yr opsiynau eraill a ystyriwyd wrth bennu maint SAC; sut y byddai'r trefniadau ariannu arfaethedig yn gweithredu yn ymarferol, gan sicrhau ar yr un pryd bod ACC yn gallu cyflawni ei swyddogaethau archwilio yn annibynnol; beth allai ddigwydd pe bai ACC a SAC yn methu cytuno ar gynllun blynyddol; a pham y penderfynwyd newid y ffordd y caiff archwilydd allanol SAC ei benodi. Mae'r Pwyllgor yn ystyried bod ei bŵer i alw tystion yn cyfyngu arno ac y dylid ymdrin â hynny yn y Bil.

### **Cyrrff llywodraeth leol gan gynnwys CLILC (12)**

41. Cefnogodd saith corff llywodraeth leol y syniad o greu SAC gorfforaethol, gyda chwech o'r rhain yn cefnogi swyddogaethau goruchwylio'r PCC; ni wnaeth pedwar gynnig unrhyw sylwadau; roedd CLILC yn ystyried bod darpariaethau SAC yn feichus a bod swyddogaeth y PCC yn cael ei chyfarwyddo'n ormodol.
42. Nid oedd yna gonsensws clir ynghylch cyfnod penodiad ACC ond roedd y rhan fwyaf yn ystyried bod saith mlynedd yn gyfnod rhesymol; roedd rhai'n meddwl y dylid defnyddio meini prawf perfformiad ar gyfer y swydd, a hefyd ar gyfer penodiadau ac ailbenodiadau i SAC. Roedd nifer o'r farn y dylai'r un aelod o SAC sy'n gyflogai gael ei benodi drwy gystadleuaeth agored. Dadleuodd un

ymatebydd o blaid penodi aelodau SAC am gyfnod o bedair blynedd, gyda'r opsiwn o ailbenodi am bedair blynedd arall. Ar wahân i un oedd yn dadau fel arall, derbyniwyd y dylid cael cyfyngiadau ar ôl penodiadau. Roedd yna anfodlonrwydd ynghylch ffioedd, a dymunwyd cael meincodi, gwell ymgynghori a chosbau os yw ACC yn methu â chyrraedd targedau perfformiad y cytunwyd arnynt. Gydag un eithriad, roedd yr ymatebion yn bleidiol i wneud ACC yn archwilydd ar gyfer cyrff llywodraeth leol.

#### **Cyrff gwasanaeth cyhoeddus eraill (4)**

43. Ymddengys bod un corff gwasanaeth cyhoeddus o blaid SAC gorfforaethol; ni wnaeth un unrhyw sylwadau o gwbl; a rhoddodd tri ohonynt sylwadau yn unig ar gynnwys datblygu cynaliadwy yn narpariaethau'r Bil; roedd y sylwadau hynny'n ffafriol.

#### **Sefydliadau addysg (5)**

44. Roedd dau sefydliad yn cefnogi creu SAC gorfforaethol ac yn cefnogi swyddogaethau goruchwyllo'r PCC; ni wnaeth 3 ohonynt gyflwyno unrhyw sylwadau.
45. Roedd Estyn o'r farn y dylai fod yna brotocol ar gyfer penodi i SAC a threfn o adolygu perfformiad; cynigiodd amrywiaeth o seiliau dros ddiswyddo aelodau SAC; ac roedd o'r farn bod un adroddiad interim, bob hanner blwyddyn yn ddigonol.
46. Roedd yr holl sefydliadau o'r farn nad ACC ddylai fod yn archwilydd statudol ar gyfer Corfforaethau Addysg Bellach ac Uwch.

#### **Cyrff archwilio / cyfrifyddiaeth (5)**

47. Roedd tri chorff yn cefnogi SAC gorfforaethol gyda'r PCC yn cyflawni swyddogaeth oruchwyllo; roedd dau gorff yn cefnogi bwrdd cynghori.
48. Roedd yna beth pryder ynghylch y beichiau a osodir ar y SAC a'r PCC a allai lesteirio annibyniaeth ACC wrth gynnal archwiliadau. Gallai mwy o aelodau sy'n gyflogeion fod yn fuddiol, a dylai'r rhesymau dros ddiswyddo ACC neu gadeirydd SAC gynnwys afiechyd.

#### **ACC ac undebau llafur staff (2)**

49. Roedd ACC yn gwrthwynebu'r cynigion, yn ystyried bod swyddogaeth oruchwyllo'r PCC wedi'i chyfarwyddo'n ormodol a bod cyfansoddiad SAC yn anghytbwys, a byddai'n well ganddo weld Bwrdd Goruchwyllo heb unrhyw swyddogaethau gweithredol; roedd undebau llafur staff ACC (Prospect a'r PCS) yn cytuno â barn ACC ar y cyfan.
50. Prif bwyntiau ymateb manwl ACC oedd: roedd y cynigion llywodraethu corfforaethol yn rhy gyfarwyddol, yn anghytbwys, yn amhosibl eu gweithredu ac yn amhriodol. Byddai swyddogaeth oruchwyllo'r PCC yn amharu ar ei allu i

graffu ar wariant Llywodraeth Cymru; dylid breinio trefn oruchwylio fwy cymesur yn rhywle arall (gan y Cynulliad), gan alluogi'r PCC drwy hynny i barhau â'i brif swyddogaeth o ddal Llywodraeth Cymru i gyfrif. Roedd y cynigion ar gyfer SAC gorfforaethol gyda swyddogaethau gweithredol yn rhy ymyraethol, a byddent yn arwain at lesteirio annibyniaeth ACC mewn modd amhriodol. Dylai ACC yn unig barhau i fod yn gyfrifol am yr holl swyddogaethau gweithredol, gyda Bwrdd Goruchwylio statudol yn cael ei greu er mwyn ei fonitro a'i gynghori. Pe bai SAC gorfforaethol yn cael ei sefydlu, gyda sail weithredol gadarnach, byddai'n rhaid i'r trefniadau cynllunio ac adnoddau warchod annibyniaeth ACC.

## **Arall (2)**

51. Roedd aelod o'r cyhoedd yn cefnogi creu SAC gorfforaethol ac yn bleidiol i roi swyddogaethau goruchwylio i'r PCC. Cyflwynodd elusen un sylw yn unig – a hwnnw'n un ffafriol – ynghylch cynnwys darpariaethau datblygu cynaliadwy yn y Bil.
52. Roedd yr unigolyn yn ystyried bod SAC gyda saith aelod yn rhy fach i gyflawni swyddogaethau gweithredol; y dylai'r cyfnodau penodi orgyffwrdd er mwyn osgoi unrhyw fylchau; roedd yn anhapus gyda'r ffaith bod ACC yn argymhell penodiad yr aelod sy'n gyflogai; yn credu y dylai'r cyfyngiadau yn dilyn penodiad fod yn barhaol ac y dylai swyddogaethau cyfun ACC/y Prif Weithredwr fod yn swyddi ar wahân gyda'r Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu.

## 5. Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth

53. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth. Mae Tabl 1 isod yn amlinellu mewn perthynas â phob darpariaeth:

- y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo;
- ar ba ffurf y caiff y pŵer ei arfer;
- priodoldeb y pŵer dirprwyedig;
- y weithdrefn a gymhwysir (cadarnhaol, negyddol, dim gweithdrefn) os o gwbl.

**Tabl 1: Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth**

Cymal	Rhoddir y pŵer i	Ar ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
Cymal 19(7)	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn drwy Offeryn Statudol	Yn briodol ar gyfer pwerau i wneud gorchymynion gan fod y ddarpariaeth yn galluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu corff o gyfrifyddion i'r rhestr gymeradwy o'r rhai a all gynnig gwasanaethau i SAC/ACC.	Gweithdrefn negyddol	Bydd y rheoliadau hyn yn rhagnodi materion manwl a allai newid o bryd i'w gilydd.
Cymal 34(2)	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn drwy Offeryn Statudol	Yn briodol ar gyfer pwerau i wneud gorchymynion gan fod y ddarpariaeth yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, i wneud darpariaethau trosiannol, darfodol neu	Gweithdrefn gadarnhaol	Mae gan y pŵer y potensial i ddiwygio'r Ddeddf hon a Deddfau eraill (fel y bo'n briodol).

			arbed ac ati, mewn cysylltiad â dod â'r Bil i rym neu roi effaith lawn i'r Bil pan ddaw'n Ddeddf.		
Cymal 36(2)	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn drwy Offeryn Statudol	Mae'r ddarpariaeth hon yn ofynnol gan na ddaw'r Bil i rym yn llawn pan dderbynia Gydsyniad Brenhinol ond yn hytrach caiff ei weithredu gan Weinidogion Cymru	Dim gweithdrefn	Mae hyn yn arferol ar gyfer cychwyn gan eu bod yn y dod â'r darpariaethau i rym yn unig

54. Yn ogystal â'r pwerau a amlinellir yn Nhabl 1, mae'r Bil (ym mharagraff 41 o Atodlen 4) yn diwygio adran 39 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 er mwyn, ymysg pethau eraill, rhoi'r pwerau presennol i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru yn hytrach na'r Cynulliad. Mae hynny'n gofyn am newid canlyniadol i adran 58 o'r Ddeddf honno, a gyflawnir drwy baragraff 55 o Atodlen 4 i'r Bil. Nid oes yna unrhyw ddiwygiad i weithdrefn y Cynulliad yn gysylltiedig ag arfer y pwerau hynny.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

55. Cwblhawyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn unol â Rheol Sefydlog 26.6(vi) ar gyfer y Bil arfaethedig ac mae'n dilyn yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol hwn. Mae'n cynnwys asesiad costau a manteision.
56. Amgaeir adroddiad gan ACC ynghylch priodoldeb codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru yn sgil darpariaethau'r Bil hwn, o dan Reol Sefydlog 26.6(viii) y Cynulliad Cenedlaethol, yn Atodiad 3.

## **RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

### **7. Opsiynau**

57. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn cyflwyno pedwar opsiwn mewn perthynas ag amcanion polisi'r Bil. Caiff pob opsiwn ei ddadansoddi o ran i ba raddau y byddai'n cyflawni amcanion Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r peryglon, y costau a'r manteision cysylltiedig.
58. Yr opsiynau yw –
- a) Opsiwn 1 – gwneud dim (parhau â'r trefniadau presennol)
  - b) Opsiwn 2 – caniatáu i Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC) gryfhau'r trefniadau rheoli mewnol
  - c) Opsiwn 3 – Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) i greu bwrdd cynghori statudol
  - d) Opsiwn 4 – Deddfu er mwyn creu trefniadau goruchwyllo a llywodraethu newydd statudol ar gyfer ACC a Swyddfa Archwilio Cymru (SAC)

#### **Opsiwn 1 – Gwneud dim (parhau â'r trefniadau presennol)**

59. O dan yr opsiwn hwn, byddai'r trefniadau llywodraethu ac arolygu presennol ar gyfer ACC yn parhau.
60. Ar hyn o bryd mae ACC yn penodi staff, yn pennu eu telerau a'u hamodau, ac mae ganddo'r grym i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu er mwyn ei gynorthwyo i arfer ei swyddogaethau. Caiff y cronfeydd sy'n ofynnol at y dibenion hyn a threuliau eraill eu talu o gyllideb ACC, ac mae Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PCC) y Cynulliad yn ystyried amcangyfrif o'r rhain (a chaiff ei addasu) yn unol â pharagraff 12 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006). O dan Reolau Sefydlog y Cynulliad mae'r amcangyfrif, boed wedi'i addasu neu beidio, yn rhan o gynnig y gyllideb gyffredinol a gyflwynir yn flynyddol yn y Cynulliad (fel sy'n ofynnol o dan adran 125 o Ddeddf 2006).

#### **Opsiwn 2 – Caniatáu i ACC gryfhau'r trefniadau rheoli mewnol**

61. Mae'r opsiwn hwn yn caniatáu i'r ACC presennol barhau i gryfhau trefniadau llywodraethu corfforaethol SAC drwy drefniadau a gynigiwyd i'r PCC ar 7 Hydref 2010 ac sydd bellach ar waith. Roedd y trefniadau hynny'n cynnwys sefydlu tri phwyllgor o fewn SAC (Cydnabyddiaeth, Adnoddau, a Rheoli Risg ac Archwilio) gyda phob un yn cynnwys pedwar aelod anweithredol cymwys a benodir gan ddilyn egwyddorion penodiadau cyhoeddus.
62. Yn ogystal â goruchwyliaeth y Cynulliad fel y'i nodir yn Opsiwn 1, byddai'r opsiwn hwn hefyd yn cynnig bod Cadeiryddion y tri phwyllgor a Phwyllgor Gweithredol ACC yn cynnal adolygiad strategol o weithrediadau SAC bod chwe mis.



63. Hefyd, byddai cynhadledd lywodraethu flynyddol yn cael ei chynnal, gan ddwyn ynghyd ganlyniadau'r adolygiadau strategol a dadansoddiad o gynllun gwaith SAC ac ACC, gan arwain at Adroddiad Llywodraethu a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r PCC ac/neu'r Cynulliad iddynt ei ystyried.

### **Opsiwn 3 – Y Cynulliad i greu bwrdd cynghori statudol**

64. O dan yr opsiwn hwn, byddai'n ofynnol cyflwyno Bil y Cynulliad (gan un o Bwyllgorau'r Cynulliad, Comisiwn y Cynulliad neu Lywodraeth Cymru) i ddiwygio Deddf 2006 er mwyn rhoi'r pwerau i'r Cynulliad allu penodi Bwrdd (neu Banel) i gynghori'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n ymwneud â swyddogaethau ACC.
65. Gallai'r Bwrdd, unwaith y'i penodir gan y Cynulliad, fod â swyddogaethau gan gynnwys goruchwyllo gwaith ACC, paratoi adroddiadau i'r Cynulliad, a gwneud argymhellion ynghylch effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ACC a'i staff.
66. Gallai'r ddeddfwriaeth gynnwys gofyniad i ACC a'r Bwrdd Cynghori gydweithio, er enghraifft drwy ganiatáu i'r Bwrdd gael mynediad at staff a phapurau ACC, caniatáu dadansoddiad manwl a dwys o waith ACC a chraffu'n effeithiol ar y modd y mae'n defnyddio adnoddau a'r canlyniadau a gyflawnwyd.
67. O dan yr opsiwn hwn gallai'r Cynulliad hefyd gadw ei swyddogaethau goruchwyllo fel y'u disgrifir yn Opsiwn 1.

### **Opsiwn 4 – Deddfu er mwyn creu trefniadau goruchwyllo a llywodraethu ar gyfer ACC a SAC**

68. O dan yr opsiwn hwn byddai Bil y Cynulliad (a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru) yn gwneud darpariaeth ar gyfer arolygu neu oruchwyllo ACC gyda darpariaethau i warchod annibyniaeth ACC ar y Cynulliad a Llywodraeth Cymru a'i ddisgresiwn llwyr dros y modd y mae'n arfer ei farn wrth gynnal archwiliadau ac ati.
69. Byddai corff corfforaethol newydd, SAC, yn cael ei greu gydag ystod o ddyletswyddau a phwerau mewn perthynas ag ef ei hun ac ACC. Byddai'n atebol i'r Cynulliad ac yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru. Byddai'r rhan fwyaf o swyddogaethau gweinyddol a 'chadw tŷ' presennol ACC yn trosglwyddo i'r SAC newydd, a byddai darpariaethau penodol yn gwarchod ac yn amddiffyn statws ac annibyniaeth ACC mewn perthynas ag archwiliadau gweithredol ac ati.
70. Aelodau'r SAC newydd fyddai'r cadeirydd a'r pedwar aelod, wedi'u penodi gan y Cynulliad gan ddefnyddio'r gweithdrefnau penodiadau cyhoeddus priodol a thryloyw, yn ogystal ag ACC (fel prif swyddog gweithredol) ac aelod sy'n un o'r staff (neu'n gyflogai).
71. Prif swyddogaethau'r SAC newydd fyddai monitro, goruchwyllo a chynghori ACC; paratoi amcangyfrifon ariannol (gydag ACC) i'w cymeradwyo (wedi'u haddasu gan y Cynulliad neu beidio); cyflogi'r holl staff; dal eiddo; pennu a chodi'r ffioedd am archwiliadau ac ati ACC; darparu adnoddau er mwyn hwyluso swyddogaethau ACC; paratoi (gydag ACC) cynlluniau strategol a chynlluniau blynyddol a fyddai'n cael eu gosod gerbron y Cynulliad, a'u hystyried ganddo,

(yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru); a chyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cynulliad iddo ei ystyried.

72. Byddai SAC, fel y corff llywodraethu newydd ar gyfer sefydliad o oddeutu 300 o staff a chyllideb flynyddol o dros £24 miliwn, ar wahân i Lywodraeth Cymru ond yn atebol i'r Cynulliad. Mater i'r Cynulliad fyddai penderfynu ai un o Bwyllgorau'r Cynulliad, Comisiwn o'r Cynulliad (Comisiwn o Aelodau'r Cynulliad) neu unrhyw ddull arall a ddefnyddid ar gyfer y swyddogaethau goruchwylio.
73. Dyma'r opsiwn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ffafrio, a darperir ar gyfer y trefniadau hyn ym Mil Archwilio Cyhoeddus (Cymru).

## 8. Costau a manteision

74. Mae'r adran hon yn cynnwys dadansoddiad costau a manteision o'r opsiynau yn adran 7. Amcangyfrifon yw'r holl gostau a gallent amrywio yn dibynnu ar y penderfyniadau a gymerir mewn perthynas â gweithredu'r Bil, os bydd yn troi'n Ddeddf. Er enghraifft, bydd y gost i'r Cynulliad o graffu ar ACC a SAC yn dibynnu ar ba ddull goruchwyllo y bydd y Cynulliad yn penderfynu ei fod yn briodol. Yn yr un modd, mae yna elfen o ddewis o ran a ddylid ystyried y costau fel rhai atodol, neu eu trin ar y sail y gellid ailflaenoriaethu'r adnoddau presennol neu ryddhau cyllid drwy arbedion yn rhywle arall. Gellid darparu rhagor o fanylion a dadansoddiadau sensitifrwydd yn ôl y gofyn; mae'r ffigurau a nodir yma yn amcangyfrifon gofalus. Mae'r cyfraddau dydd, os cânt eu nodi, yn seiliedig ar y cyfraddau ar gyfer swyddogaethau cymharol a wneir drwy benodiadau cyhoeddus ac yn cynnwys TAW a threuliau.

### **Opsiwn 1 – Gwneud dim (parhau â'r trefniadau presennol)**

#### *Costau*

75. O dan yr opsiwn hwn bydd y prosesau a'r arferion presennol yn parhau yn ddigyfnewid. Amcangyfrifir felly na fydd yna unrhyw wariant atodol yn ychwanegol at y swm y cynlluniwyd ac y darparwyd ar ei gyfer eisoes yn y cyllidebau llinell sylfaen. Gan na fyddai yna unrhyw newid yn y dull o weithio, y strwythurau na'r prosesau, ni fyddai yna unrhyw gostau trosiannol.
76. Cyllideb gyfredol Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC) yw £24.2 miliwn y flwyddyn. Mater i ACC yw penderfynu ar yr adnoddau y mae'n eu neilltuo ar gyfer llywodraethu a rheolaeth fewnol. Amcangyfrifir mai cost y trefniadau hyn, yn seiliedig ar y Datganiad o Gyfrifon 2010-11, yw £36,650 y flwyddyn.
77. Mae'n ofynnol i archwilydd allanol archwilio cyfrifon ACC. Yn ôl y ffigurau diweddaraf sydd ar gael ar gyfer yr archwiliad allanol hwnnw, £25,000 oedd y gost ym flwyddyn ariannol 2010-11.
78. Ar hyn o bryd mae Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PCC) Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) yn neilltuo un sesiwn y flwyddyn er mwyn ystyried amcangyfrifon ariannol ACC a goruchwyllo ACC yn gyffredinol. Mae'n anodd amcangyfrif cost yr un cyfarfod hwnnw, neu'r rhan o'r sesiwn sy'n ymdrin â'r gweithgarwch sy'n gysylltiedig ag ACC. Telir y gost honno o'r gyllideb a ddyrennir i Gomisiwn y Cynulliad.
79. Mae Llywodraeth Cymru yn gosod Cynnig Cyllidebol blynyddol (ar ffurf ddrafft i ddechrau, ac yna ar ffurf derfynol) gerbron y Cynulliad (y mae rhan ohono'n cynnwys amcangyfrif ariannol ACC a'r swm y gallai'r Swyddfa honno ei dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru). Caiff hwn ei drafod mewn dadl yn Cyfarfod Llawn. Mae'n anodd amcangyfrifir cost y ddadl honno sydd, fodd bynnag, yn dod o'r gyllideb a ddyrennir i Gomisiwn y Cynulliad. Dim ond cyfran fechan o'r gost honno fyddai'n deillio o ystyried amcangyfrif ariannol ACC, p'run bynnag.

### *Manteision*

80. Ni fyddai yna unrhyw gostau ariannol ychwanegol gyda'r opsiwn hwn. Fodd bynnag, ni fyddai yna unrhyw fanteision ychwaith gan na fyddai yna unrhyw newid i'r amodau a ganiataodd i'r materion blaenorol godi. Yn yr un modd, gan y byddai'r trefniadau llywodraethu mewnol cyfredol ar gyfer ACC a'i Swyddfa yn parhau, mae yna berygl o hyd y gallai'r methiannau o ran llywodraethu ailgodi. O ganlyniad, ni fyddai unrhyw gamau'n cael eu cymryd i weithredu argymhellion adroddiad y PCC, y cyfeirir ato ym mharagraff 13 o'r Memorandwm hwn, nac i unioni'r niwed i hyder pobl yn SAC a swydd ACC. Yn amlwg, mae yna berygl i enw da ACC, a'r Cynulliad, gan y byddai methiant i oruchwyllo ACC a'i ddal i gyfrif yn effeithiol yn cael ei ystyried yn arwydd o wendid o ran proses, atebolrwydd a democratiaeth.
81. Mae'n dilyn na fyddai'r opsiwn hwn yn cynnig unrhyw fanteision i'r Cynulliad, y Cyrff Cyhoeddus sy'n destun archwilio yng Nghymru na'r cyhoedd yng Nghymru, sy'n dibynnu ar ACC i gynrychioli eu buddiannau wrth archwilio cyrff cyhoeddus yng Nghymru.

### **Opsiwn 2 – Caniatáu i ACC gryfhau'r trefniadau rheoli mewnol**

82. Mae'r Llywodraeth yn ystyried y byddai yna gostau'n gysylltiedig â sefydlu trefniadau rheoli mewnol cryfach, yn ychwanegol at y rhai a bennwyd yn opsiwn 1. Costau trosiannol sefydlu'r trefniadau newydd fyddai rhai o'r rhain, a byddai rhai'n codi'n rheolaidd bob blwyddyn. ACC fyddai'n ysgwyddo'r costau, a byddent yn cael eu diwallu o'r gyllideb y cytunwyd arni.

#### *Costau trosiannol*

83. Amcangyfrifir mai'r costau trosiannol i ACC yn sgil sefydlu trefniadau rheoli mewnol cryfach fyddai'r costau staff yn gysylltiedig â chreu gweithdrefnau newydd a gweithredu'r trefniadau newydd. Byddem yn amcangyfrif na fyddai hynny'n gofyn am fwy na 40 o ddyddiau person ar gost o £250 y dydd. Byddai'r adnoddau hyn yn cael eu diwallu o blith staff presennol ACC a'r costau y cytunwyd arnynt.

#### *Cost flynyddol gyfartalog*

84. Amcangyfrifir mai oddeutu £60,000 fyddai cost flynyddol cefnogi'r trefniadau rheoli mewnol cryfach a nodir uchod, o gymharu â'r gost gyfredol o £36,650. Byddai'r costau hyn yn gysylltiedig ag amser staff wrth baratoi, cynhyrchu ac ystyried yr adroddiadau atodol (oddeutu £3,000 ar gyfer pob adroddiad) a pharatoi a chynnal y gynhadledd lywodraethu (oddeutu £5,000). Byddai ACC yn cwrdd â chost lawn y trefniadau hyn o'i gyllideb flynyddol y cytunwyd arni.
85. Pe bai'r PCC neu'r Cynulliad yn penderfynu ystyried yr adroddiad llywodraethu, byddai yna gostau tebyg i'r rhai a nodir ym mharagraff 78 a 79 uchod, na ellir eu mesur, yn gysylltiedig â hynny, o gymryd y byddai'r ystyriaeth yn digwydd fel

eitem arferol mewn Pwyllgor neu Gyfarfod Llawn arferol. Byddai unrhyw gostau o'r fath yn dod o'r gyllideb a ddyrennir i Gomisiwn y Cynulliad.

#### *Manteision*

86. Mae'n debygol y byddai'r opsiwn hwn yn gwella atebolrwydd mewnol, ac yn ei gwneud yn ofynnol i ACC adrodd i'r PCC ac/neu'r Cynulliad ar faterion rheolaeth fewnol, yn ychwanegol at y craffu blynyddol cyfredol ar ei amcangyfrifon ariannol a'i ganlyniadau gweithredol.
87. Byddai'r trefniadau llywodraethu hyn i'w croesawu, ac yn cynnig rhywfaint yn fwy o sicrwydd na'r hyn a gynigir o dan Opsiwn 1; fodd bynnag byddai gweithrediad, rheolaeth ac yn y pen draw effeithiolrwydd y trefniadau hyn yn llwyr yn nwylo ACC. Ni fyddai'n sicrhau atebolrwydd a chraffu allanol ychwanegol ar waith ACC ei hun. Hefyd, mae'n gadael sefyllfa statudol ACC mewn perthynas â staffio yn ddigyfnewid, ac felly ni fyddai'n ymdrin â phrif ofyniad Llywodraeth Cymru, a nodir yn y *Rhaglen Lywodraethu*, i ddeddfu er mwyn gwneud Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad drwy sefydlu trefniadau llywodraethu allanol annibynnol ar gyfer ACC a'i Swyddfa.

### **Opsiwn 3 – Y Cynulliad i greu bwrdd cyngori statudol**

88. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y byddai yna gostau'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn, yn ychwanegol at y rhai a bennwyd yn y costau yn opsiwn 1. Costau trosiannol sefydlu'r trefniadau newydd fyddai rhai o'r rhain, a byddai rhai'n codi'n rheolaidd bob blwyddyn. ACC a'r Cynulliad fyddai'n cwrdd â'r costau.

#### *Costau trosiannol*

89. Yn ogystal â'r costau sy'n gysylltiedig â pharatoi un o Ddeddfau'r Cynulliad, ymgynghori arni a'i gwneud er mwyn rhoi'r pwerau angenrheidiol i'r Cynulliad allu greu bwrdd statudol, byddai yna gost i'r Cynulliad hefyd wrth sefydlu'r Bwrdd. Amcangyfrifir mai oddeutu £20,000 fyddai'r gost, a byddai'n codi'n bennaf o'r angen i hysbysebu'r swyddi a chynnal y broses benodi gystadleuol.

#### *Cost flynyddol gyfartalog*

90. Yn amlwg, byddai'r amcangyfrif o gost cefnogi gwaith y Bwrdd a chwrdd â'i gostau gweithredu am flwyddyn gyfan yn dibynnu ar ei faint a pha mor aml y cynhelid y cyfarfodydd. Gan gymryd mai £300 fyddai'r gyfradd flynyddol, sy'n gyfradd is na'r un a nodir ym mharagraff 78 o ystyried na fyddai gan Aelodau'r Bwrdd o dan yr opsiwn hwn yn un lefel o gyfrifoldeb, ac y byddai aelodau'r bwrdd yn gweithio am ddau ddiwrnod y mis, ynghyd â chostau'r cymorth ysgrifenyddol a thechnegol, gallai'r costau fod oddeutu £50,000 y flwyddyn. Byddai'r costau hyn yn ychwanegol at gostau rheolaeth fewnol cyfredol ACC, a SAC fyddai'n cwrdd â'r costau.

91. Gallai'r Cynulliad ddewis neilltuo mwy neu lai o amser mewn Pwyllgor neu Gyfarfod Llawn ym mhob blwyddyn ariannol er mwyn ystyried yr oruchwyliaeth gyffredinol dros ACC, ac/neu ystyried cyngor y Bwrdd. Mae'n anodd amcangyfrif unrhyw newidiadau mewn costau a fyddai'n deillio o weithgarwch yn gysylltiedig ag ACC o dan yr opsiwn hwn, gan y byddai hynny'n dibynnu ar lefel y craffu y mae'r Cynulliad yn ei hystyried yn briodol. Byddai'r gost yn dod o'r gyllideb a ddyrennir i Gomisiwn y Cynulliad.
92. Mae'n debygol y bydd yna gostau rheolaidd i'r Cynulliad yn sgil penodi aelodau o'r Bwrdd neu benodi yn lle aelodau sy'n dewis gadael neu'n cyrraedd diwedd eu tymor. Amcangyfrifir mai £5,000 yr aelod fyddai'r costau hynny, yn seiliedig ar gostau cyfredol penodiadau tebyg. Fan lleiaf, disgwylir y byddai angen penodi pob Aelod (neu'i ailbenodi fel y bo'n berthnasol) bob pedair blynedd. Mae hynny ychydig yn hirach na chyfnod aelodau'r Bwrdd yn y swydd ar hyn o bryd (sef tair blynedd) ond mae'n cynnig sail gyfartal â'r costau yn opsiwn 4 sy'n seiliedig ar y cynigion ar ddal swyddi ym Mil Archwilio Cyhoeddus (Cymru).

#### *Manteision*

93. Mae'r opsiwn hwn yn cynnig manteision pendant ac yn mynd beth o'r ffordd at gwrdd ag amcan polisi Llywodraeth Cymru. Byddai deddfwriaeth yn cael ei defnyddio i greu Bwrdd annibynnol a fyddai'n gyfrifol am gynghori ACC, gyda'r Bwrdd hwnnw'n atebol i'r Cynulliad. Byddai ACC yn dod yn fwy atebol i'r cyhoedd a byddai rhywfaint o her yn cael ei chynnig i ACC. Byddai hynny'n gyfyngedig, fodd bynnag, i swyddogaeth gynghori.
94. Byddai'n gadael holl swyddogaethau ACC yn ddigyfnewid, fodd bynnag, ac ni fyddai yna gyfle i'r Bwrdd wneud mwy na chynghori ACC, a dwyn materion y mae'n pryderu yn eu cylch i sylw'r PCC. Ni fyddai'r dull gweithredu hwn, felly, yn cyflawni'r amcan a ddymunir o wella'n sylweddol y dull o oruchwyllo a llywodraethu ACC a SAC.

#### **Opsiwn 4 – Deddfu er mwyn creu trefniadau goruchwyllo a llywodraethu ar gyfer ACC a SAC**

95. Mae'r Llywodraeth yn ystyried y byddai yna gostau'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn, yn ychwanegol at y rhai a bennwyd yn y costau yn opsiwn 1. Costau trosiannol sefydlu'r trefniadau newydd fyddai rhai o'r rhain, a byddai rhai'n codi'n rheolaidd bob blwyddyn. Y SAC newydd a'r Cynulliad fyddai'n cwrdd â'r costau.

#### *Costau trosiannol*

96. O dan yr opsiwn hwn (ac yn unol â darpariaethau Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)) byddai yna rywfaint o gostau i'r Cynulliad o ran hysbysebu swyddi'r Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd, gan ddefnyddio proses penodiadau cyhoeddus agored, dryloyw a chystadleuol i lenwi'r swyddi hynny. Amcangyfrifir mai £20,000 fyddai cost hyn.



### *Costau blynyddol cyfartalog*

97. Yn seiliedig ar gyfraddau dyddiol o £400 y dydd ar gyfer aelodau a £500 y dydd ar gyfer y Cadeirydd, a chan dybio y byddai gofyn i'r aelodau weithio am bum niwrnod y mis ar gyfartaledd, a chan gynnwys costau cymorth ysgrifenyddol a thechnegol, amcangyfrifir mai oddeutu £155,000 y flwyddyn fyddai'r gost. Byddai'r symiau hynny yn cwrdd â chydabyddiaeth, arian rhodd a lwfansau eraill Cadeirydd SAC a phedwar aelod SAC. SAC ei hun, a ariennir i ryw raddau o Gronfa Gyfunol Cymru, ond sy'n derbyn y mwyafrif o'i chyllid o incwm ffioedd, fyddai'n cwrdd â chost y gefnogaeth weinyddol i SAC.
98. Gallai fod yna rai costau ychwanegol i'r Cynulliad o ganlyniad i'w oruchwyliaeth gryfach dros ACC a SAC a'r angen i roi trefniadau priodol ar waith i ymgymryd â'r dasg hon. Bydd yr amcangyfrif o gost hynny yn dibynnu ar natur yr oruchwyliaeth gan y Cynulliad a'r trefniadau a wna i gefnogi hynny. Byddai unrhyw gostau'n dod o'r gyllideb a ddyrennir i Gomisiwn y Cynulliad.

### *Manteision*

99. Byddai'r trefniadau hyn yn creu trefniadau atebolrwydd a llywodraethu cadarn ac effeithiol ar gyfer ACC a SAC, ar sail deddfwriaeth. Byddent yn gwella gallu'r Cynulliad i oruchwyllo ACC a SAC yn briodol ond heb amharu ar annibyniaeth a statws ACC.
100. Byddai'r dull hwn yn cwrdd ag ymrwymiad y *Rhaglen Lywodraethu*, argymhellion Adroddiad y PCC "*Materion yn ymwneud â Chyfrifo, Llywodraethu a Phriodoldeb yn Swyddfa Archwilio Cymru*", a'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus, yr oedd pob un ohonynt yn cefnogi diwygio a moderneiddio'r trefniadau llywodraethu ar gyfer SAC a'i Swyddfa. Byddai hefyd yn cynnig yr ymateb cryfaf er mwyn creu hyder llawn ac effeithiol yn SAC ac ACC.

### Costau'r opsiynau a ystyriwyd (£000)

	Opsiwn 1	Opsiwn 2	Opsiwn 3	Opsiwn 4
Paratoi cyfrifon	25.0	25.0	25.0	25.0
Costau cefnogi cyfredol	37.0	37.0	0.0	0.0
Costau'r PCC/costau goruchwyllo eraill	0.0	0.0	0.0	0.0
Trefniadau'r Bwrdd	0.0	23.0	50.0	155.0
Is-gyfanswm	62.0	85.0	75.0	180.0
Trosiannol	0.0	10.0	20.0	20.0
Cyfanswm	62.0	95.0	95.0	200.0

## 9. Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir

101. Mae polisi Llywodraeth Cymru, adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (*"Materion yn ymwneud â Chyfrifo, Llywodraethu a Phriodoldeb yn Swyddfa Archwilio Cymru"*) ac ymatebion yr ymgynghoreion i gyd yn dangos bod newid yn angenrheidiol er mwyn cryfhau dulliau llywodraethu ac atebolrwydd Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC) a Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ac adfer hyder.
102. Ar y sail hon, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried mai Opsiwn 4 (deddfu er mwyn creu trefniadau goruchwyllo a llywodraethu) sy'n cynnig y ffordd orau ymlaen gan y bydd yn sicrhau dull cadarn ac effeithiol o oruchwyllo ACC, yn caniatáu bod ACC yn gweithredu mewn ffordd dryloyw ac atebol i'r cyhoedd, ac ar yr un pryd yn gwarchod annibyniaeth y Swyddfa honno wrth gyflawni swyddogaethau archwilio a llunio barn broffesiynol.
103. Rhagwelir y bydd y costau yn sgil Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) a'r manteision y bwriedir iddo eu cyflwyno (fel y'u nodir uchod) yn fach o gymharu â'r adnoddau cyffredinol sydd ar gael i ACC a SAC er mwyn cyflawni eu swyddogaethau. Mae'r gost flynyddol atodol o dan Opsiwn 4 o £155,000 yn cyfateb i 0.64% o gyllideb gyfredol ACC, sef £24.2 miliwn. Ystyrir bod hon yn swyddogaeth oruchwyllo gost-effeithiol sy'n cynnig her briodol i ACC, ac sy'n creu atebolrwydd cyhoeddus priodol.
104. Ystyrir bod y costau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn gostau trosiannol ac yn gostau rheolaidd, yn gymesur o ran cefnogi'r trefniadau llywodraethu cryfach a fydd yn ei gwneud yn llai tebygol y bydd yn rhaid ymdrin â chostau ariannol, a'r costau o ran enw da, yn sgil llywodraethu gwael.



## 10. Asesu'r Gystadleuaeth

105. Mae'n ofynnol cwblhau'r hidlydd cystadleuaeth os yw'r ddeddfwriaeth yn effeithio ar fusnes, elusennau ac/neu'r sector gwirfoddol. Ni fydd darpariaethau'r Bil yn effeithio ar fusnesau, elusennau ac/neu'r sector gwirfoddol. Nid oes gofyn defnyddio'r hidlydd cystadleuaeth yn yr achos hwn felly.

## 11. Adolygu ar ôl gweithredu

106. Os bydd y Bil yn troi'n Ddeddf, caiff ei gweithredu gan y Gyfarwyddiaeth Llywodraeth Leol a Chymunedau, gan gydweithio'n agos â'r Cynulliad a rhanddeiliaid allweddol. Cytunir ar y dull o adolygu a datblygu'r trefniadau newydd fel rhan o'r broses weithredu.

## ATODIAD A - Nodiadau Esboniadol

- 1 Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn ymwneud â Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)) fel y'i cyflwynwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 9 Gorffennaf 2012.
- 2 Fe'u paratowyd gan Gyfarwyddiaeth Llywodraeth Leol a Chymunedau Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo darllenwyr y Bil ac i helpu goleuo trafodaeth arno. Nid ydynt yn ffurfio rhan o'r Bil ac ni chawsant eu cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
- 3 Mae angen darllen y Nodiadau ar y cyd â'r Bil. Nid ydynt, ac ni fwriedir iddynt fod, yn ddisgrifiad trwyadl o'r Bil. Os ymddengys, gan hynny, nad oes angen unrhyw esboniad ar adran neu ran o adran, ni roddir un.

### Rhestr o dermau a byrfoddau a ddefnyddir yn y Nodiadau Esboniadol

- 4 Defnyddir y termau a'r byrfoddau canlynol yn y Nodiadau Esboniadol:

**y Cynulliad** – Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Comisiwn y Cynulliad** – Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**y Bil** – Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)

**Deddf 2006** – Deddf Llywodraeth Cymru 2006

**ACC** – Archwilydd Cyffredinol Cymru

**SAC** – Swyddfa Archwilio Cymru

**CGC** – Cronfa Gyfunol Cymru

### Trosolwg o'r Bil

- 5 Mae'r Bil yn cynnwys 37 adran a 4 Atodlen. Fel a nodir yng Nghymal 1 (nid oes bwriad iddo gael effaith gyfreithiol) o'r Bil, mae'r prif ddarpariaethau yn gwneud y canlynol-
  - rhagnodi bod swydd ACC i barhau
  - creu corff corfforaethol newydd, SAC, ac yn rhoi swyddogaethau iddo;
  - yn rhagnodi trefniadau llywodraethu ar gyfer ACC a SAC, a darpariaeth arall yn ymwneud â'r berthynas rhwng y ddau;
  - rhagnodi sut y mae swyddogaethau ACC i'w harfer, ac yn gwneud ACC yn archwilydd i gyrrff llywodraeth leol yng Nghymru.

### Rhan 1: Archwilydd Cyffredinol Cymru

#### Cymal 2 - Swyddfa Archwilydd Cyffredinol Cymru

- 6 Mae'r cymal hwn yn sefydlu bod swydd ACC yn parhau. Cyn deddfiad y Bil hwn mae swydd ACC wedi ei sefydlu o dan Atodlen 8 o Ddeddf 2006. Ar ôl deddfiad y Bil hwn bydd swydd ACC yn cael ei sefydlu o dan gymal 2. Effaith

cyfeirio at swydd ACC yn parhau yw nad oes toriad ym mharhad y swydd honno nac ym mharhad arfer swyddogaethau'r swydd honno. O dan gymal 2(2) Ei Mawrhydi sydd i benodi unigolyn i ddal y swydd honno ar enwebiad y Cynulliad. Bydd penodiad i'r swydd am gyfnod o wyth mlynedd ar y mwyaf: dim ond unwaith y caiff person ddal swydd ACC.

- 7 Rhaid i'r Cynulliad gael ei fodloni bod ymgynghoriad rhesymol wedi cael ei gynnal gyda'r cyrff hynny sy'n cynrychioli buddiannau cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, cyn gwneud enwebiad i'w Mawrhydi ynghylch y person a ddylai gael ei benodi yn ACC.

### **Cymal 3 – Ymddiswyddiad neu ddiswyddiad**

- 8 Mae ACC yn dal y swydd tan ddiwedd y cyfnod y penodwyd y person hwnnw ar ei gyfer (a gaiff fod hyd at wyth mlynedd o'r penodiad, gweler cymal 2):
  - oni ddiswyddir ef o'r penodiad gan Ei Mawrhydi pan fo'n gofyn am gael ei ddiswyddo (hynny yw, mae'n ymddiswyddo)
  - oni ddiswyddir ef o'r penodiad oherwydd bod ei Mawrhydi wedi ei bodloni nad yw bellach yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau oherwydd rhesymau meddygol a'i fod hefyd oherwydd y rhesymau hynny yn methu â gofyn am gael ymadael â'i swydd;
  - oni ddiswyddir ef gan Ei mawrhydi oherwydd camymddygiad.
- 9 Dim ond ar argymhelliad y Cynulliad y diswyddir person ar seiliau camymddygiad. Dim ond os yw o leiaf ddwy ran o dair o holl Aelodau'r Cynulliad yn pleidleisio o blaid y cam hwnnw y caniateir gwneud argymhelliad o'r fath.

### **Cymal 4 - Anghymhwys**

- 10 Mae'r cymal hwn yn nodi'r seiliau a fyddai yn anghymhwys person rhag bod yn ACC Mae'r seiliau yn ymwneud â bod yn aelod o ddeddfwrfa o fewn y Deyrnas Unedig, cyflogai i SAC, neu ddeiliad swydd a benodwyd gan y Goron, y Cynulliad neu Gomisiwn y Cynulliad.

### **Cymal 5 - Cyflogaeth etc cyn Archwilydd Cyffredinol**

- 11 Mae'r cymal hwn yn rhagnodi'r cyfyngiadau a fydd yn gymwys i gyflogaeth, deiliadaeth swydd neu ddarpariaeth gwasanaethau personau a benodwyd yn ACCau o dan y Bil hwn ond nad ydynt bellach yn dal y swydd honno. Dim ond am ddwy flynedd y bydd y cyfyngiadau'n gymwys, gan ddechrau ar y diwrnod y mae'r person yn peidio â dal y swydd. Y bwriad yw osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau neu ganfyddiad o wrthdaro o'r fath pan fo person yn ACC - e.e. er mwyn osgoi sefyllfa lle y mae ACC y mae ei gyfnod yn y swydd ar fin dirwyn i ben yn cyflawni ei swyddogaethau'n drugarog mewn perthynas â chorff y gallai gael ei benodi iddo wedi i'w swydd fel ACC ddod i ben.

## **Cymal 7 - Tâl cydnabyddiaeth**

- 12 Mae'n ofynnol i'r Cynulliad wneud trefniadau i dalu tâl cydnabyddiaeth ar gyfer ACC a benodwyd o dan y Bil hwn (cyn penodi ACC), a chaiff y trefniadau hynny gynnwys cyflog, lwfansau, arian rhodd, trefniadau ar gyfer pensiwn a buddion eraill. Ym mhob achos ni chaiff y trefniadau hyn (nac elfennau ohonynt) fod ar sail perfformiad.
- 13 Wrth benderfynu ar y trefniadau mae'n ofynnol i'r Cynulliad ymgynghori â'r Prif Weinidog.
- 14 Bydd symiau sy'n daladwy yn cael eu codi ar CGC, mae hyn yn golygu y bydd taliad yn dod yn uniongyrchol o'r Gronfa honno yn hytrach nag o'r arian y pleidleisir arno gan y Cynulliad yn flynyddol. Mae hyn wedi ei lunio i warchod annibyniaeth ACC ymhellach.
- 15 Noder hefyd baragraff 13 o Atodlen 1 i'r Bil, a pharagraff 1 o Atodlen 3 i'r Bil – gweler isod.

## **Cymal 8 - Sut y mae swyddogaethau i gael eu harfer**

- 16 Mae'r cymal hwn yn cynnal ac yn cynyddu annibyniaeth ACC wrth iddo arfer ei swyddogaethau - nid yw swyddogaethau'r swydd yn ddarostyngedig i gyfarwyddyd na rheolaeth y Cynulliad na Llywodraeth Cymru ac mae darpariaeth newydd i wneud yn glir bod gan ACC ddisgresiwn llwyr yn y modd y mae yn arfer swyddogaethau mewn perthynas ag archwilio.
- 17 Er hynny, mae hyn yn ddarostyngedig i'r canlynol. Rhaid i ACC anelu at gyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol ac mewn dull cost-effeithlon. Rhaid iddo hefyd roi ystyriaeth i'r safonau a'r egwyddorion ymarfer proffesiynol mewn perthynas ag archwilio a chyfrifyddiaeth. Rhaid i ACC roi ystyriaeth i gyngor a ddarperir gan SAC, a chyn belled â bod ACC yn rhoi ystyriaeth i'r cyngor hwnnw mae gan ACC ddisgresiwn llwyr wrth arfer ei swyddogaethau mewn perthynas ag archwilio.

## **Cymal 9 - Pwerau atodol**

- 18 Mae Cymal 9 yn darparu pŵer cyffredinol i ACC i wneud unrhyw beth a fwriedir i hwyluso arfer unrhyw un o'i swyddogaethau, neu sy'n gysylltiedig â'u harfer neu'n gydnaws â'u harfer. Nid yw'r pŵer cyffredinol hwn yn ymestyn, fodd bynnag i swyddogaethau sydd, neu a allai ddod, yn gyfrifoldeb i SAC o dan y Bil hwn, gan gynnwys benthyg arian. Ar y mater hwn, gweler yn benodol gymal 9(2).

## **Cymal 10 - Cod ymarfer archwilio**

- 19 Rhaid i ACC ddyroddi cod ymarfer sy'n ymgorffori'r arfer proffesiynol gorau sydd i'w fabwysiadu wrth i ACC gyflawni ei swyddogaethau—

- sy'n ymwneud ag ymchwilio i gyfrifon (gan gynnwys cyfrifon cyrff llywodraeth leol yng Nghymru);
- yn ymwneud â chynnal neu hybu astudiaethau neu ymchwiliadau gwerth am arian;
- fel a ddarperir mewn amryw ddarpariaethau yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998, Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

20 Wrth baratoi'r Cod, mae'n ofynnol i ACC ymgynghori â'r personau hynny yr ymddengys iddo ei bod yn briodol ymgynghori â hwy. Pan fo'r Cod wedi ei wneud a'i gyhoeddi, rhaid i ACC gydymffurfio ag ef.

### **Cymal 11 – Archwilio cyrff llywodraeth leol**

- 21 Diben cymal 11 yw newid pwy sydd i fod yn archwilydd cyrff llywodraeth leol yng Nghymru. O dan y darpariaethau presennol o adran 13 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, archwilydd cyrff llywodraeth leol yw personau a benodwyd gan ACC (presennol). Yn rhinwedd y diwygiad i'r Ddeddf honno a wnaed gan gymal 11 o'r Bil hwn, yr archwilydd fydd ACC. Mae angen i'r cymal gael ei ddarllen ar y cyd â pharagraff 2 o Atodlen 3 o'r Bil - gweler isod.
- 22 Yn bresennol nid yw ACC yn gyfrifol yn uniongyrchol am archwilio cyrff llywodraeth leol, yn hytrach mae archwilydd wedi eu penodi gan ACC i gynnal yr archwiliadau hynny. Ystyrir hyn yn anacronistig, o gofio bod gan ACC swyddogaethau eraill mewn perthynas â chyrff llywodraeth leol (er enghraifft mewn perthynas â gwerth am arian) ac o gofio'i fod yn gyfrifol am archwilio Llywodraeth Cymru, Cyrff GIG Cymru a chan gofio crynswth y cynigion eraill yn y Bil, bernir ei bod yn briodol i freinio'r pŵer i archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru yn ACC
- 23 Ar hyn o bryd, mae adran 16 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn darparu bod "rheoleiddwyr perthnasol" (at ddibenion y Mesur hwnnw) yn cynnwys archwilydd a benodwyd o dan yr adran 13 bresennol o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Oherwydd y diwygiadau a wnaed gan gymal 11(1) o'r Bil hwn, mae'n ofynnol gwneud diwygiad canlyniadol i Fesur 2009 gan na fydd archwilydd yn cael eu penodi gan ACC yn y cyswllt hwn mwyach. Cyflenwir hyn gan gymal 11(2) o'r Bil.

### **Cymal 12 - Trosglwyddo swyddogaethau Gweinidogion Cymru: ymgynghori**

- 24 O dan adran 146A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 caniateir, drwy orchymyn, i swyddogaethau penodol gan Weinidogion Cymru, gael eu trosglwyddo i ACC neu eu harfer ganddo ar eu rhan. Dim ond gyda chydysyniad ACC y gellir trosglwyddo neu arfer y swyddogaethau hynny.
- 25 Mae cymal 12 o'r Bil yn diwygio adran 146A o'r Ddeddf honno fel ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â SAC cyn gwneud gorchymyn o'r fath. Mae'r gofyniad fod ACC yn cydsynio i'r trosglwyddiad neu i arfer y swyddogaethau hynny yn parhau heb ei newid.

## **Rhan 2: Swyddfa Archwilio Cymru a'i pherthynas â'r Archwilydd Cyffredinol Cymalau 13 i 15 – ynghylch Swyddfa Archwilio Cymru**

- 26 Mae cymal 13 yn cadarnhau y bydd corff newydd o'r enw Swyddfa Archwilio Cymru (SAC). Mae'r cymal hwn hefyd yn rhoi effaith i Atodlen 1 (sydd yn cynnwys darpariaeth ynghylch SAC).
- 27 Mae Cymal 14 yn darparu y caiff SAC wneud unrhyw beth a fwriedir i hwyluso arfer unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau, neu sy'n gydnaws neu'n gysylltiedig â'u harfer, ond rhaid i SAC (yn rhinwedd cymal 15) anelu at gyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol a chost-effeithlon.

### **Cymal 16 – Y berthynas â'r Archwilydd Cyffredinol**

- 28 Mae cymal 16 yn darparu bod ACC yn brif weithredwr SAC, ond nid yn gyflogai iddi. Mae'r cymal hwn hefyd yn rhoi effaith i Atodlen 2 (Y berthynas rhwng yr Archwilydd Cyffredinol a SAC).

### **Cymal 17 - SAC i fonitro a darparu cyngor**

- 29 Mae SAC yn monitro ac yn cynghori ACC mewn perthynas â'i swyddogaethau; mae ACC o dan ddyletswydd (cymal 17(3)) i roi sylw i unrhyw gyngor o'r fath.

### **Cymal 18 - Dirprwyo swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a'u harfer ar y cyd**

- 30 Mae Cymal 18 yn galluogi i swyddogaethau ACC gael eu cyflawni gan gyflogai i SAC neu berson sy'n darparu gwasanaethau i SAC (er enghraifft, y rheini sydd wedi eu contractio i ddarparu gwasanaethau cefnogi archwilio i ACC), ar yr amod fod y cyflogai neu'r person wedi ei awdurdodi i wneud hynny mewn cynllun dirprwyo. Pan fo swyddogaethau yn cael eu cyflawni o dan y cynllun dirprwyo mae'r cyfrifoldeb am y swyddogaeth yn aros gydag ACC.
- 31 Rhaid i'r cynllun dirprwyo gael ei ddarparu gan ACC (ni chaiff ddirprwyo'r swyddogaeth hon), a rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan SAC. Bydd angen cymeradwyaeth SAC gan y bydd, er enghraifft, yn gyflogwr staff

### **Cymal 19 - Darparu gwasanaethau**

- 32 Mae Cymal 19 yn galluogi SAC i wneud trefniadau i dderbyn (gan gynnwys drwy daliad) wasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu wasanaethau technegol a allai fod angen arni neu ar ACC i gyflawni eu swyddogaethau priodol. Mae hefyd yn galluogi i SAC wneud trefniadau gydag 'awdurdod perthnasol' fel bod SAC neu ACC yn gallu darparu'r gwasanaethau hynny i awdurdod perthnasol, nei i arfer swyddogaethau'r awdurdod hwnnw. Gellid dibynnu ar Gymal 19 i sicrhau'r ddarpariaeth o wasanaethau archwilio arbenigol allanol (er enghraifft, yn ymwneud â threth); gallai hyn gael ei ddarparu gan berson y gall ACC wedyn ddirprwyo ei swyddogaethau iddo.

- 33 Diffinnir 'awdurdod perthnasol' yng nghymal 19(7) ac mae'n cynnwys awdurdodau lleol (yng Nghymru a Lloegr), awdurdodau cyhoeddus eraill ac adrannau o'r llywodraeth.
- 34 Bydd SAC yn gallu gwneud trefniadau am delerau, gan gynnwys rhai'n ymwneud â thalu, a roddir ar waith o dan y cymal hwn. Os yw'r telerau'n cynnwys ffioedd sy'n daladwy i SAC (er enghraifft, ar gyfer darparu gwasanaethau gan ACC i awdurdod perthnasol), rhaid iddynt fod yn unol â'r cynllun codi ffioedd a lunnir o dan gymal 24 (gweler isod).

### **Cymal 20 – Gwariant**

- 35 Rhaid i ACC a SAC ddarparu amcangyfrif ar y cyd ar gyfer pob blwyddyn ariannol (sydd i orffen ar 31 Mawrth) o bob incwm a gwariant gan SAC, gan gynnwys, yn benodol, yr adnoddau y mae angen amdanynt ar gyfer arfer swyddogaethau ACC. Rhaid i'r amcangyfrif gael ei osod gerbron y Cynulliad er mwyn iddo gael edrych arno ac efallai ei addasu. Rhaid i'r amcangyfrif gael ei osod o leiaf 5 mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi.
- 36 Dim ond os ymgynghorir ag ACC a SAC y caiff unrhyw addasiadau eu gwneud i amcangyfrif, a bod unrhyw safbwyntiau a fynegir ganddynt yn cael eu hystyried.
- 37 Bydd yr amcangyfrif llawn (wedi ei addasu neu fel arall) yn cael ei gynnwys yng Nghynnig Cyllidebol y Cynulliad o dan Reolau Sefydlog y Cynulliad. Rhaid i'r amcangyfrif llawn, bellach, gynnwys yr holl elfennau, gan gynnwys amcangyfrif yn ymwneud ag archwilio cyrff llywodraeth leol. Ni fydd unrhyw awdurdodiad statudol mwyach i gadw ffi incwm, fel a geir yn awr (gweler paragraff 9(4) o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a fydd yn cael ei ddiddymu gan Atodlen 4 i'r Bil hwn), ac felly rhaid rhoi cyfrif o'r holl faterion hyn yn yr amcangyfrif, ac o ganlyniad yn y Cynnig Cyllidebol Blynnyddol.

### **Cymal 21 – Darparu adnoddau ar gyfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol**

- 38 Mae Cymal 21 yn cydnabod SAC fel deiliad y gyllideb. Mae SAC yn gyfrifol am ddarparu adnoddau i ACC, fel sy'n ofynnol gan ACC i gyflawn ei swyddogaethau. Dyma'r adnoddau, yn benodol-
- staff i gynorthwyo ACC
  - gwasanaethau gan unrhyw berson (er enghraifft, gwasanaethau archwilio allanol neu wasanaethau treth yn bennaf o dan gymal 19)
  - dal eiddo, dogfennau neu wybodaeth arall, a
  - cadw cofnodion mewn perthynas â swyddogaethau ACC.
- 39 Er mwyn deall cymal 21 yn llawn rhaid iddo gael ei ddarllen ar y cyd â chymalau 25 i 28 (gan gynnwys y rhain) o'r Bil sy'n ymwneud â'r cynllun blynnyddol ynghylch gwaith ac adnoddau - gweler isod.



## **Cymal 22 - Benthg**

- 40 Fel deiliad y gyllideb mae gan SAC y pŵer i fenthg arian, ar ffurf gorddrafft neu fel arall, at y diben o fodloni gorwariant dros dro. Nid yw'r pŵer i fenthg ar gael i ACC.

## **Cymalau 23 a 24 - yn ymwneud â ffioedd**

- 41 Rhaid i unrhyw incwm (ffioedd neu fel arall) sy'n cael ei dderbyn gan ACC gael ei roi i SAC, fel deiliad y gyllideb (cymal 23). Ni all ACC ei gadw.
- 42 Rhaid i SAC godi ffioedd mewn perthynas ag arfer swyddogaethau ganddi neu gan ACC yn unol â'r cynllun a luniwyd gan SAC o dan gymal 24. Mewn unrhyw achos, ni chaiff unrhyw ffi a godir gan SAC fod yn fwy na'r gost o arfer y swyddogaethau (ni chaiateir i elfen o elw fod ynddynt).
- 43 Mae cymal 24(4)(c) yn ei gwneud yn ofynnol i SAC osod y cynllun a luniwyd gerbron y Cynulliad ar gyfer ei gymeradwyaeth. Yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Cynulliad, rhaid i SAC gyhoeddi'r cynllun.
- 44 Rhaid i SAC adolygu'r cynllun o leiaf unwaith y flwyddyn. Os yw'r cynllun yn cael ei adolygu neu ei ail-wneud, rhaid iddo gael ei osod gerbron y Cynulliad ar gyfer ei gymeradwyaeth, ac eithrio pan fo isadran (7) yn gymwys - hynny yw pan fo Gweinidogion Cymru yn defnyddio pwerau penodol i ragnodi graddfeydd ffioedd i ddisodli graddfeydd SAC.

## **Cymalau 25 i 28 – yn ymwneud â chynllun blynyddol ynghylch gwaith ac adnoddau**

- 45 Rhaid i ACC a SAC gytuno ar gynllun blynyddol. Bydd y cynllun blynyddol yn nodi'r gwaith a gynlluniwyd ar gyfer ACC a SAC fel ei gilydd, ac yn nodi'r adnoddau sy'n ofynnol i gyflawni'r gwaith hwnnw a gynlluniwyd (cymal 25).
- 46 Er nad yw'r un ohonynt wedi eu rhwymo gan y cynllun blynyddol, rhaid iddynt roi sylw iddo (cymal 28). Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ACC a SAC, wrth iddynt arfer eu swyddogaethau (gan gynnwys darparu'r adnoddau sy'n ofynnol gan ACC), roi'r pwysigrwydd priodol o dan yr holl amgylchiadau i'r cynllun blynyddol. Os bydd rhyw waith nas rhagwelwyd yn codi, yna rhaid pwysu â mesur yn briodol yr angen i gyflawni'r gwaith hwnnw (ac oblygiadau hynny ar adnoddau) yn erbyn y gwaith a gynlluniwyd (a'r adnoddau a ddyrannwyd i'r gwaith hwnnw).
- 47 Rhaid i SAC ac ACC gytuno ar y cynllun blynyddol cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'r gwaith i'w gyflawni ynddi (cymal 25(1)). Unwaith y'i llunir, rhaid ei osod gerbron y Cynulliad (cymal 27) ac fe fydd y Cynulliad o dan ddyletswydd i'w gyhoeddi yn rhinwedd adran 144 o Ddeddf 2006 (fel y'i diwygiwyd gan y Bil hwn).
- 48 Rhaid i'r cynllun blynyddol gynnwys uchafswm yr adnoddau y disgwylir y byddant yn cael eu dyrannu gan SAC i ACC at y diben o gyflawni rhaglen waith

ACC (cymal 25(2)(f)). Cymal 26 yw'r mecanwaith a fydd yn sicrhau bod yr uchafswm o adnoddau y rhagwelir y bydd eu hangen ar gyfer y rhaglen waith a gynlluniwyd gan ACC am y flwyddyn yn y cynllun blynyddol.

- 49 Mae Cymal 26 wedi ei lunio i sicrhau mai ACC fydd yn penderfynu ar ei raglen waith ei hun (i gynnal ei annibyniaeth) a'r ACC sy'n penderfynu uchafswm yr adnoddau y bydd eu hangen i gyflawni'r gwaith hwnnw. Mae cymal 26, felly, yn ddarpariaeth hanfodol o ran cynnal cydbwysedd rhwng sefydlu trefniadau llywodraethu a threfniadau trosolwg ar gyfer ACC, ar y naill law, ac ar y llall, cynnal yr egwyddor nad yw annibyniaeth ACC wrth archwilio yn cael ei rwystro'n amhriodol. Mae cymal 26 yn gwneud hyn wrth roi rhan flaenllaw i'r ACC yn y cyswllt hwn gyda SAC yn gallu ymyrryd, a hynny dim ond os yw cynigion ACC yn afresymol. Yn y cyswllt hwn, bwriedir i'r ymadrodd "yn afresymol" ddwyn ei ystyr gyffredin a bwriedir i'r prawf fod yn un gwrthrychol. Mae hyn yn gwarchod ACC ymhellach, oherwydd nad yw'r prawf yn un sy'n gofyn a yw SAC yn ystyried yn oddrychol a yw rhywbeth yn afresymol. Yn hytrach, mae'r prawf yn gofyn, o dan yr holl amgylchiadau, a yw'r hyn a gynigir, dan brawf gwrthrychol, yn afresymol.

### **Rhan 3: Amrywiol a chyffredinol**

#### **Cymal 29 - Swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol**

- 50 Mae'r cymal hwn yn darparu awdurdod i'r Cynulliad wneud darpariaeth (o fewn ei Reolau Sefydlog) ynghylch sut y mae'r swyddogaethau a nodir yn y Bil sydd dan ofal y Cynulliad (ac eithrio ei swyddogaethau i gymeradwyo deddfwriaeth) i'w harfer. Y bwriad yw y gall y Cynulliad wneud darpariaeth yn ei Reolau Sefydlog, wrth ddibynnu ar y ddarpariaeth hon, fel bod un (neu ragor o'i bwyllgorau) yn gallu arfer y swyddogaethau hynny sy'n ymwneud a goruchwyllo a throsolwg y Cynulliad o ACC. Er enghraifft, gallai'r Cynulliad ddarparu y bydd y swyddogaeth o benodi aelodau anweithredol SAC yn cael ei harfer gan bwllgor y Cynulliad yn hytrach na chan y Cynulliad yn gweithredu mewn Cyfarfod llawn.

#### **Cymal 30 – Indemnio**

- 51 Mae Cymal 30 yn darparu bod unrhyw ddigollediad i drydydd parti am dordyletswydd (er enghraifft mewn contract neu mewn achos o esgeulustra) gan ACC a benodwyd o dan y Bil hwn, person sy'n darparu gwasanaethau i ACC neu SAC (er enghraifft o dan gymal 19), cyn-aelodau neu aelodau presennol SAC neu gyflogeion iddi, i'w godi ar CGC a'i dalu ohoni (felly nid yw'n ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Cynulliad mewn penderfyniad cyllidebol). Gweler hefyd baragraff 8 o Atodlen 3 i'r Bil hwn

#### **Cymal 31 - Gorchmynion**

- 52 Mae'r cymal hwn yn gwneud darpariaeth gyffredinol ynghylch pwerau eraill yn y Bil sy'n galluogi bod is-ddeddfwriaeth yn cael ei gwneud (sef gorchmynion). Mae'r ddeddfwriaeth hon i gael ei gwneud drwy offeryn statudol. Mae isadrannau (2) a (3) yn sefydlu gweithdrefn y Cynulliad ar gyfer gwneud y gorchmynion hynny. Mae isadran (4) yn ddarpariaeth dechnegol sy'n sicrhau

bod pwerau yn y Bil i wneud yr is-ddeddfwriaeth honno yn ddigon llydan i wneud darpariaethau penodol megis darpariaethau atodol.

### **Cymal 32 - Cyfarwyddiadau**

- 53 Mae cymal 32 yn gwneud darpariaeth gyffredinol mewn perthynas â'r pwerau yn y Bil i ddyroddi cyfarwyddiadau.

### **Cymal 33 – Dehongli**

- 54 Mae'r cymal hwn yn darparu ystyr termau amrywiol a ddefnyddir yn y Bil.

### **Cymal 34 – Darpariaethau trosiannol, atodol ac arbed etc**

- 55 Mae cymal 34(1) yn rhoi effaith i Atodlen 3 (darpariaethau trosiannol etc) lle y gellir canfod y prif ddarpariaethau trosiannol etc.
- 56 Mae is-adran (2) yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, i wneud darpariaethau trosiannol, darpariaethau darfodol neu ddarpariaethau arbed etc pellach mewn cysylltiad â'r Bil hwn yn dod i rym neu i roi effaith lawn i'r Bil pan fo wedi ei ddeddfu.
- 57 Cydnabyddir bod y materion y mae'r Bil hwn yn ymwneud â hwy wedi eu cynnwys o fewn cynlluniau deddfwriaethol sydd eisoes yn bodoli (ac yn aml yn rhai cymhleth) a nodir mewn toreth o ddeddfwriaeth arall. Cydnabyddir ymhellach y bydd y tirlun deddfwriaethol hwn hefyd yn newid dros amser wrth i Ddeddfau'r Cynulliad a Deddfau Seneddol pellach, yn ôl y digwydd, gael eu gwneud. Felly mae pŵer Gweinidogion Cymru i wneud gorchymyn o dan gymal 34(2) yn cynnwys pwerau i ddiwygio, diddymu neu ddirymu deddfiadau neu offerynnau uchelfreiniol eraill. Pŵer cyfyngedig yw hwn oherwydd dim ond mewn perthynas â'r Bil hwn neu i roi effaith lawn iddo y gellir ei ddefnyddio. Ni ellir defnyddio'r pŵer hwn at ddibenion eraill.
- 58 Mae Cymal 34(4) yn galluogi gorchymyn o dan is-adran (2) i addasu'r darpariaethau trosiannol etc a nodir yn Atodlen 3. Mae'r ddarpariaeth hon yn ddarpariaeth rhwyd diogelwch i sicrhau y gall addasiadau gael eu gwneud i'r darpariaethau manwl a nodir yn Atodlen 3 pe bai'r amgylchiadau ar yr adeg y daw'r Bil hwn i rym yn mynnu hynny.

### **Cymal 35 – Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol**

- 59 Mae Cymal 35 yn rhoi effaith i Atodlen 4 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol).

## **ATODLEN 1 – CORFFORI SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU**

### ***Rhan 1: Aelodaeth a statws***

#### **Paragraff 1 – Aelodaeth**

60 Mae'r paragraff hwn yn cadarnhau y bydd gan SAC 7 aelod, sef 5 nad ydynt yn gyflogeion i SAC (a elwir yn 'aelodau anweithredol'), ACC ac 1 cyflogai i SAC (a elwir yn 'aelod sy'n gyflogai').

#### **Paragraff 2 – Penodi aelodau anweithredol ac aelod sy'n gyflogai**

61 Penodir aelodau anweithredol ac aelod sy'n gyflogai SAC ar sail teilyngdod ac ni all person gael ei benodi (nac aros yn y swydd) os yw wedi ei anghymhwyso ar y seiliau a nodir yn Rhan 6 o Atodlen 1 – gweler isod.

### ***Rhan 2: Aelodau anweithredol***

#### **Paragraff 4 – Penodi aelodau anweithredol**

62 Y Cynulliad sydd i benodi aelodau anweithredol SAC, ar sail cystadleuaeth deg ac agored.

#### **Paragraff 5 – Penodi cadeirydd ar SAC**

63 Bydd un o 5 aelod anweithredol SAC yn cael ei benodi'n Gadeirydd ar SAC gan y Cynulliad. Cyn gwneud y penodiad hwnnw, rhaid ymgynghori â'r Prif Weinidog. Caniateir ymgynghori â phersonau eraill fel y bo'n briodol.

64 Ni ellir penodi person yn Gadeirydd fwy na dwywaith.

#### **Paragraff 6 – Cyfnod penodi ac ailbenodi**

65 Penodir aelodau anweithredol a Chadeirydd SAC am 4 blynedd ar y mwyaf ac ni ellir penodi person i'r swyddi hyn fwy na dwywaith.

#### **Paragraff 7 – Trefniadau talu cydnabyddiaeth**

66 Caiff y Cynulliad wneud trefniadau ar gyfer talu cydnabyddiaeth ar gyfer Cadeirydd SAC a'r aelodau anweithredol eraill, a chaiff y trefniadau hynny gynnwys cyflog, lwfansau, rhoddion ariannol, a buddion eraill (ond nid trefniadau pensiwn). Ym mhob achos ni chaniateir i'r trefniadau hyn (nac elfennau ohonynt) fod yn seiliedig ar berfformiad.

67 Cyn gwneud y trefniadau ar gyfer y Cadeirydd, rhaid ymgynghori â'r Prif Weinidog (paragraff 7(2)). Rhaid ymgynghori, hefyd, â pherson priodol sydd â throsolwg o benodiadau cyhoeddus (paragraff 9). Caniateir ymgynghori â phersonau eraill fel y bo'n briodol.

- 68 Bydd y symiau sy'n daladwy ar gyfer Cadeirydd SAC yn cael eu codi ar CGC; bydd y symiau sy'n daladwy ar gyfer yr aelodau anweithredol eraill yn cael eu talu gan SAC.

### **Paragraff 8 – Telerau penodi eraill**

- 69 Caiff y Cynulliad benderfynu ar delerau ac amodau eraill sy'n gymwys i aelodau anweithredol SAC, gan gynnwys y Cadeirydd. Caiff y cytundebau neu'r trefniadau hyn gynnwys cyfyngiadau ar swyddi eraill y caniateir i aelod anweithredol eu dal am gyfnod o hyd at ddwy flynedd ar ôl iddynt orffen dal y swydd.
- 70 Cyn gwneud penderfyniad ar y telerau ac amodau hynny rhaid ymgynghori â pherson priodol sydd â throsolwg o benodiadau cyhoeddus y mae'r Cynulliad yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori ag ef (paragraff 9).

### **Paragraffau 10 i 12 – Dod â phenodiad i ben**

- 71 Caiff Cadeirydd ac aelodau anweithredol SAC ymddiswyddo o'u swyddi ar unrhyw adeg drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Cynulliad (paragraff 10).
- 72 Caiff y Cynulliad ddod â phenodiad aelod anweithredol SAC i ben ar y seiliau a nodir ym mharagraff 11(1). Caiff y Cynulliad ddod â phenodiad Cadeirydd SAC i ben (ar y seiliau a nodir ym mharagraff 12(3)), ond dim ond ar ôl ymgynghori â'r Prif Weinidog. Caiff ymgynghori â phersonau eraill hefyd. Nid yw dod â phenodiad y Cadeirydd i ben yn golygu'n awtomatig fod ei benodiad yn aelod anweithredol o SAC yn dod i ben. Os yw aelodaeth anweithredol y person sy'n Gadeirydd yn dod i ben, yna bydd y person hwnnw hefyd yn colli ei swydd fel Cadeirydd.

### ***Rhan 3: Yr Archwilydd Cyffredinol***

#### **Paragraff 13 – Talu cydnabyddiaeth ychwanegol i'r Archwilydd Cyffredinol**

- 73 Yn ychwanegol at y trefniadau a wneir gan y Cynulliad ar gyfer talu cydnabyddiaeth i ACC (gweler cymal 7), caiff SAC hefyd ddarparu bod taliadau ychwanegol yn cael eu gwneud i ACC i dalu costau yr eir iddynt gan y person hwnnw yn rhinwedd ei swydd fel aelod o SAC a phrif weithredwr arni. Bydd y taliadau hynny'n cael eu gwneud gan SAC.

### ***Rhan 4: Aelod sy'n gyflogai***

#### **Paragraff 14 – Penodi**

- 74 Pa bryd bynnag y mae swydd aelod sy'n gyflogai SAC yn wag, rhaid i ACC argymhell person i'r aelodau anweithredol. Yna, rhaid i'r aelodau anweithredol benodi'r person hwnnw, neu berson arall o'u dewis hwy.

#### **Paragraff 15 – Telerau penodi**

- 75 Rhaid i delerau penodi'r aelod sy'n gyflogai gael eu gwneud gan yr aelodau anweithredol, a chânt gynnwys trefniadau talu cydnabyddiaeth ar gyfer

lwfansau, rhoddion ariannol a buddion eraill i dalu costau. Bydd y taliadau hynny yn cael eu gwneud gan SAC. Bydd yr aelod sy'n gyflogai yn parhau i dderbyn ei gyflog fel cyflogai i SAC. Ni fydd darpariaeth ar gyfer pensiwn fel aelod sy'n gyflogai ond os oes gan y person sy'n aelod sy'n gyflogai bensiwn o ganlyniad i fod yn gyflogai i SAC yna bydd gwasanaeth y person hwnnw fel aelod sy'n gyflogai hefyd yn cyfrif tuag at ei hawl i'r pensiwn hwnnw.

- 76 Ni chaiff cyfnod aelod sy'n gyflogai yn y swydd ei ystyried yn doriad yn ei wasanaeth mewn cyflogaeth gan y SAC newydd.

### **Paragraff 16 – Telerau penodi eraill**

- 77 Caiff yr aelodau anweithredol benderfynu ar delerau penodi eraill sy'n gymwys i benodiad aelod sy'n gyflogai; caiff y telerau hynny gynnwys cyfyngiadau ar y swyddi eraill y caiff aelod sy'n gyflogai eu dal yn ystod y penodiad hwnnw ac am gyfnod o hyd at ddwy flynedd ar ôl iddynt orffen dal y swydd honno.

### **Paragraffau 17 i 19 – Dod â phenodiad i ben**

- 78 Caiff yr aelod sy'n gyflogai ymddiswyddo o'r swydd honno (ond parhau'n gyflogai i SAC) ar unrhyw adeg drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r aelodau anweithredol (paragraff 18). Byddai'r penodiad yn dod i ben hefyd ar ddiwedd unrhyw gyfnod penodi a nodir yn ei delerau penodi, neu os yw'n peidio â bod yn gyflogai i SAC.
- 79 Mae paragraff 19 o Atodlen 1 hefyd yn darparu'r broses ar gyfer dod â phenodiad i ben gan yr aelodau anweithredol a'r seiliau dros wneud hynny.

### ***Rhan 5: Cyflogeion***

#### **Paragraffau 20 i 23 – yn ymwneud â phenodi, statws a thalu cydnabyddiaeth**

- 80 Mae gan SAC, yn rhinwedd paragraff 20 o Atodlen 1, bwerau i gyflogi a thalu staff ar y telerau hynny y mae'n eu hystyried yn briodol, ar yr amod bod y gweithdrefnau ar gyfer recriwtio a dethol a'r telerau penodi yn cyfateb yn fras i'r rhai ar gyfer recriwtio staff Llywodraeth Cymru (sy'n weision sifil).
- 81 Bydd yn ofynnol i SAC wneud taliadau o ran buddion blwydd-daliadau a'r costau gweinyddu sy'n gysylltiedig â hwy (paragraff 23(2)).

### ***Rhan 6: Anghymhwysio fel aelod o SAC neu gyflogai iddi***

- 82 Mae Rhan 6 o Atodlen 1 yn rhagnodi'r seiliau lle na ellir penodi person yn aelod o SAC nac yn gyflogai iddi (na pharhau wedi ei benodi felly).
- 83 Mae angen paragraff 24(4) i sicrhau nad yw ACC yn cael ei anghymhwysio rhag bod yn aelod o SAC, o gofio bod ACC wedi ei benodi gan Ei Mawrhydi ar sail enwebiad y Cynulliad.



## **Rhan 7: Rheolau gweithdrefnol**

- 84 Rhaid i SAC wneud rheolau mewnol i reoleiddio ei gweithdrefnau (paragraff 25) Rhaid i'r rheolau ddarparu am gworwm ar gyfer unrhyw gyfarfodydd SAC (paragraff 26), a chânt ddarparu ar gyfer ffurfio pwyllgorau SAC, ac unrhyw is-bwyllgorau, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer rheoleiddio gweithdrefnau pwyllgorau ac is-bwyllgorau (paragraff 27).
- 85 Noder hefyd fod paragraff 3 o Atodlen 3 i'r Bil yn galluogi Cadeirydd SAC i wneud rheolau ar gyfer penderfynu ar fusnes SAC tan y gwneir y set gyntaf o reolau ffurfiol.

## **Rhan 8: Materion arall**

### **Paragraff 29 – Dirprwyo swyddogaethau**

- 86 Gydag eithriadau penodol (fel y'u nodir ym mharagraff 29(5) o Atodlen 1) caiff SAC ddirprwyo unrhyw un o'i swyddogaethau i aelodau, cyflogeion neu bwyllgorau (gan gynnwys is-bwyllgorau) SAC, neu i bersonau sy'n darparu gwasanaethau i SAC. Nid yw dirprwyo swyddogaeth yn effeithio ar gyfrifoldeb y SAC newydd am y gwaith o arfer y swyddogaeth.

### **Paragraff 30 – Cyfrifon SAC**

- 87 Mae'r paragraff hwn yn cadarnhau mai ACC yw swyddog cyfrifyddu SAC. Pennir cyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu yn rhinwedd paragraff 30(2), (5) a (6).

### **Paragraffau 31 a 32 – Archwilio SAC etc**

- 88 Mae'n ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol benodi archwilydd i archwilio cyfrifon SAC, a chadarnhau telerau penodi'r archwilydd hwnnw. Caiff SAC argymhell person i'w benodi, ond rhaid iddi dalu, ym mhob achos, y tâl cydnabyddiaeth y darperir ar ei gyfer yn y penodiad.
- 89 Bydd yr archwilydd yn archwilio ac yn ardystio'r datganiad o gyfrifon (a baratoir gan ACC fel swyddog cyfrifyddu SAC o dan baragraff 30), sydd i'w cyflwyno i'r archwilydd gan Gadeirydd SAC cyn pen 5 mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol ar y mwyaf. Unwaith bod y datganiad o gyfrifon wedi ei archwilio a'i ardystio, rhaid i'r archwilydd osod y cyfrifon (fel y'u hardystiwyd) a'i adroddiad arnynt gerbron y Cynulliad.
- 90 Ymhlith materion eraill mae paragraff 32 yn gwneud darpariaeth ynghylch y pwerau sydd gan yr archwilydd i gasglu gwybodaeth (gan gynnwys dogfennau) sy'n angenrheidiol at y diben o archwilio'r cyfrifon.
- 91 Mae paragraff 32 hefyd yn galluogi'r archwilydd i gynnal ymchwiliadau i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd mewn perthynas â'r defnydd o adnoddau gan ACC a SAC wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau; yn rhoi pŵer i'r archwilydd gasglu gwybodaeth (gan gynnwys dogfennau) at y diben hwnnw ac yn darparu y caiff yr archwilydd osod adroddiad ar ei ganfyddiadau gerbron y Cynulliad, mewn cysylltiad â'r ymchwiliadau hyn.

## **ATODLEN 2 – Y BERTHYNAS RHWNG YR ARCHWILYDD CYFFREDINOL A SAC**

### ***Rhan 1: Adroddiadau a dogfennau***

#### **Paragraff 1 – Adroddiadau**

- 92 Mae cymalau 25 i 28 yn nodi'r trefniadau ynghylch cynllun blynyddol ACC a SAC. Mae paragraff 1 o Atodlen 2 i'r Bil yn nodi'r trefniadau ar gyfer adroddiad blynyddol ar arfer y swyddogaethau, sy'n cynnwys (ymhlith materion eraill) asesiad o'r graddau y cyflawnwyd blaenoriaethau'r cynllun blynyddol.
- 93 Yn ychwanegol at yr adroddiad blynyddol, rhaid i ACC a chadeirydd SAC hefyd lunio dau adroddiad interim bob blwyddyn ariannol ar y gwaith o arfer eu swyddogaethau a rhaid cynnwys asesiad o'r graddau y cyflawnwyd blaenoriaethau'r cynllun blynyddol.
- 94 Rhaid i'r adroddiadau interim a'r adroddiad blynyddol gael eu gosod gerbron y Cynulliad – yr adroddiad blynyddol cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, a'r adroddiadau interim ar ddyddiadau a bennir gan y Cynulliad.

#### **Paragraff 2 – Dogfennau a gwybodaeth**

- 95 Mae paragraff 2 o'r Atodlen hon yn darparu y caiff unrhyw ddogfen neu wybodaeth y mae'n rhaid i berson ei darparu i ACC, neu y caiff ei darparu iddo, ei darparu i SAC. Mae hyn yn ategu'r cyfrifoldeb sydd ar SAC i gael a dal dogfennau a gwybodaeth ar gyfer yr ACC newydd ac i gynnal cofnodion (o dan gymal 21 o'r Bil).

### ***Rhan 2: Person arall, dros dro, yn arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol***

#### **Paragraffau 3 i 12 – Person arall, dros dro, yn arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol**

- 96 Mae paragraff 4 yn nodi'r amgylchiadau pan gaiff person ei ddynodi i arfer swyddogaethau ACC dros dro yn lle ACC. Gwneir y dynodiad dros dro hwnnw gan SAC, gyda chytundeb y Cynulliad, ac ni chaiff fod am fwy na chwe mis o ran yr amgylchiad sy'n sbarduno'r dynodiad. Caniateir i SAC estyn y dynodiad unwaith o ran yr amgylchiad hwnnw (gyda chytundeb y Cynulliad) am chwe mis pellach.
- 97 Rhaid i'r dynodiad dros dro hwnnw fod o berson a gyflogir gan SAC, a fyddai'n parhau i gael ei gyflogi gan SAC ar yr un telerau (paragraffau 6 a 7). Caiff SAC a'r Cynulliad gytuno ar delerau ychwanegol, gan gynnwys telerau talu cydnabyddiaeth, ond rhaid peidio â chynnwys cyflog ychwanegol na phensiwn yn y telerau hynny.



## **ATODLEN 3 – DARPARIAETHAU TROSIANNOL, DARPARIAETHAU ATODOL A DARPARIAETHAU ARBED**

### ***Rhan 1 – Yr Archwilydd Cyffredinol***

#### **Paragraff 1 – Yr Archwilydd Cyffredinol blaenorol i barhau yn Archwilydd Cyffredinol**

- 98 Golyga paragraff 1 os yw person yn dal swydd ACC ar y 'diwrnod penodedig' fod y person hwnnw i'w drin ar ac ar ôl y diwrnod hwnnw fel pe bai wedi cael ei benodi o dan Ran 1 o'r Bil. Bydd hyn yn sicrhau parhad rhwng y gyfundrefn statudol sydd eisoes yn bodoli a'r gyfundrefn statudol newydd o dan y Bil o ran ACC.
- 99 Diffinnir y term 'diwrnod penodedig' ym mharagraff 1(5) a'i ystyr yw'r diwrnod y daw'r paragraff hwn i rym.
- 100 Mae paragraff 1(3) yn darparu, yn yr achos hwn, fod trefniadau talu cydnabyddiaeth o dan gymal 7 o'r Bil i'w gwneud gan y Cynulliad (ar ôl ymgynghori â'r Prif Weinidog). Rhaid gwneud hyn cyn y diwrnod penodedig. Bydd hyn yn sicrhau bod y person sy'n dal swydd ACC yn ei dal ar y telerau ac amodau, gan gynnwys telerau yn ymwneud â thalu cydnabyddiaeth, a bennir yn unol â darpariaethau'r Bil hwn.
- 101 Oherwydd bod y Bil yn darparu bod cyfnod swydd ACC a benodir o dan y Bil hwn yn gyfnod o 8 mlynedd, mae paragraff 1(2)(b) yn darparu os oes ACC yn y swydd ar y diwrnod penodedig, bydd cyfnod swydd y person hwnnw am 8 mlynedd ond yn llai unrhyw gyfnod o amser y bu'n ACC cyn y diwrnod penodedig. Effaith hyn yw bod Person A, os yw'n ACC cyn y diwrnod penodedig ac os yw'n parhau i ddal y swydd honno ar y diwrnod penodedig, yna ymdrinnir â Pherson A fel ACC fel pe bai wedi ei benodi o dan y Bil hwn. Os yw cyfnod swydd Person A yn gyfnod o 8 mlynedd (fel y mae'r Bil hefyd yn ei ddarparu) ond bod Person A eisoes wedi gwasanaethu am 2 flynedd yn y swydd, yna ar y diwrnod penodedig bydd cyfnod y person hwnnw yn ACC yn cael ei leihau i gyfnod o 6 mlynedd.

#### **Paragraff 2 – Arbedion ar gyfer archwilwyr a benodwyd o dan adran 13 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004**

- 102 O ganlyniad i'r newidiadau a wneir i adran 13 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn rhinwedd cymal 11 o'r Bil hwn, mae'n ofynnol cael paragraff 2 yn Atodlen 3 i'r Bil hwn.
- 103 Mae'r paragraff hwn yn darparu y bydd penodiad a wnaed gan ACC o archwilydd cyrff llywodraeth leol (yn unol â'r adran 13 bresennol o Ddeddf 2004), yn parhau tan ddiwedd y cyfnod penodi, yn hytrach na'i fod yn dod i ben pan ddaw darpariaethau perthnasol y Bil i rym. Hefyd cedwir effaith weithredol y penodiad, gan gynnwys y cynllun ar gyfer ffioedd y caniateir eu codi a chasglu a dal gwybodaeth berthnasol; mae hyn yn sicrhau bod y gwaith sy'n

cael ei wneud gan yr archwilwyr a benodwyd gan ACC yn gallu parhau o dan ddarpariaethau presennol Deddf 2004, o fewn y telerau penodi.

## **Rhan 2 – SAC**

### **Paragraff 3 – Rheolau gweithdrefnol SAC cyn i reolau gael eu gwneud o dan baragraff 25 o Atodlen 1**

104 Mae'r rheolau gweithdrefnol ffurfiol cyntaf i gael eu gwneud gan SAC (o dan baragraff 25 o Atodlen 1 i'r Bil). Cyn i'r rheolau hynny gael eu gwneud ni fydd rheolau yn eu lle i lywodraethu trefn busnes SAC. Oherwydd hyn, mae'r paragraff hwn yn darparu y bydd busnes (gan gynnwys gwneud y set gyntaf o reolau) yn cael ei gynnal yn unol â'r gweithdrefnau a bennir gan Gadeirydd SAC. Cyn gynted ag y bydd y rheolau cyntaf wedi eu gwneud bydd y busnes wedyn yn cael ei gynnal yn unol â'r ddarpariaeth a wneir yn y rheolau hynny.

## **Rhan 3 – Trosglwyddo swyddogaethau etc**

### **Paragraff 4 – Trosglwyddo staff**

105 Oherwydd y bydd y Bil yn trosglwyddo cyfrifoldebau am gyflogi staff oddi wrth yr ACC presennol i'r SAC newydd, mae paragraff 4 yn rhoi effaith i drosglwyddo hawliau a rhwymedigaethau cyflogaeth y staff hynny.

### **Paragraffau 5 a 6 – Trosglwyddo eiddo arall, hawliau a rhwymedigaethau**

106 Yn yr un modd, mae paragraffau 5 a 6 yn gwneud darpariaeth ynglŷn â throsglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau oddi wrth yr ACC presennol i'r SAC newydd. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith y caiff swyddogaethau penodol ACC eu trosglwyddo i'r SAC newydd.

### **Paragraff 7 – Atebolrwydd troseddol yr Archwilydd Cyffredinol**

107 Mewn cysylltiad â pharagraff 5 (mewn perthynas â throsglwyddo eiddo, hawliau neu rwymedigaethau sydd wedi eu trosglwyddo i SAC), mae paragraff 7 yn darparu ar gyfer trosglwyddo unrhyw atebolrwydd troseddol a all fod gan ACC mewn cysylltiad â'r eiddo, yr hawliau neu'r rhwymedigaethau hynny i SAC.

## **ATODLEN 4 – DIWYGIADAU CANLYNIADOL A DIDDYMIADAU**

108 Mae'r Atodlen hon yn nodi'r diddymiadau a'r addasiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol i roi effaith i'r Bil. Mae'r rhain yn sicrhau (er enghraifft) bod cyfeiriadau at y SAC newydd, fel y bo'n briodol, mewn deddfwriaeth lle'r oedd y cyfeiriadau blaenorol at ACC yn unig.

109 Gwneir diwygiadau canlyniadol a diddymiadau i'r canlynol –

- Deddf Blwydd-daliadau 1972;
- Deddf Cyllid 1989;
- Deddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992;
- Deddf Addysg 1997;

- Deddf Llywodraeth Cymru 1998;
- Deddf Llywodraeth Leol 1999;
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000;
- Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004;
- Deddf Llywodraeth Cymru 2006;
- Deddf Cwmnïau 2006;
- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009;
- Deddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009; a
- Deddf Cydraddoldeb 2010.

## **ATODIAD B - Rhestr Ddosbarthu'r Ymgynghoriad**

Prif Weithredwyr Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol Cymru;  
Prif Weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;  
Prif Weithredwyr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru;  
Prif Weithredwyr Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd Cymru;  
Prif Swyddogion Tân Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru;  
Prif Weithredwyr Awdurdodau Heddlu Cymru/Prif Gwnstabiliaid Cymru;  
Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth Prawf Cymru;  
Prif Weithredwyr Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd Cymru;  
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru;  
Comisiynydd Plant Cymru;  
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;  
Prif Weithredwr Cyngor Cefn Gwlad Cymru;  
Ysgrifennydd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru;  
Ysgrifennydd y Comisiwn Ffiniau i Gymru;  
Prif Weithredwr Chwaraeon Cymru;  
Cyfarwyddwr Comisiwn Coedwigaeth Cymru;  
Prif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru;  
Prif Weithredwr Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru;  
Cyfarwyddwr Cyffredinol Amgueddfa Cymru;  
Llyfrgellydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru;  
Prif Weithredwr Bwrdd yr Iaith Gymraeg/Comisiynydd y Gymraeg;  
Swyddog Cyfrifyddu Bwrdd Ardollau Cymru;  
Ysgrifennydd Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru;  
Cyfarwyddwr Canolfan Iechyd Cymru;  
Prif Weithredwr Cyngor Gofal Cymru;  
Cyfarwyddwr Cyffredinol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru;  
Cadeiryddion Cyrff Llywodraethu Addysg Bellach ac Uwch;  
Prif Weithredwr Un Llais Cymru;  
Archwilydd Cyffredinol Cymru;  
Prif Weithredwr y Cyngor Adrodd Ariannol;  
Y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol;  
Archwilydd Cyffredinol yr Alban;

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Gogledd Iwerddon;  
Prif Weithredwr y Comisiwn Archwilio;  
Cyfarwyddwr Cydffederasiwn y GIG yng Nghymru;  
Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Cymru;  
Prif Weithredwr Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru;  
Prif Arolygydd Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru;  
Ysgrifennydd Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol;  
Aelodau'r Cynulliad;  
Swyddfa Cymru;  
Trysorlys Ei Mawrhydi;  
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder;  
Yr Adran Gwaith a Phensiynau;  
Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol;  
Y Swyddfa Gartref;  
Llywodraeth yr Alban;  
Cynulliad Gogledd Iwerddon;  
Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth;  
Pennaeth Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig, Cymru;  
Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr, Cyfarwyddwr Cymru;  
Sefydliad Siartredig y Cyfrifwyr Rheoli.

## **ATODIAD C – Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru (Rheol Sefydlog 26.6(viii))**

### **Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghylch a yw'n briodol codi'r symiau y darperir ar eu cyfer ym Mil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) ar Gronfa Gyfunol Cymru**

Gan fod y Bil yn cynnwys darpariaethau ar gyfer codi am wariant ar Gronfa Gyfunol Cymru (y Gronfa), mae Rheol Sefydlog 26(6)(viii) Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil gynnwys adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol, sy'n amlinellu ei farn ynghylch a yw'n briodol codi symiau o'r fath ar y Gronfa. Rwy'n llunio'r adroddiad hwn yn unol â'r gofyniad hwnnw ar ôl gweld y darpariaethau perthnasol, yn ôl Llywodraeth Cymru, sef:

- a) cymal 7, Talu cydnabyddiaeth;
- b) cymal 30, Indemnïo;
- c) Atodlen 1, paragraff 7, Talu cydnabyddiaeth i Gadeirydd SAC;
- ch) Atodlen 3, paragraff 6, Trosglwyddo eiddo arall a hawliau a rhwymedigaethau eraill;
- d) Atodlen 3 paragraff 9, Indemnïo.

Nid wyf wedi gweld y Bil cyfan na'i Femorandwm Esboniadol, felly mae fy adroddiad wedi'i gyfyngu i'r darpariaethau a restrir uchod a'm dehongliad i o'u heffeithiau a'u dibenion. Mae'n seiliedig i ryw raddau ar yr hyn y mae dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru ar y Bil drafft yn ei ddweud am dalu cydnabyddiaeth ac indemnïo.

Wrth lunio'r adroddiad hwn, dylwn egluro hefyd fy mod wedi fy nghyfyngu fy hun i ystyried a yw'n briodol i'r symiau hynny gael eu codi ar y Gronfa yn uniongyrchol o dan ddarpariaethau'r Bil, yn hytrach na thrwy'r darpariaethau cyflenwi arferol a nodir yn Rhan 5 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Nid wyf yn ymdrin â rhinweddau'r amcanion polisi ehangach sy'n sail i ddarpariaethau o'r fath yn yr adroddiad hwn, oherwydd credaf y byddai gwneud hynny'n dylanwadu ar ystyriaeth y Cynulliad o'r Bil, a hynny mewn modd amhriodol.

Yn ôl Deddf 2006, sy'n disgrifio'r trefniadau cyllid ar gyfer Gweinidogion Cymru a phersonau perthnasol eraill, dim ond ar sail penderfyniad Cyllideb a basiwyd gan y Cynulliad y gellir talu symiau allan o'r Gronfa fel arfer. Mae symiau a godir yn uniongyrchol yn eithriad i'r arfer hwn, ac er mwyn sicrhau bod trefniadau penderfyniadau'r Gyllideb yn parhau'n ddilys, dim ond mewn amgylchiadau arbennig, sy'n golygu bod trefn benderfyniadau'r Gyllideb yn amhriodol, y dylid darparu eithriadau o'r fath. Mae amgylchiadau o'r fath yn cynnwys yr angen i osgoi dylanwad gwleidyddol dros y ffordd y mae swyddi cyfansoddiadol yn gweithredu. Mae'n amlwg na ddylai unrhyw blaid wleidyddol gyfaddawdu annibyniaeth swyddi o'r fath. Enghraifft arall o amgylchiadau eithriadol yw'r angen i ddarparu cyllid wedi'i ddiogelu ar gyfer pethau fel trefniadau digolledu statudol. Ni fyddai trefniadau o'r fath yn gyflawn oni bai fod y cyllid ar eu cyfer wedi'i ddiogelu.

Mae cymal 7 yn darparu y caiff symiau sy'n cael eu talu fel cydnabyddiaeth i'r Archwilydd Cyffredinol eu codi ar y Gronfa yn uniongyrchol. Mae'n ymddangos, felly, mai ailadrodd paragraff 6(5) o Atodlen 8 i Ddeddf 2006 y mae'n ei wneud, i bob pwrpas. Yn wir, deallaf mai osgoi dylanwad gwleidyddol ar swydd yr Archwilydd Cyffredinol oedd diben gwneud y ddarpariaeth honno, drwy amrywio taliadau cydnabyddiaeth yr Archwilydd Cyffredinol. Am y rheswm hwnnw, credaf ei bod yn briodol codi am daliadau cydnabyddiaeth yr Archwilydd Cyffredinol ar y Gronfa.

Mae cymal 30 yn darparu y caiff symiau sydd i'w talu gan berson sydd wedi ei indemnio, megis Archwilydd Cyffredinol, eu codi ar y Gronfa. Mae'n ymddangos mai ailadrodd ac ymhelaethu ar baragraff 9(1) o Atodlen 8 i Ddeddf 2006 y mae hwn yn ei wneud, i bob pwrpas, gan ymestyn i gynnwys y SAC newydd. Deallaf mai sicrhau bod cyllid wedi'i ddiogelu ar gael ar gyfer yr indemnïad sydd yn y paragraff oedd diben y ddarpariaeth yn Neddf 2006. Am y rheswm hwnnw, credaf ei bod yn briodol i symiau sydd i'w talu o dan yr indemnïad gael eu codi ar y Gronfa.

Mae Atodlen 1, paragraff 7 yn darparu ar gyfer talu cydnabyddiaeth i Gadeirydd arfaethedig y corff corfforaethol arfaethedig, SAC. Deallaf o ddogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru ar y ddarpariaeth ddrafft (paragraff 7 o Atodlen 1 i'r Bil drafft dyddiedig 15 Mawrth 2012), y mae'n ymddangos bod y ddarpariaeth hon yn ei ailadrodd, i bob pwrpas, mai'r rheswm dros godi tâl cydnabyddiaeth o'r fath ar y Gronfa yn uniongyrchol yw "gwarchod annibyniaeth swydd yr ACC ymhellach rhag dylanwad gwleidyddol amlwg". Rwyf o'r farn fod osgoi dylanwad gwleidyddol ar yr Archwilydd Cyffredinol, ac ar Gadeirydd arfaethedig SAC, o ran hynny, yn rheswm sy'n cyfiawnhau codi'r tâl cydnabyddiaeth yn uniongyrchol ar y Gronfa.

Mae Atodlen 3, paragraff 6 yn darparu ar gyfer digolledu yn gysylltiedig â'r bwriad i drosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau oddi wrth yr Archwilydd Cyffredinol i'r SAC corfforaethol. Yn ôl paragraff 6(8) dylid codi symiau digolledu o'r fath ar y Gronfa. Mae codi yn y ffordd yma yn diogelu'r cyllid ar gyfer y ddarpariaeth ddigolledu, ac felly rwyf o'r farn ei fod yn briodol.

Mae Atodlen 3, paragraff 9 yn darparu parhad o ran cwmpas y darpariaethau indemnio a grybwyllwyd uchod mewn perthynas â chymal 30. Am y rhesymau a nodwyd uchod, credaf ei bod yn briodol codi'r symiau sydd i'w talu o dan y darpariaethau indemnio ar y Gronfa.

**Huw Vaughan Thomas**  
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**  
**Mehefin 2012**

Paratowyd y ddogfen hon gan gyfreithwyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn rhoi gwybodaeth a chynghor i Aelodau Cynulliad a'u cynorthwywyr ynghylch materion dan ystyriaeth gan y Cynulliad a'i bwyllgorau ac nid at unrhyw ddiben arall. Gwnaed pob ymdrech i sicrhau fod yr wybodaeth a'r cynghor a gynhwysir ynddi yn gywir, ond ni dderbynnir cyfrifoldeb am unrhyw ddibyniaeth a roddir amynt gan drydydd partion.

This document has been prepared by National Assembly for Wales lawyers in order to provide Assembly Members and their staff with information and advice in relation to matters under consideration by the Assembly and its committees and for no other purpose. Every effort has been made to ensure that the information and advice contained in it are accurate, but no liability is accepted for any reliance placed on them by third parties.

## **Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)**

### **Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth**

#### **GORCHMYNION**

1. Mae'r Bil, fel y bwriedir ei gyflwyno, yn rhoi'r pwerau a ganlyn i Weinidogion Cymru i wneud y gorchmynion a ganlyn:-

##### **1.1 .Adran 19(7) - Darparu gwasanaethau**

O dan yr adran hon, gellir gwneud trefniadau i dderbyn gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol a allai fod eu hangen ar Swyddfa Archwilio Cymru neu Archwilydd Cyffredinol Cymru i gyflawni eu swyddogaethau priodol. Gellir gwneud y trefniadau hyn, ymysg eraill, gyda chorff cyfrifwyr Ewropeaidd cymeradwy. Diffinnir "corff cyfrifwyr Ewropeaidd cymeradwy" fel corff o gyfrifwyr a sefydlwyd yn y Deyrnas Unedig neu wladwriaeth arall yn AEE ac a gymeradwywyd am y tro gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn.

##### **Gweithdrefn - fel y darparwyd gan adran 31- Negyddol.**

Swyddogaethau gweinyddol yw hyn ac ystyrir bod y weithdrefn negyddol yn briodol.

##### **1.2. Adran 34 - Darpariaethau trosiannol, atodol ac arbed etc**

Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth atodol, trosiannol, darfodol, canlyniadol, arbed, achlysurol neu ddarpariaethau eraill fel y gwelant yn dda mewn cysylltiad â'r Bil neu i weithredu'r Bil yn llawn.

Mae'r pŵer yn cynnwys diwygio, diddymu a dirymu unrhyw ddeddfiad (diffinnir yn adran 33 fel unrhyw ddeddfiad gan gynnwys y Bil, unrhyw Ddeddf arall y Cynulliad neu Fesur y Cynulliad o is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan Ddeddf y Cynulliad, Mesur y Cynulliad neu fel arall).

##### **Gweithdrefn - fel y darparwyd gan adran 31 - Cadarnhaol.**

O ystyried natur y pŵer, ystyrir bod y weithdrefn gadarnhaol yn briodol.

##### **1.3. Adran 36 - Cychwyn**

Heblaw am adrannau 31, 36 a 37, cychwynnir y Bil drwy orchymyn gan Weinidogion Cymru.

Fel sy'n arferol, ni ragnodir gweithdrefn ar gyfer gwneud gorchymyn cychwyn.



## RHEOLIADAU

2. Nid yw'r Bil yn cynnwys unrhyw bwerau i wneud rheoliadau.

Ceir gwelliant technegol i adran 39 (rheoliadau cyfrifon ac archwiliadau) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r gwelliant hwn, ymysg pethau eraill, yn rhoi'r pŵer gwneud rheoliadau *presennol* (yn ymwneud â chadw cyfrifon ac ati gan awdurdodau lleol) ar Weinidogion Cymru yn hytrach na'r Cynulliad. Gwneir newid canlyniadol i adran 39(5) (costau yr eir iddynt mewn cysylltiad â throedd o dan y rheoliadau), sy'n disodli cyfeiriad presennol at "archwilydd" gyda chyfeiriad at "Archwilydd Cyffredinol Cymru neu Swyddfa Archwilio Cymru".

Y Gwasanaethau Cyfreithiol  
28 Medi 2012

# Eitem 6.1

John Griffiths AC /AM  
Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy  
Minister for Environment and Sustainable Development



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref  
Ein cyf/Our ref

Lord Dafydd Elis-Thomas AM  
Chair of the Environment and  
Sustainability Committee

27 September 2012

*Arwydd Dafydd,*

Further to my letter of 17 August 2012, please find attached a draft of the second order relating to the Natural Resources Body for Wales.

As I indicated in my previous letter, this is a working draft of the order which is being provided in English only at this stage. The draft order will need to undergo further revision and checking before the order is laid in the Assembly. It will also need to take account of issues raised in the responses to the supplementary public consultation which is due to end on 5 October.

I should also stress that some aspects are subject to change in light of ongoing discussions with Defra and other UK Government departments on drafting; in particular on powers of direction, and some of the cross border arrangements for water and flood risk management functions. We are still drafting the provisions on plant health, working closely with Forestry Commission GB, and any appropriate provisions will be included in the draft order which is laid. We are also looking at the best way of ensuring that the body comes under the terms of the Welsh Language Act 1993 and Equality Act 2010.

Nonetheless the order is essentially complete and should give your Committee a very good feel for the duties and powers that we intend to give the body, and how we intend to deliver the legal changes. I hope this will give you an opportunity to be better informed as to our intentions and to provide comments on the order. I would welcome your Committee's initial views.

I also attach a covering note to explain how the order has been drafted. The draft order that will be laid will of course be accompanied by an Explanatory Memorandum.

The covering note also briefly describes other legal provisions that will be required, some of which will need to be made via UK Government orders. We are discussing the best approach to deliver these changes with the Wales Office, Defra and other departments.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*

**Tudalen 200**

English Enquiry Line 0845 010 3300  
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400  
Correspondence: John.Griffiths@wales.gsi.gov.uk  
*Printed on 100% recycled paper*

As suggested in my earlier letter, it would be extremely useful if you could provide any preliminary comments or recommendations for changes by 18 October so that there is sufficient time to consider them prior to the draft order being laid.

I am copying this letter to the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, should they also wish to take the opportunity to consider the draft order at this stage.

*Dymunador gorau,*



**John Griffiths AC / AM**

Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy  
Minister for Environment and Sustainable Development

# Atodiad i'r Agenda

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



## **Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Adroddiad: CLA(4)-19-12 : 24 Medi 2012**

**Mae'r Pwyllgor yn cyflwyno'r adroddiad a ganlyn i'r Cynulliad:**

**Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3**

### **Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol**

**CLA169 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) (Diwygio) 2012**

**Gweithdrefn: Negyddol.**

**Fe'u gwnaed ar: 17 Gorffennaf 2012.**

**Fe'u gosodwyd ar: 18 Gorffennaf 2012.**

**Yn dod i rym ar: 1 Medi 2012.**

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Lesley Griffiths AC, i wahodd ei sylwadau ar gywirdeb y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau.

**CLA172 – Gorchymyn Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (Swyddogaethau Atodol a Dirymu) 2012**

**Gweithdrefn: Negyddol.**

**Fe'i gwnaed ar: 18 Gorffennaf 2012.**

**Fe'i gosodwyd ar: 19 Gorffennaf 2012.**

**Yn dod i rym ar: 31 Awst 2012.**

**CLA173 – Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) 2012**

**Gweithdrefn: Negyddol.**

**Fe'u gwnaed ar: 18 Gorffennaf 2012.**

**Fe'u gosodwyd ar: 19 Gorffennaf 2012.**

**Yn dod i rym ar: 1 Medi 2012.**

**CLA175 – Gorchymyn Mesur Tai (Cymru) 2011 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) 2012**

**Gweithdrefn: Negyddol.**

**Fe'i gwnaed ar: 9 Awst 2012.**

**Fe'i gosodwyd ar: 13 Awst 2012.**

**Yn dod i rym ar: 3 Medi 2012.**

**CLA176 – Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2012**

Gweithdrefn: Negyddol.

Fe'i gwnaed ar: 6 Medi 2012.

Fe'i gosodwyd ar: 11 Medi 2012.

Yn dod i rym ar: 5 Hydref 2012.

**CLA177 – Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Digolledu) (Cymru) (Rhif 2) 2012**

Gweithdrefn: Negyddol.

Fe'u gwnaed ar: 6 Medi 2012.

Fe'u gosodwyd ar: 11 Medi 2012.

Yn dod i rym ar: 5 Hydref 2012.

**CLA178 – Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) (Diwygio) 2012**

Gweithdrefn: Negyddol.

Fe'u gwnaed ar: 15 Medi 2012.

Fe'u gosodwyd ar: 19 Medi 2012.

Yn dod i rym ar: 10 Hydref 2012.

Gohiriwyd ystyried CLA178 – Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) (Diwygio) 2012 tan y cyfarfod ar 8 Hydref 2012 er mwyn caniatáu amser i ystyried gwybodaeth ychwanegol.

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

**CLA170 – Rheoliadau Mangreoedd etc Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2012**

Gweithdrefn: Cadarnhaol.

Fe'u gwnaed ar: heb ei nodi.

Fe'u gosodwyd ar: heb ei nodi.

Yn dod i rym ar: 17 Hydref 2012.

**Offerynnau sy'n cynnwys materion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3**

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol**

**CLA171 – Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2012**

Gweithdrefn: Negyddol.

Fe'u gwnaed ar: 17 Gorffennaf 2012.

Fe'u gosodwyd gerbron y Senedd ar: 19 Gorffennaf 2012.

Fe'u gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar: 19 Gorffennaf 2012.

Yn dod i rym ar: 1 Hydref 2012.

**CLA174 – Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) 2012**

Gweithdrefn: Negyddol.

**Fe'u gwnaed ar:** 20 Gorffennaf 2012.

**Fe'u gosodwyd gerbron y Senedd ar:** 25 Gorffennaf 2012.

**Fe'u gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar:** 25 Gorffennaf 2012.

**Yn dod i rym ar:** 16 Awst 2012.

## **Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

Dim

Derbyniodd y Pwyllgor yr Adroddiadau o dan Reol Sefydlog 21.2 a Rheol Sefydlog 21.3 ar yr offerynnau statudol hyn, sydd wedi'u hatodi yn Atodiadau 1 – 2.

### **Unrhyw fater arall**

#### **Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog: y dull o weithio a phynciau i'w craffu arnynt**

Nododd y Pwyllgor raglen waith bosibl y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog ar gyfer y dyfodol.

#### **Ymchwiliadau'r Pwyllgor: Ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru**

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan yr Arglwydd Carlile o Aberriw C.B.E., C.F.

#### **Y Pwyllgor Busnes – Adolygiad o Strwythur y Pwyllgorau a'r Amserlen**

Nododd y Pwyllgor lythyr gan y Llywydd at y Cadeirydd ynghylch gweithredu strwythur presennol Pwyllgorau.

#### **Prosiect ymchwil rhyngwladol ynghylch reoli proses ddeddfwriaethol yr UE: y System Rhybudd Cynnar**

Nododd y Pwyllgor ymateb y Cadeirydd i gais Dr Karolina Boronska-Hryniewiecka (Y Sefydliad Gwyddorau Gwleidyddol, Prifysgol Wroclaw) am wybodaeth am brofiad y Cynulliad Cenedlaethol o'r broses o lywodraethu ar sawl lefel a rheoli sybsidiaredd o dan y System Rhybudd Cynnar a gyflwynwyd gan Gytuniad Lisbon.

Yn unol â Rheol Sefydlog 17.42(vi), penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod er mwyn trafod y dystiolaeth a gyflwynwyd hyd yma ynghylch yr ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru a derbyn yr Adroddiad ar ymweliad astudio'r Pwyllgor â Gogledd Iwerddon a'r Adroddiad ar Fil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru).

**David Melding AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**24 Medi 2012**

## **Atodiad 1**

### **Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**(CLA(4)-19-12)**

**CLA171**

### **Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Teitl: Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) Diwygio 2012**

**Gweithdrefn: Negyddol**

Mae'r rheoliadau cyfansawdd hyn yn diwygio Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) er mwyn disodli rheoliadau 13 a 14(2), a hynny er mwyn sicrhau bod darpariaethau Cyfarwyddyd 2008/98/EC (y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff ddiwygiedig), sy'n ymwneud â chasglu gwastraff ar wahân, yn cael eu trosi'n gywir.

**Materion technegol: craffu**

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 (ix) mewn perthynas â'r offeryn hwn: nad yw wedi'i wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.

**Rhinweddau: craffu**

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 (ii) mewn perthynas â'r offeryn hwn: mae'n codi materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

1. Troswyd darpariaethau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff ddiwygiedig sy'n ymwneud â chasglu gwastraff papur, metal, plastig a gwydr ar wahân gan Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011.

Roedd Rheoliad 13 (2) o'r Rheoliadau hynny'n darparu bod casgliadau cymysg (sef casglu'r eitemau dan sylw gyda'i gilydd ond eu casglu ar wahân i eitemau gwastraff o ffynonellau gwastraff y bwriedir eu hailgylchu) yn un math o gasglu ar wahân.

Cafodd achos adolygiad barnwrol ei ddwyn er mwyn herio'r trosiad hwn, yn benodol mewn perthynas â'r ddarpariaeth sy'n ymwneud â gwastraff cymysg. Derbyniodd Gweinidogion Cymru ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig nad oedd rheoliad 13 gwreiddiol yn gweithredu gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff ddiwygiedig mewn perthynas â chasglu ar wahân mewn modd priodol, a bod angen diwygio Rheoliadau 2011 yn sgîl hynny.



Ym mis Rhagfyr 2011, gohiriwyd yr achos tan 13 Mehefin 2012, er mwyn rhoi cyfle i Weinidogion Cymru ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ymgynghori ar gynigion i ddiwygio Rheoliadau 2011.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan bod yr offeryn hwn wedi'i osod cyn y toriad, yn unol â chytundeb a wnaed gyda'r hawlwyd a'r partion eraill sydd â diddordeb i ymestyn cyfnod gohirio'r adolygiad barnwrol o 13 Mehefin i 25 Gorffennaf, a hynny er mwyn rhoi cyfle i Weinidogion Cymru ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig i osod rheoliadau diwygio cyn y dyddiad hwnnw.

Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi unrhyw wybodaeth bellach yn nodi a yw'r hawlwyd a'r partion eraill sydd â diddordeb yn yr achos hwn o ymglyfreitha wedi'u bodloni bod y Rheoliadau diwygiedig yn trosi'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff ddiwygiedig yn gywir.

2. Mae Rheoliad 2 (5) yn darparu ar gyfer mewnosod rheoliad 49 newydd yn Rheoliadau 2011. Byddai'r rheoliad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol adolygu gweithrediad ac effaith y Rheoliadau hynny mewn perthynas â Lloegr o fewn 5 mlynedd ar ôl 1 Hydref 2012, ac o fewn pob cyfnod o 5 mlynedd ar ôl hynny. Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn nodi pam nad ystyriwyd hi'n briodol i Weinidogion Cymru gynnal adolygiad.

**David Melding AC**  
**Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**24 Medi 2012**

**Ymatebodd y Llywodraeth fel a ganlyn:**

### **Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2012**

1. O dan Reol Sefydlog 21.2 (ix) - nad yw'r rheoliadau eu gwneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae'r rheoliadau cyfansawdd hyn yn berthnasol i Gymru a Lloegr ac yn gorfod cael eu cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Senedd. Felly, ni ystyrir ei bod yn rhesymol ymarferol i'r Offeryn hwn gael ei wneud yn ddwyieithog.

2. O dan Reol Sefydlog 21.3 (ii) - ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad. Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi unrhyw wybodaeth bellach sy'n nodi a yw'r hawlwyd a'r partion eraill sydd â diddordeb yn yr achos hwn o ymglyfreitha wedi'u bodloni bod y Rheoliadau diwygiedig yn trosi'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff ddiwygiedig yn gywir. Cafodd yr hawlwyd a'r partion eraill sydd â diddordeb gopi o'r rheoliadau drafft ar 4 Gorffennaf 2012. Nododd yr hawlwyd mewn

llythyr ar 13 Gorffennaf 2012 nad oeddent yn fodlon ar y rheoliadau diwygiedig, ond ni roddwyd rhesymau sylweddol dros eu safbwynt. Darparwyd rhesymau sylweddol mewn llythyr ar 16 Awst, ar ôl gosod y rheoliadau. Felly, byddai ond wedi bod yn bosibl i'r Memorandwm Esboniadol ddangos y ffeithiau moel nad oedd yr hawlwr yn fodlon. Mewn unrhyw achos ni fyddai wedi bod yn briodol deddfu yn amodol ar gymeradwyaeth gan yr hawlwr neu'r partïon eraill sydd â diddordeb. Diben y ddeddfwriaeth oedd cywiro'r hyn y gwnaethom ei gydnabod fel diffyg yn rheoliad 13 gwreiddiol, sef nad oedd yn gweithredu gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff ddiwygiedig mewn perthynas â chasglu ar wahân mewn modd priodol. Roedd y ffaith nad oedd yr hawlwr yn fodlon ar y diwygiadau yn berthnasol i'r adolygiad barnwrol sy'n mynd rhagddo, ond nid i'r broses o wneud y ddeddfwriaeth hon.

3. O dan Reol Sefydlog 21.3 (ii) - ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad. Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn nodi pam nad ystyriwyd hi'n briodol i Weinidogion Cymru gynnal adolygiad.

Polisi cyfredol Llywodraeth y DU yw cynnwys cymal ym mhob rheoliad sy'n gofyn am adolygiad o fewn amserlen benodol. Nid oes gan Lywodraeth Cymru bolisi tebyg yng Nghymru. Gall Gweinidogion Cymru adolygu'r rheoliadau unrhyw bryd. O ganlyniad, roedd cynnwys y ddarpariaeth am adolygiad yn yr offeryn yn berthnasol i Loegr yn unig.

## **Atodiad 2**

### **Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**(CLA(4)-19-12)**

**CLA174**

### **Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Teitl: Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau  
(Diwygio) 2012**

#### **Gweithdrefn: Negyddol**

Mae'r rheoliadau cyfansawdd hyn yn diwygio Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (O.S. 2010/490) (y "Rheoliadau Cynefinoedd"). Maent yn gosod dyletswyddau newydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru, Natural England, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, y Comisiwn Coedwigaeth, awdurdodau lleol ac, o ran yr ardal forol, awdurdodau cymwys eraill i gymryd camau i warchod, cynnal ac ailsefydlu cynefinoedd i adar gwyllt. Mae'r rheoliadau yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cymwys i ddefnyddio pob ymdrech resymol i osgoi llygredd neu ddirywiad yn y cynefinoedd hyn. Mae'r rheoliadau hefyd yn gosod dyletswydd ar unrhyw awdurdod cymwys, wrth arfer ei swyddogaethau, i roi sylw i ofynion Cyfarwyddeb 2009/147/EC ("y Gyfarwyddeb Adar Gwyllt") a Chyfarwyddeb 92/43/EEC ("y Gyfarwyddeb Cynefinoedd").

Mae'r rheoliadau hefyd yn gwneud nifer o newidiadau pellach i Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 er mwyn sicrhau bod rhai darpariaethau penodol yn y Gyfarwyddeb Adar Gwyllt a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn cael eu trosi'n glir.

Mae'r rheoliadau hefyd yn diwygio adran 15 o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 er mwyn ei gwneud yn glir y gall awdurdodau lleol ddynodi Gwarchodfeydd Natur Lleol at ddibenion ailsefydlu cynefinoedd adar.

#### **Materion technegol: craffu**

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 (ix) mewn perthynas â'r offeryn hwn: nad yw wedi'i wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.

#### **Rhinweddau: craffu**

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 (ii) mewn perthynas â'r offeryn hwn: mae'n codi materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

1. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan bod y newidiadau yn cael eu cyflwyno mewn ymateb i ohebiaeth a gafwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd mewn perthynas â diffygion yn y ffordd y mae'r DU yn trosi'r Gyfarwyddeb Adar Gwyllt, a bod y Rheoliadau wedi'u gwneud ar sail gyfansawdd oherwydd bod gofyn eu gwneud ar frys.
2. Mae'r Rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Mae gan Weinidogion Cymru, yn unol â'r dynodiad o dan Adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, ddewis o ran pa weithdrefn i'w dilyn. Er nad yw'r Rheoliadau yn diwygio unrhyw ddarpariaeth mewn Deddf neu Fesur Cynulliad, maent yn gwneud mân ddiwygiadau i ddarn o ddeddfwriaeth sylfaenol y DU.
3. Mae Rheoliad 23 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol adolygu gweithrediad ac effaith Rheoliadau 2010 a chyhoeddi adroddiad o fewn pum mlynedd ar ôl i'r Rheoliadau hyn ddod i rym a phob pum mlynedd wedyn. Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn nodi pam nad ystyriwyd hi'n briodol i Weinidogion Cymru gynnal adolygiad.

**David Melding AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**24 Medi 2012**

**Ymatebodd y Llywodraeth fel a ganlyn:**

**Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) 2012**

Bydd y rheoliadau cyfansawdd hyn yn berthnasol i Gymru a Lloegr ac yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ac yn y ddau Dŷ yn Senedd y DU. Gan y bydd Senedd y DU yn craffu ar y Rheoliadau, nid ystyrir ei bod yn rhesymol ymarferol i'r offeryn hwn gael ei wneud na'i osod yn ddwyieithog.